# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

8 Hydref 2021
Nia Jones

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd trwy We-Ddarlledu o Bell ar, Dydd Gwener, 15 Hydref 2021 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

3. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 21 Mai 2021 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi (Tudalennau 3 - 8)**

4. **Ystyried adroddiad ar Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 - materion sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (Tudalennau 9 - 12)**

5. **Ystyried Adroddiad Cynllun Gweithredu Amrywiaeth Mewn Democratiaeth (Tudalennau 13 - 16)**

6. **Ystyried adroddiad Adolygu Etholiadol o Ffiniau'r Wardiau (Tudalennau 17 - 22)**

7. **Ystyried adroddiad ar Ddisgrifiadau o Rolau Aelodau Etholedig (Tudalennau 23 - 68)**

8. **Ystyried adroddiad ar Fframwaith Datblygu ar gyfer Cynghorwyr yng Nghymru 2021 (Tudalennau 69 - 84)**

9. **Ystyried adroddiad ar Ddarpariaeth TGCh Aelodau ar ôl etholiadau 2022 (Tudalennau 85 - 100)**

10. **Ystyried Canllaw Ddrafft ar gyfer Ymgeiswyr Cyngor Sir Ceredigion (Tudalennau 101 - 118)**

11. **Ystyried Rhaglen Sefydlu Aelodau 2022 ddrafft (Tudalennau 119 - 122)**

12. **Ystyried Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democratаid (Tudalennau 123 - 136)**

**13. Ystyried adroddiad ar Ymgynghoriad ar Adroddiad Blynyddol Ddrafft 2022/23 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** **(Tudalennau 137 - 140)**

**14. Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**



**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At:** **Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

**Cofnodion Cyfarfod o PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor - Penmorfa ddydd Dydd Gwener, 21 Mai 2021**

**PRESENNOL:** Cynghorydd Ceredig Davies (Cadeirydd), Cynghorwyr Cynghorydd Clive Davies, Cynghorydd Gwyn James, Cynghorydd Dai Mason a'r Cynghorydd Wyn Thomas

Roedd y Cynghorwyr Elizabeth Evans, Rhodri Evans, Gareth Lloyd a Ray Quant hefyd yn bresennol.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol:Gwasanaethau Democrataidd, Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol:Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol-Gwasanaethau Democrataidd, Hannah Rees, Swyddog Llywodraethu

(10.00 - 11.50 am)

**Gweithdrefn**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1 **Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Lloyd Edwards am ei analluu i fynychu'r cyfarfod.

2 **Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau.

3 **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2020**

**PENDERFYNWYD** nodi bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2020 yn rhai cywir.

**Materion yn codi**

Eitem 6: Yn ystod y cyfarfod ar 15 Hydref 2020, nodwyd bod y Cynghorydd Keith Evans wedi cyflwyno ymholiad ynglŷn ag ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu cytundeb grŵp ar gyfer cysylltiad band eang cyflym iawn/ffeibr i holl Gynghorwyr ac Uwch Swyddogion y Cyngor, gan wneud cais i'r Swyddogion ymchwilio i'r mater.

Dywedwyd bod darparu cysylltiadau cyflym iawn yn bosibl, gan ddefnyddio datrysiadau gwahanol, ond maent i gyd yn golygu costau llawer uwch o ran eu gosod ac o safbwynt refeniw blynyddol, felly nid mater technegol yw hwn ond mater sy'n ymwneud â chyllid a pholisi, pwy sy'n gymwys a sut y mae'r ddarpariaeth yn cael ei hariannu. Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor dros 1000 o staff sy'n cysylltu'n ddyddiol o'u cartrefi, gan ddefnyddio'u band eang ac maent yn gallu cyflawni'r rhan fwyaf o'u dyletswyddau. Os penderfyna'r Awdurdod y bydd yn darparu band eang cyflym iawn i rai unigolion, yna bydd angen cytuno ar bolisi a fydd yn nodi pwy fydd yn cael y gwasanaeth, pam mae hawl ganddynt i'r gwasanaeth hwn a sut y bydd yn cael ei ariannu.

Dywedodd y Cynghorydd Clive Davies iddo fod yn cyfathrebu'n gyson ag Openreach a Llywodraeth Cymru ynglŷn â datblygiad a chynnydd y band eang yng Ngheredigion, a bod pethau'n gwella drwy'r amser. Cyfeiriodd hefyd at gyhoeddiad a wnaed ynghynt y diwrnod hwnnw y byddai arian ychwanegol ar gael o Lywodraeth y DU i gefnogi unrhyw ddatblygiadau pellach.

**4 Adroddiad sy'n argymell adolygiad o faint pob pwyllgor**

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad i'r pwyllgor, gan nodi bod gwaith Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru o adolygu ffiniau Cyngor Sir Ceredigion wedi ei gwblhau a'n bod ar hyn o bryd yn aros am benderfyniad gan Weinidogion Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r argymhellion hyn. Os gwneir Gorchymyn yn unol ag argymhellion y Comisiwn Ffiniau, bydd nifer y Cynghorwyr a fydd yn cynrychioli Cyngor Sir Ceredigion yn gostwng o 42 i 38 o fis Mai 2022 ymlaen. Bydd hyn hefyd yn cael effaith ar gapasiti'r Aelodau ac o ganlyniad yn effeithio ar niferoedd pob pwyllgor.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Trawsbleidiol i ystyried adolygu maint y pwyllgorau, gyda deilliannau'r adolygiad i'w rhoi mewn grym o fis Mai 2022, wedi i'r Gorchymyn gael ei wneud; gyda golwg ar gyflwyno argymhellion i'r Cyngor ym mis Ionawr 2022.

**5 Adroddiad ar faint Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu yr adroddiad i'r pwyllgor, gan nodi bod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn datgan bod yn rhaid i un rhan o dair o aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn aelodau lleyg o 5 Mai 2022 ymlaen.

Nodwyd i'r mater hwn eisoes gael ei drafod gan y Pwyllgor Archwilio ar 24 Chwefror 2021 ac mai'r opsiwn a ffafriai'r pwyllgor hwnnw yw cynyddu nifer yr aelodau lleyg o 1 i 3 a bod nifer y Cynghorwyr Sir yn parhau'n 6. Nodwyd y byddai goblygiadau o ran cost o ganlyniad i gynyddu nifer yr aelodau lleyg, fodd bynnag, byddai hyn yn gyfle i ddod ag amrywiaeth o arbenigeddau i'r pwyllgor.

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn y broses o recriwitio Aelodau Lleyg ychwanegol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Codwyd pryder y byddai oedi'r broses hon hyd at benderfyniad y Cyngor ym mis Ionawr 2022 yn arwain at fethu recriwtio digon o aelodau cyn mis Mai 2022.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** argymell i'r Cyngor y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gynnwys 3 aelod annibynnol / lleyg a 6 Aelod o'r Cyngor Sir o 6 Mai 2022 ymlaen.

**6 Adroddiad ar agweddau o'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 - materion sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

Cyflwynodd Rheolwr Corfforaethol y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad i'r pwyllgor, yn amlinellu'r prif agweddau yn Neddf Llywodraeth

Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a oedd yn berthnasol i'r pwyllgor, gan gynnwys strategaeth a oedd yn annog pobl leol i gyfranogi, creu cynllun e-ddeisebau a'r ddyletswydd i gyhoeddi cyfeiriadau swyddogol, darlledu cyfarfodydd yn electronig, galluogi swyddi i gael eu rhannu, absenoldebau teuluol, dyletswyddau arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad a sicrhau bod yr wybodaeth ar gael i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Nododd Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethu fod gofyniad o ran cymhwysiad ac anghymhwysiad Aelodau.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** nodi'r agweddau hynny o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) sy'n cyfeirio'n benodol at y Gwasanaethau Democrataidd.

**7 Adroddiad ar y newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor**

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, adroddiad i'r pwyllgor, yn nodi bod Gweithgor Trawsbleidiol y Cyngor sydd yn edrych ar y Cyfansoddiad wedi cymeradwyo'r newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor yng nghyfarfod y gweithgor a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2021 a'u bod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Roedd y newidiadau arfaethedig yn ymwneud â rheolau gweithdrefnau'r Cyngor o ran Rhybudd o Gynnig, y gweithdrefnau 'Galw i Mewn' ac egwyddorion systemau pleidleisio a oedd yn ymwneud â mwyafrif syml a phleidlais fwrw'r Cadeirydd.

Nod y newidiadau hyn i atodiadau 1 a 2 yw symleiddio'r gweithdrefnau a'i gwneud hi'n glir erbyn pryd y mae'n rhaid cyflwyno Cynnig, sut mae gwneud diwygiadau cyn y cyfarfod ac yn ystod y cyfarfod. Mae'r newidiadau hefyd yn egluro beth sy'n gallu cael ei alw i mewn a beth na ellir ei alw i mewn, y meini prawf ar gyfer cyfeirio materion at y Cyngor a chydsyniad o ran penderfyniadau brys.

Argymhellwyd hefyd bod rheolau trosfwaol y Cyngor sy'n ymwneud â phleidleisio ac sydd wedi eu nodi yn y cyfansoddiad, yn cael eu dyblygu ar gyfer pob pwyllgor, er eglurder.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** argymell i'r Cyngor bod y newidiadau canlynol yn cael eu gwneud i'r Cyfansoddiad:

1) cymeradwyo'r newidiadau a gynigiwyd ynghlych gwneud Rhybudd o Gynnig a'r Weithdrefn Galw i Mewn
2) cymeradwyo'r newidiadau a gynigiwyd er mwyn rheoleiddio trefniadau gweithdrefnol y Cabinet a'r Pwyllgorau i adlewyrchu Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, o ran y mwyafrif mewn pleidlais a phleidlais fwrw'r Cadeirydd mewn cyfarfodydd.

**8 Blaenraglen waith ar gyfer 2021/22**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r flaenraglen waith ar gyfer 2021, a nodwyd bod Aelodau'n gallu cynnig ychwanegiadau i'r Flaenraglen Waith wrth i faterion godi.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r flaenraglen waith fel y'i cyflwynwyd.

**9 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

Nodwyd bod y Cadeirydd wedi gofyn i'r holl gynghorwyr cyn y cyfarfod hwn a oedd ganddynt unrhyw faterion i'w codi. Roedd yr eitemau canlynol wedi'u cyflwyno i'r Cadeirydd:

a) Nodwyd bod y wasg yn ddiweddar wedi adrodd am geisiadau am ollyngiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau. Cytunwyd y byddai'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol yn trafod y mater hwn gyda Chadeirydd newydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau, gydag argymhelliad bod nodyn ar y ffurflen ollyngiad yn dweud y bydd gwybodaeth a roddir ar y ffurflen yn cael ei chyhoeddi.

b) Holodd Aelodau beth oedd y llinell amser ddisgwyliedig o ran dychwelyd i Benmorfa. Nodwyd na fyddai'n bosibl dychwelyd tra byddai cyfarpar newydd yn cael ei osod yn Siambr y Cyngor.

c) Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn gofyn i Arweinydd y Cyngor ddarparu diweddariad sylweddol ynglŷn â Covid-19 fel eitem ar yr agenda, gan ganolbwyntio ar ddatblygiadau tymor byr, yn hytrach na rhoi diweddariad llafar, fel y gall Aelodau baratoi cwestiynau o flaen llaw. Cydnabuwyd y byddai angen i'r data sy'n ymwneud ag achosion o Covid-19 gael ei ddarparu'n llafar ar y diwrnod.

d) Nododd Aelodau fod y system ymholiadau CLIC, ohoni'i hun, yn gweithio'n effeithiol, fodd bynnag nid yw Aelodau yn gwybod pwy sy'n ymdrin ag ymholiadau penodol, ac yn aml nid ydynt yn derbyn adborth wedi i rywun ymdrin â mater. Nodwyd hefyd bod y system yn darparu tocyn â rhif gwahanol wrth wneud ymholiadau dilynol ynglŷn â chais, ac felly, mae'n anodd dilyn hynt ymholiadau. Nodwyd bod y Gwasanaeth yn datblygu cyfleuster 'Eich Cyfrif' ar hyn o bryd a bydd hyn yn hwyluso pethau. Gofynnwyd i swyddogion roi gwybod beth yw'r llinell amser ar gyfer y datblygiad hwn.

e) Gofynnodd Aelodau a fyddent yn gymwys i dderbyn talebau gofal llygaid. Mae'r rhain ar gael ar hyn o bryd i weithwyr y Cyngor. Nodwyd bod y rheoliadau sy'n ymwneud ag Offer Sgriniau Arddangos (DSE) yn ymwneud â deddfwriaethau iechyd a diogelwch i gyflogeion a gweithwyr. Er nad yw Aelodau'n dechnegol yn perthyn i'r categorïau cyflogeion neu weithwyr, yr awgrym a gafwyd yn gyngor gan Wasanaethau Pobl a Threfniadaeth, yw y gallai aelodau fod yn gymwys i hawlio o dan raglen gofal llygaid y Cyngor os yw'r Gwasanaethau Democrataidd o'r farn bod aelodau'n bodloni meini prawf y ddeddfwriaeth Offer Sgriniau Arddangos. Mae'r rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn datgan fel a ganlyn:

"*Mae'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i gyflogwyr y mae eu gweithwyr yn defnyddio DSE yn rheolaidd fel rhan arwyddocaol o'u gwaith arferol yn unig (dyddiol, am gyfnodau parhaus o awr neu fwy). Gelwir y gweithwyr hyn yn ddefnyddwyr DSE. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn berthnasol i weithwyr sy'n defnyddio DSE yn anaml am gyfnodau byr o amser.*"

Nodwyd y byddai angen datblygu proses ar gyfer Cynghorwyr ac y byddai'n rhaid iddynt hwy ddatgan eu bod yn defnyddio offer sgriniau arddangos yn ddyddiol, am awr neu fwy ar y tro.

f) Gofynnodd Aelodau ynghylch darparu ail ddarn o offer TG i Gadeiryddion Pwyllgorau. Nodwyd bod Aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgorau a oedd cyn hyn wedi gofyn am i-pad, wedi cael cynnig cael gliniadur ar fenthyg y llynedd, er mwyn hwyluso'r gwaith o gydlynu pwyllgorau wrth iddynt weithio gartref. Bydd cais yn cael ei wneud i'r Aelodau nad ydynt bellach yn Gadeiryddion Pwyllgorau ddychwelyd yr offer sydd ar fenthyg a bydd Cadeiryddion newydd y Pwyllgorau yn cael yr un cynnig â'r Cadeiryddion blaenorol. Nodwyd y byddai gwybodaeth a oedd yn ymwneud â'r gost o ddarparu cyfarpar ychwanegol yn cael ei hadlewyrchu yn y Datganiad o Lwfansau Aelodau a dalwyd yn ystod 2020/21. Byddai'r ddogfen honno'n cael ei chyhoeddi'n fuan.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar Dydd Mawrth, 12 Hydref 2021**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 4

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

**Dyddiad:** **15 Hydref 2021**

**Teitl:** **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – materion sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd am yr elfennau o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor**

**Cefndir**
Pasiwyd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn y Senedd ar 18 Tachwedd 2020 a rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol iddi ar 20 Ionawr 2021. Gweithredir y Ddeddf drwy gyfrwng tri Gorchymyn Cychwyn a fydd yn dod ag amrywiol agweddau o'r Ddeddf i rym gam wrth gam.

Mae'r Bil yn helaeth ac mae ganddo'r potensial i gael dylanwad ar nifer o brosesau gweinyddol a phrosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor, gan effeithio ar y rhan fwyaf o Bwyllgorau os nad pob un ohonynt. Nodwyd isod yr agweddau sy'n drwm ar adnoddau ac sy'n ymwneud yn benodol â'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Fodd bynnag, argymhellir bod yr Aelodau yn bwrw golwg ar y Bil yn ei gyfanrwydd mewn perthynas â'r argymhellion / cynigion a fydd yn effeithio ar Aelodau'n uniongyrchol.

**Dyletswydd i annog pobl leol i gyfranogi pan fo prif gynghorau yn gwneud penderfyniadau**
Mae adrannau 39-41 o Bennod 4 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn mynnu bod rhaid i brif gyngor lunio a chyhoeddi "strategaeth cyfranogiad y cyhoedd" sy'n cynnwys hybu ymwybyddiaeth o swyddogaethau'r cyngor, sut mae dod yn aelod, beth mae aelodaeth yn ei olygu, dulliau o'i gwneud yn fwy hwylus i bobl gael gwybodaeth am benderfyniadau a wnaed neu sydd i'w gwneud, cyflwyno sylwadau, dwyn safbwyntiau'r cyhoedd i sylw pwyllgorau trosolwg a chraffu a hybu ymwybyddiaeth ymhlith aelodau o fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol.

Mae'r polisi cyfranogi drafft wrthi'n cael ei ddatblygu a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 2 Tachwedd 2021 a bydd ymgynghoriad cyhoeddus gyda thrigolion Ceredigion yn dilyn. Cyflwynir y polisi diwygiedig i'r Cabinet ar 15 Mawrth 2022.

Daw'r ddarpariaeth hon i rym ar 5 Mai 2022.

**Dyletswydd i wneud cynllun deisebau**
Mae adran 42 o Bennod 4 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn ymwneud â'r gofyniad i wneud cynllun deisebau, gan gynnwys deisebau electronig.

Ar hyn o bryd rydym yn disgwyl am ddogfennau canllaw oddi wrth Lywodraeth Cymru ynghylch union hyd a lled y cynllun deisebau. Unwaith y bydd y wybodaeth hon wedi dod i law gellir gwneud diwygiadau terfynol i'r system ddeisebau ar-lein, a gwneud diwygiadau i'r cynllun drafft, er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth.

Daw'r ddarpariaeth hon i rym ar 5 Mai 2022.

**Dyletswydd i gyhoeddi cyfeiriadau swyddogol**
Mae adran 43 o Bennod 4 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn mynnu bod prif gyngor yn cyhoeddi cyfeiriad electronig a chyfeiriad post ar gyfer pob aelod o'r cyngor, fel bod modd anfon gohebiaeth ar gyfer yr aelod i'r cyfeiriadau hyn.

Mae cyfeiriadau electronig a chyfeiriadau post y rhan fwyaf o Aelodau Cyngor Sir Ceredigion ar wefan y Cyngor ar hyn o bryd. Daw'r ddarpariaeth hon i rym ar 5 Mai 2022 a bydd cyfeiriadau electronig ar gyfer pob Aelod yn cael eu hychwanegu i wefan y Cyngor yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022.

**Darlledu cyfarfodydd yn electronig**
Mae adrannau 46-51 o Bennod 4 o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn cynnig bod prif gynghorau yn gwneud a chyhoeddi trefniadau i sicrhau bod darllediad o drafodion cyfarfod ar gael fel bod aelodau o'r cyhoedd sydd ddim yn y cyfarfod yn gallu gweld a chlywed y trafodion, a bod y darllediad ar gael am gyfnod penodedig ar ôl y cyfarfod. Bydd hyn yn gymwys i gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd, gan gynnwys gweithrediaeth prif gyngor, pwyllgor neu is-bwyllgor i weithrediaeth prif gyngor, pwyllgor neu is-bwyllgor i brif gyngor, cyd-bwyllgor, neu is-bwyllgor i gyd-bwyllgor, o ddau brif gyngor neu ragor.

Oddi ar 1 Mai 2021 bydd y trydydd Gorchymyn Cychwyn yn dod i rym mewn perthynas â phresenoldeb, gan gynnwys presenoldeb o bell, yng nghyfarfodydd awdurdodau lleol. Roedd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 yn darparu hyblygrwydd i alluogi awdurdodau lleol i weithio'n ddiogel, yn effeithiol ac yn gyfreithlon, gan barchu'r egwyddor o fod yn agored ac yn atebol i'r cyhoedd. Roedd Rheoliadau 2020 yn ymwneud â chyfarfodydd a gynhaliwyd cyn 1 Mai 2021, felly mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn galluogi awdurdodau i bontio rhwng Rheoliadau 2020 a darpariaethau parhaol y Ddeddf, fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaethau Amrywiol) 2021.

Gall Gweinidog Cymru, drwy reoliad, wneud rhagor o ddarpariaethau mewn perthynas â darlledu trafodion cyfarfod. Daw'r ddarpariaeth hon i rym ar 5 Mai 2022. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn sicrhau bod canllawiau ar gael i helpu awdurdodau lleol i weithredu'r darpariaethau hyn.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud cais llwyddiannus am gyllid gan Gronfa Democratiaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru i dalu am y gost o brynu a gosod caledwedd a fydd yn cyd-fynd â'r feddalwedd ar gyfer cyfarfodydd hybrid, gyda gwasanaeth cyfieithu yn ychwanegol at y darlledu.

Mae'r broses dendro bellach wedi'i chwblhau a bydd y gwaith o osod y caledwedd angenrheidiol i gyd-fynd â meddalwedd y cyfarfodydd hybrid yn digwydd ym mis

Tachwedd. Ar hyn o bryd rydym yn disgwyl am arweiniad gan Lywodraeth Cymru o ran pa gyfarfodydd y bydd yn ofynnol inni eu darlledu. Cyhoeddir y trefniadau unwaith y bydd y wybodaeth hon wedi i law.

**Camau nesaf:**

Gwneir gwaith dros y flwyddyn nesaf i sicrhau bod y Cyngor yn bodloni gofynion statudol y Ddeddf. Mae Cynllun Gweithredu wrthi'n cael ei ddatblygu i sicrhau y bodlonir yr amserlen.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad:** | **Bod y Pwyllgor yn nodi'r elfennau o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.** |
| **Atodiadau:** | **Dim** |
| **Papurau Cefndirol:** | **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021:** https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=26688 |

| | |
|---|---|
| **Enw:** | **Nia Jones** |
| **Teitl swydd:** | **Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **27.09.2021** |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 5

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **15 Hydref 2021** |
| **Teitl:** | **Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Gofyn i'r Pwyllgor ystyried Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth a chytuno iddo** |

**Cyflwyniad**

Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ar 23 Medi 2021, cymeradwyodd yr Aelodau'r Datganiad Amrywiaeth fel y cytunwyd gan Gyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

*Mae'r Cyngor hwn yn ymrwymo i fod yn Gyngor Amrywiol. Rydym yn cytuno i wneud y canlynol:*

- *Rhoi ymrwymiad cyhoeddus clir i wella amrywiaeth mewn democratiaeth*
- *Arddangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb, gan hybu'r safonau ymddygiad uchaf*
- *Ystyried amrywio amser cychwyn cyfarfodydd y cyngor a chytuno ar gyfnodau toriad i gefnogi cynghorwyr sydd ag ymrwymiadau eraill; a*
- *Nodi Cynllun Gweithredu o weithgarwch cyn etholiadau lleol 2022.*

Hefyd, cymeradwyodd y Cyngor y dylai Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd, ar y cyd ag Arweinwyr y Grwpiau, gytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer y cyfnod sy'n arwain at etholiadau lleol 2022 gyda'r bwriad o wella amrywiaeth mewn democratiaeth, a rhoi'r cynllun gweithredu hwnnw ar waith.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad:** | **Cytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer y cyfnod sy'n arwain at etholiadau lleol 2022 gyda'r bwriad o wella amrywiaeth mewn democratiaeth** |
| **Atodiad:** | **Atodiad A – Cynllun Gweithredu** |

**Dogfennau cefndir:**

**Lowri Edwards**
**Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd**

**27 Medi 2021**

ATODIAD A

CYNGOR SIR CEREDIGION

CYNLLUN GWEITHREDU AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH

| AMCAN | CAMAU GWEITHREDU | AMSERLEN |
|---|---|---|
| Cynyddu ymwybyddiaeth o rôl yr Aelodau, y cyfraniad y maent yn ei wneud i gymdeithas a’r ffyrdd y gall pobl ddod yn Aelodau Etholedig | Paratoi canllaw i Ymgeiswyr<br><br>Adolygu’r dudalen berthnasol ar wefan y Cyngor a chynnwys y canllaw i Ymgeiswyr<br><br>Hyrwyddo’r canllaw i ymgeiswyr ar y cyfryngau cymdeithasol | Y fersiwn ddrafft i’w hadolygu gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Tua mis Tachwedd / Rhagfyr ar ôl i ni dderbyn canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a chael cadarnhad o Reolau Etholiadau Lleol (Cymru) 2021.<br><br>Rhagfyr 2021 |
| Cynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd amrywiaeth mewn democratiaeth | Y Cyngor i ymrwymo i’r Datganiad Amrywiaeth<br><br>Y Tîm Cyfathrebu i gyhoeddi Datganiad i’r Wasg<br><br>Adolygu gwefan y Cyngor a chynnwys y Datganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth<br><br>Defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo amrywiaeth mewn etholiadau Llywodraeth Leol | Cytunodd y Cyngor i hyn ar 23.09.21<br><br>23.09.2021<br><br>Hydref 2021<br><br>Rhagfyr 2021 – Mawrth 2022 |
| Cynyddu’r cyfleoedd i unigolion weithio mewn ffyrdd a fydd yn sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Bydd hyn yn amddiffyn eu llesiant ac yn caniatáu iddynt reoli unrhyw gyfrifoldebau gofalu neu unrhyw sefyllfaoedd lle mae rhywun arall yn dibynnu arnynt. | Trefniadau ar gyfer cyfarfodydd hybrid<br><br>Defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo’r cyfleoedd sydd ar gael o ran rhannu’r swydd ynghyd â’r buddion eraill sy’n bodoli megis y darpariaethau absenoldeb teuluol, a’r cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol. | Ionawr 2022<br><br>Rhagfyr 2021 – Mawrth 2022 |

| | | |
|---|---|---|
| | Adolygu amseroedd cyfarfodydd er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd a sicrhau amseroedd sy'n gyfleus i aelodau'r Pwyllgorau | Mae'r adolygiad hwn yn cael ei gynnal bob blwyddyn. Bydd yn cael ei gynnal ar ôl yr etholiadau. |
| Darparu rhaglen ymwybyddiaeth a hyfforddiant i'r Aelodau | Adolygu'r sesiynau hyfforddi a datblygu y byddai modd eu darparu ar-lein<br><br>Rhaglen Sefydlu'r Aelodau | Parhaus<br><br>Parhaus |
| Cynnal arolwg amrywiaeth a chynhwysiant gyda'r Aelodau presennol | Cynnal arolwg amrywiaeth a chynhwysiant gyda'r Aelodau. Bydd modd defnyddio'r ymateb a ddaw i law i baratoi ar gyfer etholiadau'r dyfodol. Byddwn yn ystyried yr adborth hwn gan fynd i'r afael â'r rhwystrau y bydd Aelodau unigol wedi'u hwynebu yn ystod eu cyfnod yn y swydd. Bydd yr adborth a ddaw o'r arolwg hwn o gymorth i sicrhau y bydd amgylchedd cadarnhaol ac amrywiol ar gael i Aelodau'r dyfodol gyflawni eu rolau. | |
| Ymgysylltu mwy â'r cyhoedd i godi ymwybyddiaeth o rôl y Cyngor a'i weithgareddau a'r modd y gall y cyhoedd gyfrannu'n well at y broses o wneud penderfyniadau yn lleol. | Mae'r Polisi Ymgysylltu drafft sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd yn darparu gwybodaeth am y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac ymgynghori â'r cyhoedd.<br><br>Creu cynllun e-ddeisebau<br><br>Cyhoeddi cyfeiriadau post ac electronig pob Aelod<br><br>Caniatáu i'r Aelodau ymuno â chyfarfodydd y Cyngor o bell. | Ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Cyhoeddi tua mis Tachwedd 2021<br><br>Mai 2022<br><br>Mai 2022<br><br>Ar hyn o bryd, mae'r Cynghorwyr ac aelodau'r cyhoedd yn medru ymuno â chyfarfodydd drwy gyfrwng Zoom. Bydd opsiwn hybrid |

| | | |
|---|---|---|
| | Ar hyn o bryd, gall aelodau'r cyhoedd awgrymu materion neu bynciau i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu eu trafod a rhoi eu barn ar faterion fydd yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd sydd i'w cynnal yn fuan. Mae protocol ar waith sy'n amlinellu'r broses hon a gellir gweld y protocol ar wefan y Cyngor.<br><br>Datblygu protocol lle bydd gan y cyhoedd y dewis naill ai i annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn uniongyrchol drwy gyfrwng Zoom neu i gael swyddog i ddarllen sylwadau ar eu rhan.<br><br>Cyhoeddi canllaw ynglŷn â chyfansoddiad y Cyngor. | yn disodli'r drefn bresennol tua mis Ionawr 2022<br><br>Hydref 2021<br><br>Mae'r Cyfansoddiad ar wefan y Cyngor ar hyn o bryd. Bydd y canllaw yn barod erbyn Mai 2022 |

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **15 Hydref 2021** |
| **Teitl:** | **Adolygiad Etholiadol o Ffiniau'r Wardiau** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Tynnu sylw at y diwygiadau o ran Ffiniau'r Wardiau yng Ngheredigion, yr effaith ar Aelodaeth Pwyllgorau** |

**Cefndir**

Yn ddiweddar roedd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wedi cynnal arolwg o'r trefniadau etholiadol yng Ngheredigion yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, gan gyhoeddi ei Argymhellion Terfynol ar 31 Mai 2019.

Cynigiodd y Comisiwn gyngor o 38 aelod, sef gostyngiad o'r 42 aelod presennol, gyda chyfartaledd sirol o 1,384 o etholwyr am bob aelod. Hefyd argymhellodd fod 34 o wardiau etholiadol, sef gostyngiad o'r 40 o wardiau a geir ar hyn o bryd. Mae'r wardiau diwygiedig yn ganlyniad i greu pedair ward etholiadol gyda bob o ddau aelod, sef Aberporth a'r Ferwig, Aberystwyth Morfa a Glais, Aberystwyth Penparcau, a Beulah a Llangoedmor; hefyd cyfuno rhan o gymuned ward ynghyd â'i chymuned gyfagos. Gwelir y rhaniadau cymunedol hyn yng nghymunedau Dyffryn Arth, Llandysul a Nantcwnlle.

Ar 14 Medi 2021, derbyniodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gydag addasiadau mewn perthynas â Sir Ceredigion, i'w rhoi ar waith ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2022. Mae disgwyl y fersiwn derfynol gytunedig cyn bo hir, ar ôl ymdrin ag ambell i eitem fach sy'n weddill parthed enwau wardiau.

Gellir bwrw golwg ar y manylion llawn yn yr 'Adroddiad Argymhellion Terfynol' sydd ar gael ar-lein:
https://cffdl.llyw.cymru/sites/ldbc/files/review/Ceredigion%20Adroddiad%20Argymhellion%20Terfynol%201_0.pdf

**Y camau nesaf:**

Bydd gwaith yn mynd rhagddo dros y misoedd nesaf i baratoi ar gyfer yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai y flwyddyn nesaf. Datblygir strategaeth gyfathrebu i sicrhau bod y trigolion yn ymwybodol o'r newidiadau a fydd yn cael effaith arnynt. Sefydlwyd grŵp Gorchwyl a Gorffen i gynnal adolygiad llawn o faint ac aelodaeth holl bwyllgorau'r Cyngor er mwyn sicrhau fod cynrychiolaeth briodol o ganlyniad i'r cwtogi yn nifer y Cynghorwyr. Cyfarfu'r grŵp am y tro cyntaf ar 29 Medi, ac rydym yn anelu at gyflwyno argymhellion y grŵp hwn i'r Cyngor ddim hwyrach na mis Rhagfyr eleni.

| | |
|---|---|
| **Argymhellion:** | Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynllun gweithredu yn y camau nesaf uchod; |

| | |
|---|---|
| **Atodiadau:** | A: Datganiad Ysgrifenedig – Penderfyniad ar y Trefniadau Etholiadol, 12 Awst 2021 |
| **Dogfennau cefndirol:** | 'Adroddiad Argymhellion Terfynol' Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru: https://cffdl.llyw.cymru/sites/ldbc/files/review/Ceredigion%20Adroddiad%20Argymhellion%20Terfynol%201_0.pdf |

**Enw:** **Lowri Edwards**
**Teitl swydd:** **Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd**
**Dyddiad:** **06.10.2021**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Adolygiad o Ffiniau Etholiadol Awdurdodau Lleol – yr wybodaeth ddiweddaraf** |
| **DYDDIAD** | **12 Awst 2021** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol** |

Ar 16 Mehefin, ysgrifennais at yr Aelodau i amlinellu sefyllfa bresennol y rhaglen o Adolygiadau Trefniadau Etholiadol sy'n mynd rhagddi. Nodais hefyd sut yr oeddwn yn bwriadu cyfathrebu fy mhenderfyniadau ynglŷn â phob ardal.

Roedd hyn yn cynnwys fy ymrwymiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau yn rheolaidd drwy ddatganiadau ysgrifenedig. Dyma'r pumed o'r diweddariadau hynny.

Ar 11 Awst, ysgrifennais at Arweinydd a Phrif Weithredwr Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i gadarnhau fy mhenderfyniad i dderbyn argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gydag addasiadau, mewn perthynas â Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Mae Adroddiad Argymhellion Terfynol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar gyfer Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gael yma. Mae'r addasiadau i'r argymhellion hyn wedi'u nodi yn yr atodiad i'r datganiad hwn.

Yn ogystal, ysgrifennais at Arweinydd a Phrif Weithredwr Sir Ceredigion i gadarnhau fy mhenderfyniad i dderbyn argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gydag addasiadau, mewn perthynas â Sir Ceredigion.

Mae Adroddiad Argymhellion Terfynol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar gyfer Sir Ceredigion ar gael yma. Mae'r addasiadau i'r argymhellion hyn wedi'u nodi yn yr atodiad i'r datganiad hwn.

Bydd gwaith yn mynd rhagddo yn awr i roi'r penderfyniadau hyn ar waith drwy Orchymyn.

Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu unwaith y byddaf wedi gwneud penderfyniadau ynglŷn ag ardaloedd eraill.

Caiff y datganiad hwn ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf

i’r Aelodau. Os bydd yr Aelodau eisiau imi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

Atodiad

Addasiadau a wnaed i Argymhellion Terfynol y Comisiwn ar gyfer trefniadau etholiadol yr ardaloedd canlynol.

Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

- Cynigiodd y Comisiwn y dylid rhoi i ward etholiadol Parc yr enw Cymraeg Parc. Bydd yr enw Cymraeg Y Parc yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Cynigiodd y Comisiwn na ddylid newid ward etholiadol Bedlinog. Bydd yr enw Cymraeg Bedlinog a Threlewis a'r enw Saesneg Bedlinog and Trelewis yn cael ei roi i'r ward etholiadol.

Sir Ceredigion

- Cynigiodd y Comisiwn y dylid rhoi i ward etholiadol Ceulanamaesmawr yr enw unigol Ceulanamaesmawr. Bydd yr enw unigol Ceulan a Maesmawr yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Cynigiodd y Comisiwn y dylid rhoi i ward etholiadol Llanarth yr enw unigol Llanarth. Bydd yr enw unigol Llannarth yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Cynigiodd y Comisiwn y dylid rhoi i ward etholiadol Aberporth a'r Ferwig yr enw Cymraeg Aberporth a'r Ferwig. Bydd yr enw Cymraeg Aber-porth a'r Ferwig yn cael ei roi i'r ward etholiadol.
- Cynigiodd y Comisiwn y dylid rhoi i ward etholiadol Gogledd Llandysul a Throedyraur yr enw Cymraeg Gogledd Llandysul a Throedyraur. Bydd yr enw Cymraeg Gogledd Llandysul a Throed-yr-aur yn cael ei roi i'r ward etholiadol.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 7

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **15 Hydref 2021** |
| **Teitl:** | **Disgrifiadau o Rolau Aelodau Etholedig** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **Gofyn i'r Pwyllgor ystyried a chytuno ar set ddiwygiedig o Ddisgrifiadau enghreifftiol ar gyfer Rolau Aelodau Etholedig a baratowyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** |

**Cefndir**

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi llunio set ddiwygiedig o Ddisgrifiadau Rôl ar gyfer Aelodau Etholedig ar y cyd ag Aelodau a Swyddogion yr Awdurdodau Lleol. Mae'r disgrifiadau hyn sy'n amlinellu cyfrifoldebau a swyddogaethau rôl yr aelod etholedig yn cael eu cyflwyno fel awgrymiadau yn hytrach na chyfarwyddiadau. Mae gan yr Aelodau Etholedig amrywiaeth eang o rolau neu gyfrifoldebau y mae disgwyl iddynt eu cyflawni ac amcan y disgrifiadau hyn yw cynnig fframwaith a chanllawiau o ran y cyfrifoldebau hyn a'r ystod o weithgareddau y mae'r Aelodau yn ymgymryd â nhw.

Mae Atodiad A yn cynnwys disgrifiadau enghreifftiol ar gyfer y rolau canlynol:

Aelod Etholedig
Arweinydd (a Dirprwy)
Aelod Cabinet
Cadeirydd y Cyngor
Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd
Aelod o Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd
Cadeirydd Pwyllgor Rheoleiddio
Aelod o Bwyllgor Rheoleiddio
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau
Aelod o'r Pwyllgor Safonau
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
Aelod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu
Arweinydd yr Wrthblaid
Arweinydd Grŵp Gwleidyddol
Diben a Rôl yr Aelod Eiriolwr
Disgrifiad o Rôl yr Aelod Eiriolwr

Gwahoddir Aelodau Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd i ystyried a ydynt yn dymuno derbyn y fersiynau generig neu a ydynt yn dymuno addasu unrhyw un o'r

disgrifiadau rôl enghreifftiol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu amrywiaeth y rôl a gyflawnir yn gywir ynghyd â natur rolau o'r fath o fewn Cyngor Sir Ceredigion.

**Casgliad**

Gan ddibynnu ar yr hyn a gytunir iddo yn y cyfarfod hwn, cynigir bod y Disgrifiadau o Rolau Aelodau Etholedig yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor er mwyn eu cymeradwyo. Ar ôl yr etholiadau ym mis Mai 2022, bydd pob Aelod yn derbyn disgrifiad o rôl Aelod Etholedig ynghyd â'r disgrifiadau rôl eraill.

Byddai modd hefyd eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor fel rhan o'r dudalen 'Canllaw i Ymgeiswyr'.

**Argymhelliad:** **Cytuno ar y set ddiwygiedig o Ddisgrifiadau Rôl ar gyfer Aelodau Etholedig**

**Atodiad:** **Atodiad A – Disgrifiadau generig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o rolau Aelodau**

**Dogfennau cefndir:**

**Nia Jones**
**Rheolwr Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd**

**27 Medi 2021**

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Welsh Local Government Association



CLILC • WLGA

# Fframwaith o Ddisgrifiadau Rôl a Manylebau Person ar gyfer Aelodau

## Mehefin 2021

## Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Prif ddibenion CLlLC yw hyrwyddo gwell llywodraeth leol, ei henw da a chefnogi awdurdodau i ddatblygu polisïau a blaenoriaethau a fydd yn gwella gwasanaethau cyhoeddus a democratiaeth.

Mae'n cynrychioli'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ac mae'r tri awdurdod tân ac achub ac awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
Caerdydd CF10 4LG

029 2046 8600 | **www.clilc.cymru**
@WelshLGA

Cyhoeddwyd: Mehefin 2021
Hawlfraint: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

## Cefndir

Dyma set o ddisgrifiadau rôl a manylebau person cyffredinol ar gyfer aelodau etholedig. Maent yn berthnasol i bob awdurdod ac yn cael eu cynnig fel awgrymiadau yn hytrach na chyfarwyddiadau.

Mae'r disgrifiadau rôl yn pennu cyfrifoldebau a swyddogaethau'r aelod etholedig. Mae manyleb y person yn disgrifio'r rhinweddau a'r sgiliau y mae’r aelod eu hangen i gyflawni'r swydd, a gallant fod o gymorth wrth ystyried datblygiad personol.

Pan fo cynghorwyr yn cyflawni mwy nag un rôl, rhagwelir y bydd y disgrifiadau rôl yn cael eu cyfuno. Er enghraifft, byddai disgwyl i gadeirydd pwyllgor Trosolwg a Chraffu gyflawni rolau Aelod Etholedig, Aelod Trosolwg a Chraffu a Chadeirydd Trosolwg a Chraffu.

Dyluniwyd y disgrifiadau rôl hyn i’w defnyddio ochr yn ochr â Fframwaith Datblygu Cymwyseddau Cynghorwyr <https://www.wlga.cymru/councillor-development-competency-framework> Cymru, sy’n disgrifio’r sgiliau, yr wybodaeth a’r ymddygiad sy’n ofynnol gan Gynghorwyr.

Cynhyrchwyd y ddogfen hon ar y cyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac aelodau a swyddogion holl awdurdodau Cymru. Mae'n rhoi ystyriaeth i holl ddeddfwriaeth Cymru a'r DU sy'n effeithio ar rôl yr aelodau, gan gynnwys yn fwyaf diweddar, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Cysylltwch â Sarah Titcombe, Swyddog Polisi a Gwelliant (Gwasanaethau Democratig) CLlLC.
Ffôn: 029 2046 8638. Ebost: sarah.titcombe@wlga.gov.uk

## Cynnwys


| Disgrifiad o'r Rôl: | Tudalen |
|---|---|
| ▪ Aelod Etholedig | 5 |
| ▪ Arweinydd (a Dirprwy) | 7 |
| ▪ Aelod Cabinet | 10 |
| ▪ Cadeirydd y Cyngor | 12 |
| ▪ Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 15 |
| ▪ Aelod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 17 |
| ▪ Cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio | 19 |
| ▪ Aelod y Pwyllgor Rheoleiddio | 20 |
| ▪ Cadeirydd y Pwyllgor Safonau | 21 |
| ▪ Aelod y Pwyllgor Safonau | 23 |
| ▪ Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | 24 |
| ▪ Aelod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | 27 |
| ▪ Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu | 29 |
| ▪ Aelod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu | 32 |
| ▪ Arweinydd yr Wrthblaid | 35 |
| ▪ Arweinydd Grŵp Gwleidyddol | 37 |
| ▪ Diben a Rôl yr Aelod Eiriolwr | 41 |
| ▪ Disgrifiad o Rôl yr Aelod Eiriolwr | 43 |

## Disgrifiad o Rôl Aelod Etholedig

### 1. Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I etholwyr eu ward

### 2. Diben a Gweithgareddau'r Rôl

**Cynrychioli a chefnogi cymunedau**

- Cynrychioli buddiannau'r ward.
- Hyrwyddo'r Cyngor yn y ward a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.
- Bod yn ddolen gyswllt â'r gymuned ynghylch strategaethau, polisïau, gwasanaethau a gweithdrefnau'r cyngor.
- Cynrychioli etholwyr unigol a sefydliadau lleol, gan ymgymryd ag achosion unigol ar eu rhan a gwasanaethu pawb mewn modd teg a chyfartal.
- Cysylltu â'r aelodau gweithredol, aelodau eraill y cyngor, swyddogion y cyngor a sefydliadau partner i ofalu eu bod yn adnabod, yn deall ac yn diwallu anghenion y cymunedau lleol.
- Bod yn wyliadwrus a gwneud pob ymdrech i ddiogelu oedolion a phlant sydd mewn perygl o gael eu cam-drin.
- Hyrwyddo goddefgarwch a chydlyniad yn y cymunedau lleol.

**Gwneud penderfyniadau a chadw golwg ar berfformiad y cyngor**

- Cymryd rhan yng Nghyfarfodydd Llawn y Cyngor, gan ddod i benderfyniadau doeth a chytbwys a chadw golwg ar berfformiad y Cyngor.
- Helpu unrhyw bwyllgor neu banel y maent wedi'u penodi iddynt i ddod i benderfyniadau doeth a chytbwys.
- Cadw at egwyddorion democratiaeth a chydgyfrifoldeb wrth wneud penderfyniadau.
- Ysgwyddo cyfrifoldeb corfforaethol am ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.
- Hyrwyddo a sicrhau trefniadau effeithiol ac effeithlon mewn perthynas â darparu gwasanaethau'r cyngor a gwasanaethau cyhoeddus eraill.

**Cynrychioli'r Cyngor (yn amodol ar benodiad)**

- Cynrychioli'r Cyngor ar unrhyw gorff allanol lleol y maent wedi'i benodi iddo.
- Cynrychioli'r Cyngor ar gyrff partneriaeth lleol, gan hyrwyddo'r buddiannau cyffredin a'r syniad o gydweithio er lles y naill a'r llall.
- Cynrychioli a hyrwyddo'r Cyngor ar gyrff cenedlaethol ac mewn digwyddiadau cenedlaethol.

**Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau**

- Hyrwyddo a chynnal llywodraethu da yn y Cyngor a'i waith.
- Arwain y gymuned a hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar.
- Hyrwyddo a chynnal llywodraeth agored a thryloyw.
- Meithrin a chadw cysylltiadau parchus, priodol ac effeithiol â gweithwyr y Cyngor, y cyhoedd ac aelodau eraill y Cyngor.
- Cadw at God Ymddygiad yr Aelodau, protocolau'r aelodau/swyddogion a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus.
- Rhoi sylw i ofynion Arweinydd y Grŵp (os oes yna un) mewn materion sy'n ymwneud ag ymddygiad.
- Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.

**Datblygiad personol a phroffesiynol**

Mynd ati i adnabod anghenion unigol a chymryd rhan mewn cyfleoedd datblygu y mae'r cyngor yn eu cynnig i'r aelodau.

## 3. Gwerthoedd

**Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:**

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at wahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd

## Disgrifiad o Rôl yr Arweinydd (a'i Ddirprwy)

### 1. Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I'r Cyhoedd

### 2. Diben a Gweithgareddau'r Rôl

**Cynnig arweiniad gwleidyddol i'r Cyngor**

- Bod yn arweinydd gwleidyddol amlwg i'r Cyngor ac yn brif lefarwr gwleidyddol iddo.
- Cynnig arweiniad o ran meithrin consensws gwleidyddol mewn perthynas â pholisïau'r cyngor.
- Pennu gweledigaeth ar gyfer y Cyngor a'r gymuned.
- Cynnig arweiniad cryf a chlir o ran cydlynu polisïau, strategaethau a threfniadau darparu gwasanaethau.

**Penodi'r Cabinet***

- Pennu'r portffolios priodol.
- Penodi aelodau etholedig priodol i bob portffolio.
- Dyrannu cyfrifoldebau i aelodau'r cabinet yn ôl eu galluoedd.
- Penodi'r Dirprwy Arweinydd.

**Cynrychioli'r Awdurdod a bod yn Llysgennad iddo**

- Cynrychioli'r Awdurdod at safon uchel.  Cynrychioli'r Awdurdod mewn modd cadarn, cymwys a huawdl o fewn y Sir ac ar gyrff allanol, fel ei gilydd.
- Cynrychioli'r Awdurdod ym mhwyllgor cydlynu CLlLC a bwrdd partneriaeth rhanbarthol CLlLC.
- Cynnig arweiniad a chymorth i bartneriaethau a sefydliadau lleol.
- Cynrychioli'r Awdurdod ar gyrff rhanbarthol a chenedlaethol, fel bo'n briodol.

**Cynnig arweiniad o fewn y portffolio**

- Cyflawni rôl deiliad portffolio, gan roi sylw i ddiben a gweithgareddau'r rôl a manyleb rôl aelod etholedig.

**Rheoli ac arwain gwaith y Cabinet a chadeirio ei gyfarfodydd**

- Sicrhau effeithiolrwydd y Cabinet drwy reoli'r rhaglen gwaith i'r dyfodol a'i datblygu drwy'r amser.
- Gofalu bod gwaith y Cabinet yn bodloni amcanion polisïau cenedlethol.
- Cytuno ar amcanion gydag Aelodau'r Cabinet, a monitro cynnydd.
- Cynghori a mentora aelodau eraill o'r Cabinet yn eu gwaith.

- Cadeirio cyfarfodydd y Cabinet yn unol â'r Cyfansoddiad.
- Pan fo'r Arweinydd yn absennol, ei Ddirprwy ddylai gyflawni’r rôl hon.

**Cymryd rhan ym mhroses benderfynu'r Cabinet**

- Cydweithio'n agos ag aelodau eraill y Cabinet er mwyn gofalu bod polisïau a fframwaith cyllidebol y Cyngor yn effeithiol a bod gwasanaethau o'r radd flaenaf ar gael i'r bobl leol.
- Derbyn cyfrifoldeb ar y cyd a chefnogi penderfyniadau'r Cabinet ar ôl eu cyhoeddi.

**Cydweithio â swyddogion i arwain y sefydliad**

- Cysylltu â'r Prif Weithredwr a swyddogion priodol eraill yn rheolaidd.
- Cydweithio â gweithwyr y Cyngor mewn perthynas â’i weledigaeth a’i gyfeiriad strategol, rolau’r swyddogion ym maes rheoli a datblygu materion polisi.

**Arwain partneriaethau a'r gymuned**

- Cynnig arweiniad i bartneriaethau strategol lleol a phartneriaid lleol wrth geisio bodloni nodau a blaenoriaethau sy'n gyffredin iddynt.
- Bod yn gyfryngwr pan fo anghytuno ynghylch blaenoriaethau.
- Arwain y gymuned leol trwy ddangos dychymyg a chraffter.

**Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau**

- Hyrwyddo a chynnal llywodraethu da yn y Cyngor a'i waith.
- Arwain y gymuned a hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar.
- Hyrwyddo a chynnal llywodraeth agored a thryloyw.
- Meithrin a chadw cysylltiadau parchus, priodol ac effeithiol â gweithwyr y Cyngor.
- Cadw at God Ymddygiad yr Aelodau, Protocol yr Aelodau/Swyddogion a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus.

## 3. Gwerthoedd

**Ymrwymo i, a dangos y gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:**

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at wahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Arweinyddiaeth gynhwysol
- Datblygu consensws

## Dirprwy Arweinydd

- **Cyflawni dyletswyddau'r Arweinydd pan fo'n absennol**
- **Cynorthwyo'r Arweinydd gyda dyletswyddau penodol yn ôl yr angen**

***** Yn ôl trefniadau cyfansoddiadol ar gyfer model cabinet, gall naill ai'r Cyngor Llawn neu'r Arweinydd benodi Cabinet. Yng Nghymru, yr Arweinydd sy'n penodi'r Cabinet dan y model hwn fel arfer. Mae'r Disgrifiad Rôl hwn wedi'i ysgrifennu’n unol â hynny, gan nodi y gallai cynghorau amrywio’r trefniant hwn.

## Disgrifiad o Rôl Aelod Cabinet

### 1. Atebolrwydd

- I'r Arweinydd
- I'r Cabinet (drwy gydgyfrifoldeb)
- I'r Cyngor Llawn

### 2. Diben a Gweithgareddau'r Rôl

**Arwain portffolio**

- Cynnig cyfeiriad gwleidyddol i swyddogion sy'n gweithio o fewn y portffolio.
- Ennill parch y swyddogion hynny a helpu swyddogion i roi rhaglenni portffolio ar waith.
- Cynnig arweiniad yn y portffolio.
- Cysylltu â chadeirydd y pwyllgor craffu priodol a derbyn adroddiadau craffu yn ôl yr angen.
- Bod yn atebol am ddewisiadau a pherfformiad yn y portffolio.
- Cadw golwg ar sut y mae perfformiad yn cael ei reoli a pha mor effeithlon ac effeithiol yw'r portffolio.
- Bod yn gyfrifol am benderfyniadau gweithredol o fewn y Portffolio.*

**Helpu pennu agenda strategol a rhaglen waith ar gyfer y portffolio**

- Cydweithio â swyddogion i lunio dogfennau polisi strategol a statudol.
- Gofalu bod y Cabinet yn gweithredu yn ôl ewyllys wleidyddol y mwyafrif.
- Helpu llunio a gweithredu rhaglen waith strategol, yn wleidyddol ac yn statudol.
- Ymgynghori â budd-ddeiliaid yn ôl yr angen.
- Gofalu bod rhaglen gwaith i'r dyfodol y portffolio yn gyfoes ac yn gywir.

**Cynrychioli'r portffolio**

- Cynrychioli'r portffolio mewn modd cadarn, cymwys a darbwyllol.
- Bod yn arweinydd amlwg mewn cyfarfodydd â budd-ddeiliaid.

**Darparu adroddiadau a rhoi cyfrif**

- Darparu adroddiadau i'r Arweinydd, y Cyngor Llawn, y Cabinet, cadeirydd y pwyllgor craffu priodol, y cyrff rheoleiddio a'r cyfryngau, fel bo'n briodol.
- Cytuno ar amcanion gyda'r Arweinydd a darparu adroddiadau cynnydd.
- Bod yn brif lefarwr gwleidyddol dros y portffolio.
- Ymddangos gerbron pwyllgorau craffu mewn perthynas â materion portffolio.

**Cymryd rhan weithredol yng nghyfarfodydd a phenderfyniadau'r Cabinet**

- Dangos diddordeb ym mhortffolios aelodau eraill, a'u cefnogi.
- Cydnabod materion trawsbynciol neu faterion y mae nifer o aelodau'n gyd-gyfrifol amdanynt, a chyfrannu i'r materion hyn.

**Arwain partneriaethau a'r gymuned**

- Cynnig arweiniad i bartneriaethau strategol lleol a phartneriaid lleol wrth geisio bodloni nodau a blaenoriaethau cyffredin.
- Bod yn gyfryngwr pan fo anghytuno ynghylch blaenoriaethau.
- Arwain y gymuned leol trwy ddangos dychymyg a chraffter.

**Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau**

- Hyrwyddo a chynnal llywodraethu da yn y Cyngor a'i waith.
- Arwain y gymuned a hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar.
- Hyrwyddo a chynnal llywodraeth agored a thryloyw.
- Meithrin a chadw cysylltiadau parchus, priodol ac effeithiol â gweithwyr y Cyngor.
- Cadw at God Ymddygiad yr Aelodau, Protocol yr Aelodau/Swyddogion a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus.

## 3. Gwerthoedd

**Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus**:

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at wahaniaethau diwylliannol
- Cynaladwyedd
- Arweinyddiaeth gynhwysol

***** Dim ond o dan drefniadau cyfansoddiadol, pan fo aelodau Cabinet unigol neu gyfuniad o aelodau Cabinet yn cael cyfrifoldeb unigol am wneud penderfyniadau ar ran y Weithrediaeth y mae hyn yn berthnasol.

## Disgrifiad o Rôl Cadeirydd y Cyngor
## Hefyd yn addas ar gyfer Maer* a Llywydd

### 1. Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn

### 2. Diben a Gweithgareddau'r Rôl

**Cynrychioli awdurdod democrataidd y Cyngor**

- Fel pennaeth seremonïol y Cyngor, bod yn amhleidiol a chynnal gwerthoedd democrataidd y Cyngor.
- Cynrychioli'r cyngor mewn achlysuron dinesig a seremonïol.

**Cadeirio cyfarfodydd y cyngor**

- Cadeirio cyfarfodydd y Cyngor er mwyn iddo allu cyflawni ei waith yn effeithlon.
- Gofalu bod y Cyngor yn cynnal ei gyfarfodydd yn ôl ei Reolau Sefydlog.

**Cynnal a hyrwyddo Cyfansoddiad y Cyngor**

- Gofalu bod pawb yn cadw at y Cyfansoddiad a dyfarnu am ei ddehongli os bydd angen.

**Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau**

- Hyrwyddo a chynnal llywodraethu da yn y Cyngor a'i waith.
- Arwain y gymuned a hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar.
- Hyrwyddo a chynnal llywodraeth agored a thryloyw.
- Meithrin a chadw cysylltiadau parchus, priodol ac effeithiol â gweithwyr y Cyngor.
- Cadw at Gôd Ymddygiad yr Aelodau, Protocol yr Aelodau/Swyddogion a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus.

**Paratoi rhaglenni gwaith**

- Paratoi a rheoli rhaglen waith flynyddol er mwyn i'r Cyngor gyflawni ei gyfrifoldebau cyfreithiol (e.e. pennu cyllideb a Threth y Cyngor, a gwneud penodiadau).

### 3. Gwerthoedd

**Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:**

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb

- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaladwyedd

**Is-gadeirydd**

- **Cyflawni dyletswyddau'r Cadeirydd pan fo'n absennol.**
- **Cynorthwyo'r Cadeirydd gyda dyletswyddau penodol yn ôl yr angen.**

* Mae'r Disgrifiad Rôl hwn yn nodi dyletswyddau Cadeirydd neu Lywydd y Cyngor Llawn neu'r Maer wrth lywyddu Cyfarfodydd y Cyngor.

Nid yw’n rhoi manylion cyfrifoldebau llysgenhadol neu seremonïol ehangach y Maer.

## Disgrifiad o Rôl Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

### 1. Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn

### 2. Diben a Gweithgareddau'r Rôl

**Darparu arweiniad a chyfeiriad**

- Rheoli cyfarfodydd mewn modd hyderus ac effeithiol er mwyn hwyluso cynwysoldeb, cyfranogiad a phenderfyniadau eglur.
- Arwain y pwyllgor wrth gyflawni ei rôl o ran:
- Dynodi pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.
- Cadw golwg ar y staff, y swyddfeydd a'r adnoddau eraill sydd ar gael i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, gan sicrhau eu bod yn ddigonol.
- Darparu adroddiadau blynyddol i'r cyngor llawn mewn perthynas â'r mater uchod.
- Penodi aelodau a chadeiryddion is-bwyllgorau i gyflawni swyddogaethau y mae'r pwyllgor wedi'u dirprwyo.
- Ystyried adroddiadau y mae Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd wedi'u paratoi.
- Datblygu strategaeth y cyngor ar gyfer cynorthwyo a datblygu aelodau.
- Gofalu bod lefel resymol o weithgareddau hyfforddi a datblygu ar gael i'r aelodau yn unol â strategaeth yr Awdurdod ar gyfer eu datblygu a Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru.
- Gofalu bod digon o arian yn y gyllideb ar gyfer datblygu aelodau.
- Gofalu bod gweithgareddau datblygu personol ac adolygiadau blynyddol o ddatblygiad personol ar gael i aelodau.
- Cydweithio â'r eiriolwr cymorth a datblygiad aelodau pan fo'n berthnasol, i hybu rôl yr aelodau a mynnu'r cymorth a'r datblygiad angenrheidiol.
- Dangos agwedd onest a diduedd wrth wneud penderfyniadau, yn unol â gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad a pholisïau perthnasol.

**Hyrwyddo rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

- Gweithredu fel llysgennad dros y pwyllgor GD, gan helpu pobl i ddeall y rôl.
- Gweithredu yn ôl gofynion technegol, gweithdrefnol a chyfreithiol i oruchwylio swyddogaethau'r pwyllgor mewn modd teg a chywir.
- Gofalu bod y pwyllgor yn gweithio mewn modd gwrthrychol a thrylwyr, gan dderbyn ac ymateb i gyngor arbenigol am gynnal cyfarfodydd.

**Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau**

- Datblygu enw da a gonestrwydd y pwyllgor a'i benderfyniadau.

- Deall amryw rolau’r aelodau, y swyddogion a’r cyrff allanol sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.
- Hyrwyddo a hwyluso llywodraethu da yn y Cyngor.

## 3. Gwerthoedd

**Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:**

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at wahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd

## Disgrifiad o Rôl Aelod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

### 1. Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

### 2 Diben a Gweithgareddau'r Rôl

**Deall natur Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:**

- Bod yn ymwybodol o rôl y pwyllgor a'i chyflawni mewn perthynas â:
- Dynodi pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.
- Cadw golwg ar y staff, y swyddfeydd a'r adnoddau eraill sydd ar gael i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, gan sicrhau eu bod yn ddigonol.
- Darparu adroddiadau blynyddol i'r cyngor llawn mewn perthynas â'r mater uchod.
- Penodi aelodau a chadeiryddion is-bwyllgorau i gyflawni swyddogaethau y mae'r pwyllgor wedi'u dirprwyo.
- Ystyried adroddiadau y mae pennaeth y gwasanaethau democrataidd wedi'u paratoi.
- Datblygu strategaeth yr Awdurdod ar gyfer cynorthwyo a datblygu aelodau.
- Gofalu bod digon o weithgareddau hyfforddi a datblygu ar gael i'r aelodau yn unol â strategaeth y cyngor ar gyfer eu datblygu a Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru.
- Gofalu bod digon o arian yn y gyllideb ar gyfer datblygu cynghorwyr.
- Gofalu bod gweithgareddau datblygu personol ac adolygiadau blynyddol o ddatblygiad personol ar gael i aelodau.
- Gwybod digon am faterion technegol, gweithdrefnol a chyfreithiol i gyfrannu mewn modd teg a chywir i waith y pwyllgor.
- Gweithredu mewn modd trylwyr a gwrthrychol wrth dderbyn ac ymateb i gyngor arbenigol am gynnal cyfarfodydd a'r materion sydd gerbron y pwyllgor.

**Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau**

- Cymryd rhan yn effeithiol yng nghyfarfodydd y pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.
- Dod i benderfyniadau doeth a chytbwys, o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor, yn unol â gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad a pholisïau perthnasol.

**Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau**

- Sicrhau gonestrwydd proses benderfyniadau'r pwyllgor a'ch rôl eich hun drwy gadw at y Cod Ymddygiad a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill.
- Hyrwyddo a chynnal llywodraethu da yn y Cyngor.

- Deall amryw rolau’r cynghorwyr, y swyddogion a’r cyrff allanol sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

## 3 Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at wahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd

# Disgrifiad o Rôl Cadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio

## 1. Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I aelodau'r pwyllgor rheoleiddio

## 2. Diben a Gweithgareddau'r Rôl

**Darparu arweiniad a chyfeiriad**

- Rheoli cyfarfodydd mewn modd hyderus ac effeithiol er mwyn hwyluso cynwysoldeb, cyfranogiad a phenderfyniadau eglur.
- Gofalu bod yr ymgeiswyr ac unrhyw un arall sy'n ymwneud â'r broses reoleiddio yn fodlon ar ei thryloywder.
- Dangos agwedd onest a diduedd wrth wneud penderfyniadau, yn unol â gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad a pholisïau perthnasol.
- Dirprwyo camau gweithredu i is-bwyllgorau fel bo'n briodol.

**Hyrwyddo rôl y pwyllgor rheoleiddio a gwneud penderfyniadau lled-gyfreithiol**

- Bod yn llysgennad i'r pwyllgor rheoleiddio, gan feithrin dealltwriaeth o'r rôl.
- Gweithredu yn ôl gofynion technegol, cyfreithiol a gweithdrefnol i oruchwylio swyddogaethau'r pwyllgor mewn modd teg a chywir.
- Gofalu bod y pwyllgor yn un trylwyr a gwrthrychol, gan dderbyn ac ymateb i gyngor arbenigol am gynnal cyfarfodydd ac achosion neu geisiadau unigol cyn cyfarfodydd ffurfiol y pwyllgor.

**Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau**

- Datblygu enw da a gonestrwydd y pwyllgor a'i benderfyniadau.
- Deall amrywiol rolau'r aelodau, y swyddogion a'r cyrff allanol sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y pwyllgor.
- Hyrwyddo a chynnal llywodraethu da yn y Cyngor.

## 3. Gwerthoedd

**Ymrwymo i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:**

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at wahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd

## Disgrifiad o Rôl Aelod y Pwyllgor Rheoleiddio

## 1. Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd y pwyllgor rheoleiddio

## 2. Diben a gweithgareddau

**Deall natur y pwyllgor rheoleiddio a gwneud penderfyniadau lled-gyfreithiol**

- Bod yn ymwybodol o natur led-gyfreithiol y pwyllgor rheoleiddio a'i benderfyniadau.
- Meithrin digon o wybodaeth dechnegol, gyfreithiol a gweithdrefnol i allu cyfrannu at waith y pwyllgor mewn modd teg a chywir.
- Bod yn drylwyr ac yn wrthrychol wrth dderbyn ac ymateb i gyngor arbenigol am gynnal cyfarfodydd ac achosion neu geisiadau unigol cyn cyfarfodydd y pwyllgor.

**Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau**

- Cymryd rhan effeithiol yng nghyfarfodydd y pwyllgor rheoleiddio, gan ofalu ei fod yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng ystyriaethau lleol ac argymhellion polisi at ddibenion gwneud penderfyniadau effeithiol.
- Dod i benderfyniadau doeth a chytbwys, o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor, yn unol â gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad a pholisïau perthnasol.

**Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau**

- Sicrhau gonestrwydd proses benderfyniadau'r pwyllgor a'ch rôl eich hun drwy gadw at y Cod Ymddygiad a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill.
- Hyrwyddo a chynnal llywodraethu da yn y Cyngor.
- Deall amrywiol rolau'r cynghorwyr, y swyddogion a'r cyrff allanol sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y pwyllgor.

## 3. Gwerthoedd

**Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:**
- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at wahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd

## Disgrifiad o Rôl Cadeirydd y Pwyllgor Safonau

## 1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn

## 2 Diben a Gweithgareddau'r Rôl

**Darparu arweiniad a chyfeiriad i'r pwyllgor**

- Gweithredu yn ôl gofynion technegol, gweithdrefnol a chyfreithiol i oruchwylio swyddogaethau'r pwyllgor mewn modd teg a chywir.
- Gofalu bod y pwyllgor yn gweithio mewn modd gwrthrychol a thrylwyr wrth dderbyn ac ymateb i gyngor arbenigol am y Cod Ymddygiad.
- Dangos agwedd annibynnol, onest a diduedd wrth wneud penderfyniadau ar faterion, yn unol â gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad a pholisïau perthnasol.
- Rheoli cyfarfodydd mewn modd hyderus ac effeithiol er mwyn hwyluso cynwysoldeb, gyfranogiad a phenderfyniadau eglur.

**Arwain y pwyllgor wrth gyflawni ei rôl mewn perthynas â:**

- Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg Cynghorwyr, aelodau lleyg ac aelodau cyfetholedig.
- Helpu'r holl aelodau i gadw at God Ymddygiad y Cynghorwyr.
- Cynghori'r Cyngor am fabwysiadu neu ddiwygio Cod Ymddygiad y Cynghorwyr.
- Monitro gweithrediad Cod Ymddygiad y Cynghorwyr.
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant i Gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar faterion sy'n berthnasol i God Ymddygiad y Cynghorwyr.
- Caniatáu eithriadau i Gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig.
- Ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos interim, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Datblygu a chymhwyso unrhyw brotocolau datrys lleol
- Arfer y swyddogaethau hyn (uchod) mewn perthynas â chynghorau cymuned ac aelodau'r cynghorau cymuned hynny.
- Cydweithio ag Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r Grŵp.
- Monitro cydymffurfiad gan Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol â'r ddyletswydd i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r Grŵp. Cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant i Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol mewn perthynas â'r dyletswyddau hyn **(o fis Mai 2022 ymlaen).**
- Darparu adroddiad blynyddol i'r Awdurdod yn disgrifio sut y mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol **(adroddiad cyntaf mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2022/23 yn ddyledus cyn gynted ag y bo modd ar ôl diwedd y**

**flwyddyn).** Gall yr adroddiad gynnwys unrhyw fater o fewn swyddogaethau'r pwyllgor. Rhaid i'r adroddiad gynnwys:

- Sut y mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol, ac yn benodol, sut y mae'r pwyllgor wedi monitro cydymffurfiad Arweinwyr Grwpiau â'u dyletswyddau i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r Grŵp, a gwaith y Pwyllgor o ran cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant i Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol mewn perthynas â'r dyletswyddau hyn.
- I ba raddau y mae Arweinwyr Grwpiau wedi cydymffurfio â'u dyletswydd i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r Grŵp.

## 3 Gwerthoedd

**Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:**

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at wahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd

## Disgrifiad o Rôl Aelod y Pwyllgor Safonau

## 1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd y Pwyllgor Safonau

## 2 Diben a Gweithgareddau'r Rôl

**Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a gwneud penderfyniadau**

- Cymryd rhan yn effeithiol yng nghyfarfodydd y pwyllgor Safonau.
- Dod i benderfyniadau doeth a chytbwys, o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor, yn unol â gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad a pholisïau perthnasol, llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau.
- Sicrhau gonestrwydd proses benderfyniadau'r pwyllgor a'ch rôl eich hun drwy gadw at y Cod Ymddygiad a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill.
- Hyrwyddo a chynnal llywodraethu da yn y Cyngor.

**Helpu'r Pwyllgor Safonau i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol a chefnogi'r Cadeirydd drwy:**

- Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg Cynghorwyr, aelodau lleyg ac aelodau cyfetholedig.
- Helpu Cynghorwyr, aelodau lleyg ac aelodau cyfetholedig i arsylwi Cod Ymddygiad yr Aelodau.
- Cynghori'r Cyngor ar fabwysiadu neu ddiwygio Cod Ymddygiad yr Aelodau.
- Monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau.
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant i Gynghorwyr, aelodau lleyg ac aelodau cyfetholedig ar faterion sy'n ymwneud â Chod Ymddygiad yr Aelodau.
- Caniatáu eithriadau i Gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig.
- Ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos interim, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Cyfrannu at ddatblygiad a chymhwysiad unrhyw brotocol datrys lleol.
- Arfer y swyddogaethau hyn (uchod) mewn perthynas â chynghorau cymuned ac aelodau'r cynghorau cymuned hynny.
- Cydweithio ag Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r Grŵp.
- Monitro cydymffurfiad gan Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol â'r ddyletswydd i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r Grŵp. Cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant i Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol mewn perthynas â'r dyletswyddau hyn **(o fis Mai 2022 ymlaen).**
- Darparu adroddiad blynyddol i'r Awdurdod yn disgrifio sut y mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol **(adroddiad cyntaf mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2022/23 yn ddyledus cyn gynted ag y bo modd ar ôl**

**diwedd y flwyddyn)**. Gall yr adroddiad gynnwys unrhyw fater o fewn swyddogaethau'r pwyllgor. Rhaid i'r adroddiad gynnwys:

- Sut y mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol, ac yn benodol, sut y mae'r pwyllgor wedi monitro cydymffurfiad Arweinwyr Grwpiau â'u dyletswyddau i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r Grŵp, a gwaith y Pwyllgor o ran cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant i Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol mewn perthynas â'r dyletswyddau hyn.
- I ba raddau y mae Arweinwyr Grwpiau wedi cydymffurfio â'u dyletswydd i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r Grŵp.

## 3 Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at wahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd

## Disgrifiad o Rôl Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

### 1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn

### 2 Diben a Gweithgareddau'r Rôl

**Darparu arweiniad a chyfeiriad**

- Dangos agwedd annibynnol, onest a diduedd wrth benderfynu ar faterion yn unol â gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad a pholisïau perthnasol.
- Rheoli cyfarfodydd mewn modd hyderus ac effeithiol er mwyn hwyluso cynwysoldeb, cyfranogiad a phenderfyniadau eglur.
- Cydymffurfio â Chod Ymddygiad yr awdurdod.
- Gweithio yn ôl Cylch Gorchwyl y Pwyllgor.
- Cydweithio ag uwch swyddogion yr awdurdod, gan gynnwys y Prif Swyddog Ariannol a'r Pennaeth Archwilio Mewnol (neu swyddog cyfatebol), i gytuno ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol ac i drefnu rhaglenni ar gyfer y Pwyllgor.
- Cydweithio ag aelodau eraill yr awdurdod i sicrhau bod y Cabinet, y pwyllgor Safonau a'r pwyllgor Craffu yn ymwybodol o waith y Pwyllgor, a'i fod yn cyd-fynd â'u gwaith hwy yn ogystal ag yn cynnal annibyniaeth priodol.
- Hyrwyddo rôl y pwyllgor o fewn yr awdurdod.
- Adrodd i'r Cyngor yn ôl y gofyn.
- Cymryd rhan yn y gweithgareddau hyfforddiant a datblygu y mae angen eu cyflawni ar gyfer y rôl, a chyfrannu iddynt.
- Helpu aelodau'r pwyllgor i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y rôl.
- Arwain y pwyllgor wrth ymateb i unrhyw argymhellion a wneir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Arwain y Pwyllgor wrth gyflawni ei rôl o ran adolygu a chraffu ar faterion ariannol yr awdurdod**

- Paratoi adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod.
- Cadw golwg ar drefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod.
- Cydweithio ag archwilwyr mewnol ac allanol.
- Adolygu'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr awdurdod a'u cymeradwyo pan gaiff pwerau eu dirprwyo, gan gynnwys paratoi adroddiadau ac argymhellion perthnasol.

**Arwain y Pwyllgor wrth gyflawni ei rôl o ran cyfrannu i berfformiad effeithiol yr awdurdod**

- Adolygu adroddiad drafft hunanasesiad blynyddol yr awdurdod. Gwneud argymhellion am newidiadau i'r casgliadau neu'r camau gweithredu y mae'r awdurdod yn bwriadu eu cymryd.
- Gwneud argymhellion mewn ymateb i adroddiad drafft Asesiad Panel yr awdurdod (a gomisiynir unwaith y tymor **o fis Mai 2022 ymlaen**).
- Adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol.

- Paratoi adroddiadau ac argymhellion i’r awdurdod am allu’r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol.

**Arwain y Pwyllgor wrth gyflawni ei rôl o ran Adolygu ac asesu trefniadau Llywodraethu, Rheoli Risg a Rheolaeth yr awdurdod**

- Adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol yr awdurdod.
- Paratoi adroddiadau ac argymhellion i’r awdurdod ar addasrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny.
- Adolygu ac asesu’r risgiau ariannol sy’n gysylltiedig â llywodraethu corfforaethol, a bodloni’ch hun bod datganiadau sicrwydd yr awdurdod, gan gynnwys y datganiad llywodraethu blynyddol, yn adlewyrchu’r amgylchedd risg ac unrhyw gamau gweithredu sydd angen eu cymryd i'w wella.

## 3 Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at wahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd

## Disgrifiad o Rôl Aelod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

### 1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd y Pwyllgor

### 2 Diben a Gweithgareddau'r Rôl

**Cymryd rhan yng nghyfarfodydd y pwyllgor a gwneud penderfyniadau**

- Dangos annibyniaeth, uniondeb a diduedddrwydd wrth wneud penderfyniadau yn unol â gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisïau perthnasol.
- Rhoi ystyriaeth i ofynion Cadeirydd y Pwyllgor a chyngor proffesiynol uwch swyddogion yr awdurdod, gan gynnwys y Prif Swyddog Ariannol a'r Pennaeth Archwilio Mewnol (neu swyddog cyfatebol).
- Cydymffurfio â Chod Ymddygiad yr awdurdod.
- Gweithio yn ôl Cylch Gorchwyl y Pwyllgor.
- Cyfrannu tuag at ddatblygiad rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor.
- Hyrwyddo rôl y pwyllgor o fewn yr awdurdod.
- Adrodd i'r Cyngor yn ôl y gofyn.
- Ymateb i unrhyw argymhellion a wneir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddiant a datblygu sy'n ofynnol ar gyfer y rôl.

**Cyfrannu i waith y Pwyllgor wrth gyflawni ei rôl o ran:**

**Adolygu a chraffu ar faterion ariannol yr awdurdod**

- Paratoi adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod.
- Cadw golwg ar drefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod.
- Cydweithio ag archwilwyr mewnol ac allanol.
- Adolygu'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr awdurdod a'u cymeradwyo pan gaiff pwerau eu dirprwyo, gan gynnwys paratoi adroddiadau ac argymhellion perthnasol.

**Cyfrannu i berfformiad effeithiol yr awdurdod**

- Adolygu adroddiad drafft hunanasesiad blynyddol yr awdurdod a gwneud argymhellion am newidiadau i'r casgliadau neu'r camau gweithredu y mae'r awdurdod yn bwriadu eu cymryd.
- Gwneud argymhellion mewn ymateb i adroddiad drafft Asesiad Panel yr awdurdod (a gomisiynir unwaith y tymor **o fis Mai 2022 ymlaen**).
- Adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol.
- Paratoi adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol.

**Adolygu ac asesu trefniadau Llywodraethu, Rheoli Risg a Rheolaeth yr awdurdod**

- Adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol yr awdurdod.

- Paratoi adroddiadau ac argymhellion i'r awdurdod ar addasrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny.
- Adolygu ac asesu'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â llywodraethu corfforaethol, a bodloni'ch hun bod datganiadau sicrwydd yr awdurdod, gan gynnwys y datganiad llywodraethu blynyddol, yn adlewyrchu'r amgylchedd risg ac unrhyw gamau gweithredu sydd angen eu cymryd i'w wella.

## 3 Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at wahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd

## Disgrifiad o Rôl Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

### 1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I'r Cyhoedd
- I’r Pwyllgor

### 2. Diben a gweithgareddau’r Rôl

**Darparu arweiniad a chyfeiriad**

- Rheoli'r pwyllgor craffu mewn modd hyderus ac effeithiol.
- Hyrwyddo rôl pwyllgorau trosolwg a chraffu o fewn y cyngor, gan gysylltu'n effeithiol â swyddogion, aelodau gweithredol a chyd-gadeiryddion.
- Hyrwyddo rôl a chyfraniad annatod pwyllgorau craffu o fewn trefniadau ehangach yr awdurdod o ran cynllunio ac adrodd ar welliannau.
- Arwain gwaith craffu ar y cyd ag awdurdodau neu sefydliadau eraill yn ôl yr angen.
- Hyrwyddo a hybu rôl pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ymysg y cyhoedd gan eu helpu i ddeall y broses graffu yn well ac, yn bwysicach fyth, i gymryd rhan ynddi.
- Hybu rôl pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ymysg partneriaid gan eu helpu i ddeall y swyddogaeth Graffu yn well a chymryd rhan ynddi.
- Dangos dull gwrthrychol wedi’i seilio ar dystiolaeth o fynd i’r afael â throsolwg a chraffu, gan ofalu bod pob ymchwiliad craffu yn gadarn o ran methodoleg ac yn cynnwys amrywiaeth eang o dystiolaeth a safbwyntiau.
- Cadw golwg ar hynt argymhellion craffu, gan werthuso effaith a gwerth ychwanegol gweithgarwch trosolwg a chraffu a nodi meysydd i’w gwella.
- Cydweithio’n agos â staff cymorth craffu i wella’r maes craffu yn barhaus.
- Helpu i dynnu sylw’r cyhoedd at waith y pwyllgor craffu.

**Rheoli'r rhaglen waith**

- Datblygu rhaglen waith gytbwys ar gyfer y pwyllgor, sy’n cynnwys craffu cyn gwneud penderfyniadau, datblygu ac adolygu polisïau, craffu ymchwiliol, gofalu bod y cabinet yn atebol a monitro perfformiad.
- Gofalu bod y rhaglen yn cymryd ffactorau perthnasol i ystyriaeth megis: rhaglenni gwaith y weithrediaeth a phwyllgorau eraill, blaenoriaethau a risgiau strategol, adroddiadau ac argymhellion archwilio a rheoleiddio, y cynllun integredig sengl, blaenoriaethau strategol partneriaid a materion cymunedol perthnasol.
- Gofalu bod y cyhoedd yn ymwneud â gwaith craffu drwy roi gwybod iddynt am y rhaglen waith a’u hannog i gymryd rhan.
- Gofalu bod y rhaglen waith yn cael ei chyflawni.
- Adrodd am y cynnydd yn erbyn y rhaglen waith i'r Cyngor ac i eraill fel bo'n briodol.

- Gofalu bod y rhaglen waith yn ymarferol a bod y llwyth gwaith wedi'i ddirprwyo a'i flaenoriaethu yn ôl y buddion neu'r risgiau mwyaf i'r sefydliad.
- Gofalu bod gan grwpiau tasg a gorffen/gweithgorau/is-grwpiau gylch gorchwyl eglur a'u bod yn cyflawni'r deilliannau gofynnol.

**Arwain Craffu ar y Cyd**

- Defnyddio'r meini prawf a'r profion priodol wrth benderfynu a ddylid craffu ar y cyd ai peidio.
- Gofalu bod cyrff rhanbarthol a phartneriaethau yn atebol a bod eu cynlluniau yn cael eu craffu.
- Datblygu protocolau a chylch gorchwyl ar gyfer cydweithio.
- Gofalu bod y cyhoedd yn ymgysylltu â gweithgareddau craffu ar y cyd.
- Cyfuno adnoddau craffu er mwyn cydweithio'n effeithiol a sicrhau deilliannau.
- Gofalu y bydd pob partner yn cymryd rhan ac yn cyfrannu'n gyfartal, fel bo'n briodol.

**Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol**

- Cynllunio a phennu rhaglenni sy'n cynnwys amcanion a deilliannau eglur ar gyfer y cyfarfod.
- Gofalu bod y gwaith paratoi angenrheidiol wedi'i wneud ymlaen llaw, yn ôl yr angen, drwy gynnal cyfarfodydd rhagarweiniol a chytuno ar gwestiynau priodol.
- Gofalu bod y gwaith trosolwg a chraffu yn ddiduedd a bod cyfarfod y pwyllgor yn cael ei gynnal heb chwip wleidyddol (yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011).
- Rheoli'r ffordd y mae'r cyfarfod yn mynd rhagddo, gan ofalu bod amcanion y cyfarfod yn cael eu cyflawni a bod pawb yn cadw at y cod ymddygiad, y rheolau sefydlog a gofynion cyfansoddiadol eraill.
- Gofalu bod pawb sydd yn y cyfarfod yn cael cyfle i gyfrannu'n briodol.
- Gofalu bod y cyhoedd yn cael cyfrannu mewn cyfarfodydd ac yn deall y protocolau o ran siarad yn gyhoeddus.

**Cynnwys a datblygu aelodau'r pwyllgor**

- Annog holl aelodau'r pwyllgor i gyfrannu'n effeithiol, yn y pwyllgor a'r grwpiau tasg a gorffen fel ei gilydd.
- Asesu perfformiad y pwyllgor a'i aelodau unigol a gweithio i wella deilliannau craffu.
- Gofalu bod gan aelodau'r pwyllgor yr wybodaeth a'r sgiliau priodol ar gyfer y rôl, a'u bod yn cydweithio ag aelodau a swyddogion arweiniol i'w datblygu'n briodol.

## 3. Gwerthoedd

**Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:**

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at wahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd

## Disgrifiad o Rôl Aelod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

### 1 Atebolrwydd

- I Gadeirydd y pwyllgor craffu perthnasol
- I'r Cyngor Llawn
- I'r Cyhoedd

### 2 Diben a gweithgareddau

- Cymryd rhan lawn yng ngwaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, datblygiad a chyflawniad ei raglen waith, ac unrhyw grwpiau tasg a gorffen cysylltiedig.

**Craffu a datblygu polisïau**

- Helpu i ddatblygu polisïau'r cyngor drwy graffu ar bolisïau drafft a gwella a mireinio polisïau presennol.
- Herio polisïau ar sail dystiolaeth gadarn, megis yn erbyn deddfwriaeth neu flaenoriaeth wleidyddol leol.
- Asesu effaith polisïau presennol a nodi meysydd i'w gwella.
- Nodi lle y gellid bod angen polisïau newydd i fynd i'r afael â deddfwriaeth sydd ar y gweill.

**Gofalu bod y Weithrediaeth yn atebol, monitro perfformiad a darparu gwasanaethau**

- Monitro perfformiad darparwyr mewnol ac allanol yn erbyn safonau a thargedau perthnasol, gan gynnwys holi'r weithrediaeth a'r uwch swyddogion ynglŷn â chyflawni targedau.
- Helpu i nodi a lliniaru unrhyw risgiau.
- Ymchwilio i achosion o danberfformiad neu berfformiad gwael, a gwneud argymhellion i fynd i'r afael â hyn.
- Monitro cynlluniau gweithredu neu argymhellion yn sgil adroddiadau archwilwyr neu arolygwyr allanol neu gyrff rheoleiddio.
- Gwerthuso dilysrwydd penderfyniadau gweithredol a herio penderfyniadau drwy eu 'galw i mewn' lle bo'n briodol.
- Meithrin perthynas â'r weithrediaeth er mwyn gallu anfon materion priodol i bwyllgor craffu ei adolygu cyn i'r weithrediaeth ddod i benderfyniad terfynol.

**Hyrwyddo gwaith Trosolwg a Chraffu**

- Hyrwyddo rôl pwyllgorau trosolwg a chraffu yn y cyngor a thu hwnt, gan feithrin cysylltiadau mewnol effeithiol gyda swyddogion ac aelodau eraill a chysylltiadau allanol â chynrychiolwyr cymunedol.

- Dangos dull gwrthrychol, heb fod yn wleidyddol ac wedi'i seilio ar dystiolaeth o fynd i'r afael â materion trosolwg a chraffu, drwy ddefnyddio amrywiaeth eang o waith ymchwil, gan gynnwys ffynonellau gwybodaeth y tu allan i'r Cyngor.
- Ychwanegu gwerth at y broses o wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau yn yr awdurdod drwy waith craffu effeithiol.
- Gallu dangos lle mae gwaith craffu yn gwneud gwahaniaeth.

**Ymgysylltu â'r gymuned**

- Defnyddio gwaith craffu fel modd o fynd i'r afael â materion cymunedol a chynnwys y cyhoedd mewn rhaglenni gwaith i'r dyfodol.
- Annog budd-ddeiliaid i gymryd rhan yng ngwaith yr awdurdod.
- Helpu datblygu atebion polisi sy'n ymarferol ac yn dderbyniol yn lleol.
- Hwyluso trafodaethau ymysg cymunedau a budd-ddeiliaid am flaenoriaethau, amcanion a pherfformiad.
- Delio â materion o safbwynt y sir gyfan.

**Craffu ar y cyd**

- Gweithio o fewn y cylch gorchwyl a'r protocolau priodol sy'n llywodraethu cydweithio wrth graffu.
- Defnyddio'r meini prawf a'r profion priodol wrth benderfynu a ddylid craffu ar y cyd ai peidio.
- Cyfrannu at waith craffu cyrff rhanbarthol a phartneriaethau.
- Annog y cyhoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau craffu ar y cyd.
- Cydweithio'n effeithiol â phwyllgorau craffu awdurdodau a sefydliadau eraill.

**Cymryd rhan mewn cyfarfodydd**

- Paratoi'n ddigonol ac yn briodol ar gyfer cyfarfodydd drwy gyfrwng ymchwil, sesiynau briffio a chynllunio strategaethau cyfarfodydd.
- Cymryd rhan mewn modd rhagweithiol, gwrthrychol, gwybodus ac effeithiol, gan gymryd y Cod Ymddygiad, y Rheolau Sefydlog a gofynion cyfansoddiadol eraill i ystyriaeth.
- Dangos sgiliau craffu effeithiol wrth holi, gwrando a thrafod gwybodaeth.
- Peidio â bod yn wleidyddol.
- Canolbwyntio ar ddeilliannau / gwneud gwahaniaeth drwy gymryd rhan.

## 3. Gwerthoedd

Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb

- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at wahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd

## Disgrifiad o Rôl Arweinydd yr Wrthblaid

### 1. Atebolrwydd

- I'r grŵp a'i henwebodd o fewn y cyfansoddiad.

### 2. Diben a Gweithgareddau'r Rôl

**Darparu arweiniad gwleidyddol i wrthblaid**

- Bod yn arweinydd gwleidyddol amlwg i'r wrthblaid ac yn brif lefarwr gwleidyddol iddi.
- Cynnig arweiniad wrth herio polisïau'r cyngor yn adeiladol.
- Herio gweledigaeth y Cyngor a'r gymuned yn adeiladol lle bo'n briodol.
- Cynnig arweiniad cryf a chlir wrth gydlynu polisïau, strategaethau a gwasanaethau amgen.

**Cynrychioli gwrthblaid yr Awdurdod**

- Cynrychioli Grŵp yr Wrthblaid at safon uchel a bod yn bennaeth cadarn, cymwys a huawdl wrth gynrychioli'r wrthblaid o fewn yr Awdurdod.
- Cynrychioli'r cyngor ar gyrff allanol.

**Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau**

- Hyrwyddo a chynnal llywodraethu da yn y Cyngor a'i waith.
- Arwain y gymuned a hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar.
- Hyrwyddo a chynnal llywodraeth agored a thryloyw.
- Meithrin, cefnogi a chadw cysylltiadau parchus, priodol ac effeithiol â gweithwyr y Cyngor.
- Hyrwyddo, cefnogi a chadw at God Ymddygiad yr Aelodau, Protocol yr Aelodau/ Swyddogion a'r safonau ymddygiad uchaf mewn swydd gyhoeddus.

### 3. Gwerthoedd

**Ymrwymo i, a dangos y gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:**

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at wahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Arweinyddiaeth gynhwysol
- Datblygu consensws

**Rôl Dirprwy Arweinydd yr Wrthblaid**

- Cyflawni dyletswyddau'r Arweinydd pan fo'n absennol.
- Cynorthwyo'r Arweinydd gyda dyletswyddau penodol yn ôl yr angen.

## Disgrifiad o Rôl Arweinydd Grŵp Gwleidyddol

### 1. Atebolrwydd

- I'r Grŵp a'i enwebodd

### 1. Diben a Gweithgareddau'r Rôl

**Darparu arweiniad gwleidyddol i'r Grŵp**

- Bod yn arweinydd gwleidyddol amlwg ac yn esiampl dda i'r Grŵp.
- Bod yn brif lefarydd gwleidyddol y Grŵp.
- Os yw'r Grŵp mewn grym, darparu arweinyddiaeth Plaid Wleidyddol wrth ddatblygu gweledigaeth neu bolisiau'r Cyngor. Os yw'n wrthblaid, darparu her adeiladol a dewisiadau amgen i weledigaeth a pholisiau'r Grŵp Gwleidyddol sydd mewn grym.
- Cynnig amrywiaeth o safbwyntiau o fewn y Grŵp Gwleidyddol wrth lunio polisïau.
- Integreiddio a chynrychioli'r Grŵp Gwleidyddol ar lefel leol.
- Cydweithio â Grwpiau Gwleidyddol eraill pan fo hynny'n briodol, yn enwedig mewn materion nad ydynt yn ymwneud â Gwleidyddiaeth Blaid.
- Cadeirio a/neu mynychu cyfarfodydd pan fo wedi'i benodi i rôl gynrychiadol o fewn y Cyngor.
- Cysylltu â chynrychiolwyr lleol a rhanbarthol eraill y blaid.
- Bod yn llais sy'n cynrychioli'r Grŵp, er enghraifft a phan fo'n berthnasol, wrth ddelio â sefydliadau allanol fel Llywodraeth Cymru neu'r Senedd.

**Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau:**

- Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da yn y Cyngor a'i waith.
- Darparu arweiniad cymunedol a hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar.
- Hyrwyddo a chefnogi llywodraeth agored a thryloyw.
- Hyrwyddo, cefnogi a chadw cysylltiadau parchus, priodol ac effeithiol â gweithwyr ac aelodau eraill y Cyngor.
- Hyrwyddo, cefnogi a chadw at God Ymddygiad yr Aelodau, Protocol Aelodau/Swyddogion a'r safonau uchaf o ran ymddygiad mewn swydd gyhoeddus.
- Annog sylw dyledus i Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus ac i gwrteisi mewn bywyd cyhoeddus.
- Cymryd rhan mewn cyfleoedd datblygu perthnasol ac annog aelodau'r Grŵp i gymryd rhan.
- Gosod disgwyliadau clir o ran ymddygiad aelodau'r grŵp a herio unrhyw ymddygiad amhriodol.
- Hyrwyddo amrywiaeth ymysg aelodau'r Grŵp.
- Annog aelodau'r Grŵp i hawlio cyflogau ac ad-daliadau sy'n ddyledus iddynt yn unol â phenderfyniadau'r IRPW.

**Dyletswydd i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg Aelodau'r Grŵp yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

- Cymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r Grŵp.
- Cydweithio â phwyllgor safonau'r Cyngor (ac unrhyw un o is-bwyllgorau'r pwyllgor hwnnw) i arfer swyddogaethau'r pwyllgor safonau. Yn benodol, cydweithio â'r Pwyllgor Safonau yn ei ddyletswydd i fonitro cydymffurfiad Arweinwyr Grŵp â'u dyletswydd dan y ddeddf, ac i ddarparu gwybodaeth ar gyfer adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau.
- Gweithio'n adeiladol â'r Swyddog Monitro ac Arweinwyr Grwpiau eraill mewn perthynas â'r ddyletswydd hon.
- Gweithio o fewn y protocol datrys lleol pan fo hynny'n berthnasol.
- Cymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant sy'n ymwneud yn benodol â'r ddyletswydd hon.

### 3. Gwerthoedd

**Ymrwymo i, a dangos y gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:**

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at wahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Arweinyddiaeth gynhwysol
- Datblygu consensws

## Canllawiau ategol i Arweinwyr Grŵp Gwleidyddol

**Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn gosod dyletswydd ar Arweinwyr Grŵp i gymryd "Camau Rhesymol" i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau eu grŵp. Mae'r nodyn canlynol yn cynnig dehongliad pellach o'r Ddeddf er mwyn ategu'r disgrifiad o rôl yr Arweinydd Grŵp.**

- Mae dyletwsydd ar Arweinwyr Grŵp i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau eu grŵp mewn Awdurdod Unedol. Mae hyn yn berthnasol i'r aelodau grŵp hynny pan maent yn gweithio neu'n rhoi'r argraff eu bod yn gweithio yn rhinwedd eu rôl fel aelod.
- Cyflwynwyd y ddyletswydd hon gan Lywodraeth Cymru i annog safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau, gan gynnwys cwrteisi a pharch ym mhob sefyllfa tuag at bawb. Nid bwriad y ddyletswydd yw bod yn feichus ac ni fydd yn berthnasol i bawb (yn amlwg, yr aelodau hynny nad ydynt yn perthyn i grŵp). Y bwriad yw bod yn gymesur ac yn fuddiol ac annog unigolion i osgoi ymddygiad amhriodol cyn i'r ymddygiad hwnnw dorri'r Cod.
- Mae cyfrifoldeb eisoes ar bob cynghorydd i roi gwybod am achosion o dorri'r Cod Ymddygiad.
- Mae'r ddyletswydd yn berthnasol i Arweinwyr Grŵp ar gyfer aelodau eu grŵp pan fo'r aelodau hynny, er enghraifft, yn gweithio yn y Cyngor, mewn cyfarfodydd grwpiau gwleidyddol, yn y gymuned ac ar gyrff allanol megis yr Awdurdod Tân ac Achub, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau'r Heddlu, Cynghorau Cymuned a Thref, Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a chyrff llywodraethu ysgolion.
- Yn achos cyrff allanol, y safonau ymddygiad perthnasol yw'r rhai a nodir gan y corff y mae'r aelod grŵp yn gwasanaethu arno. Os nad yw'r rhain ar gael, Cod Ymddygiad y Cyngor fydd yn berthnasol.
- Nid yw'r ddyletswydd yn gwneud Arweinwyr Grŵp yn ***atebol*** am ymddygiad eu haelodau, gan mai mater o ***gyfrifoldeb unigol*** yw Ymddygiad. Fodd bynnag, **rhaid** i Arweinwyr Grŵp gymryd "Camau Rhesymol" i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymysg aelodau'r Grŵp. A **rhaid** iddynt gydweithio â'r pwyllgor safonau ac unrhyw un o is-bwyllgorau'r pwyllgor hwnnw i arfer swyddogaethau'r pwyllgor safonau. A **rhaid** iddynt roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar y materion hyn.
- Gallai "camau rhesymol" olygu bod Arweinwyr Grŵp yn:
    - Cynnal trafodaethau anffurfiol gydag aelodau allai fod yn dangos arwyddion cynnar o ymddygiad amhriodol, neu wneud cais am hyfforddiant i'r aelodau hynny, er mwyn 'taro'r ymddygiad yn ei dalcen' cyn iddo fynd yn broblem neu fod mewn perygl o dorri'r Cod.
    - Gweithio'n adeiladol â phwyllgorau Safonau i roi gwybod am gydymffurfiad â'u dyletswydd, unrhyw bryderon difrifol am ymddygiad aelodau nad yw wedi'i gywiro gan gamau anffurfiol, ac unrhyw ofynion o ran hyfforddiant ar eu cyfer eu hunain neu aelodau eu grŵp.
    - Gweithio'n adeiladol gyda'r Swyddog Monitro, a'i gefnogi/chefnogi yn y materion hyn.
    - Bod yn esiampl dda ar gyfer yr aelodau, gan ddangos y safonau uchaf posib o ran ymddygiad, cwrteisi a pharch.
    - Cynnal ymwybyddiaeth o safonau uchel iawn o ymddygiad, cwrteisi a pharch, yn enwedig mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth.
    - Gweithio'n adeiladol ag aelodau eraill y grŵp ar y cyngor ac ar gynghorau eraill i sicrhau'r safonau ymddygiad uchaf posib, yn y Cyngor a ledled Cymru.
    - Croesawu ac ymateb i bryderon a godir gan aelodau'r Grŵp am ymddygiad yn y grŵp.
- Mae dyletswydd ar bwyllgorau Safonau i fonitro cydymffurfiad ymysg Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol â'u dyletswyddau, a chynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant i grwpiau gwleidyddol ar y cyngor am faterion sy'n gysylltiedig â'u dyletswyddau.

- Rhaid i bwyllgorau Safonau lunio adroddiad blynyddol i'r Cyngor am eu gwaith, gan gynnwys cydymffurfiad Arweinwyr Grŵp â'r ddyletswydd hon.
- Y cosbau allai fod yn berthnasol i aelodau grŵp sy'n ymddwyn yn amhriodol ar gorff allanol yw'r rhai a osodir gan y cyrff hynny. Os nad oes cosbau wedi'u gosod, rheolau'r Cyngor fydd yn berthnasol.
- Os bydd aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad ac wedi'i ddiarddel dros dro, dim ond yn rhinwedd eu rôl fel aelod o un awdurdod perthnasol y byddant wedi'u diarddel. Byddai'n rhaid iddynt fod wedi'u anghymhwyso er mwyn iddo fod yn berthnasol yn rhinwedd eu rôl fel aelod o fwy nag un awdurdod perthnasol. (Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau (Cymru) 2001).
- "Mae'n bosib y gellid ystyried bod arweinydd grŵp sy'n methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd newydd mewn ffordd ystyrlon yn dwyn anfri ar ei swydd, yn groes i baragraff 6(1)(a) y Cod" Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, *Y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru Mai 2021*

## Diben a Rôl Aelod Eiriolwr

**Beth yw Aelod Eiriolwr?**

Mae Aelodau Eiriolwyr yn cynnig llais i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn draddodiadol, neu i faterion y mae angen eu cadw ar flaen busnes y cyngor, er nad ydynt o bosib yn gyfrifoldeb i unrhyw unigolyn na phwyllgor.

Mae Aelodau Eiriolwyr (a elwir weithiau'n aelodau arweiniol) yn aelodau etholedig sydd, yn ogystal â'u cyfrifoldebau eraill yn y cyngor, yn gofalu bod y mater neu'r grŵp y maent yn eu heirioli yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau'r cyngor a gwneud penderfyniadau. Mae Aelodau'n gweithredu fel eiriolwyr mewn meysydd fel plant, digartrefedd, cydraddoldeb, pobl hŷn, pobl ifanc, craffu, cymorth a datblygiad yr aelodau, gwella iechyd a threchu tlodi. Mae yna rôl statudol i aelod arweiniol gwasanaethau plant a phobl ifanc, gyda chyfrifoldeb dros oruchwylio'r trefniadau a wneir dan adrannau 25 a 26 Deddf Plant 2004.

Weithiau, bydd y cyrff allanol sy'n gysylltiedig â'r maes dan sylw wedi cyhoeddi canllawiau ar yr wybodaeth bynciol y mae aelodau ei hangen i gyflawni'r rôl, er enghraifft, pecyn cymorth y CLlL ar gyfer eiriolwyr pobl hŷn. Fel arall, bydd yr eiriolwyr yn dibynnu ar eu hawdurdod am ganllawiau am y pwnc perthnasol a'u rôl fel aelod arweiniol yn y maes hwnnw.

**Beth maen nhw'n ei wneud?**

Dyma ddyletswyddau arferol aelod arweiniol:

- Gofalu bod y maes dan sylw yn cael ei ystyried wrth ddatblygu polisïau neu ddod i benderfyniadau.
- Holi am berfformiad ac adnoddau ar gyfer y maes hwnnw.
- Codi proffil y maes a gofalu bod yr awdurdod yn gwybod am yr arferion da.
- Ymgysylltu â chyrff allanol sy'n gweithio yn y maes.
- Ymgysylltu â swyddogion ac aelodau eraill ynglŷn â'r rôl.
- Ymgysylltu â grwpiau cymunedol sydd â diddordeb/cysylltiad yn y maes.
- Rhoi gwybod i'r cyngor am y camau a gymerir.

**Sut mae'r rôl yn cydblethu â'r strwythur corfforaethol?**

Bydd hynny'n amrywio yn ôl y maes/mater sy'n cael ei eirioli a'r modd y mae'r awdurdod yn gweithredu. Mae'n bosib y bydd dryswch a gorgyffwrdd o ran rolau'r aelod eiriolwr a rolau'r aelod gweithredol neu'r aelod trosolwg a chraffu perthnasol. Gallai aelod gweithredol perthnasol neu aelod anweithredol gyflawni rôl yr eiriolwr.

Felly, mae'n bwysig bod yr aelodau a'r swyddogion yn cydweithio i gytuno ar rolau a chamau gweithredu yn y maes sy'n cael ei eirioli, a bod gweithdrefnau wedi'u sefydlu i alluogi'r aelod eiriolwr i adrodd am ei weithgareddau. Byddai o gymorth pe bai'r awdurdod yn llunio protocol sy'n pennu pa bwerau sydd gan eiriolwyr, megis yr hawl i wneud penderfyniadau ar ran yr awdurdod. Yn yr un modd, mae trefniadau penodi eiriolwyr yn

amrywio rhwng yr awdurdodau, gyda phenodiadau naill ai’n cael eu gwneud gan y cyngor llawn neu’r arweinydd.

**Disgrifiad o'r Rôl**

Mae'n anodd llunio disgrifiad sy'n gweddu i'r gwahanol rolau y mae disgwyl i eiriolwyr eu cyflawni a sut y maent yn gweithio o fewn strwythurau’r gwahanol awdurdodau. Dyma ddisgrifiad enghreifftiol y bydd angen ei addasu'n lleol, yn enwedig i adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng rôl statudol, rôl y mae aelod gweithredol yn ei chyflawni a rôl arweinydd anweithredol.

## Disgrifiad o Rôl Aelod Eiriolwr

## 1. Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn

## 2. Diben a gweithgareddau'r Rôl

**O fewn y Cyngor**

- Hyrwyddo'r maes dan sylw o fewn blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaethau'r Cyngor.
- Hyrwyddo anghenion y grŵp dan sylw ymysg y rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau o fewn y Cyngor.
- Cydweithio â'r rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau'r Cyngor i lunio strategaethau/polisïau/cynlluniau gwaith ar gyfer y maes dan sylw.
- Bod yn ymwybodol o bob mater sy'n ymwneud â'r maes.
- Cyfrannu i arferion da a gwella gwasanaethau a swyddogaethau sy'n ymwneud â'r maes drwy'r amser.
- Ymgysylltu â'r aelodau ynglŷn â'r materion sy'n ymwneud â'r maes dan sylw, megis mynychu cyfarfodydd pwyllgorau Trosolwg a Chraffu/ y Cabinet/ y Cyngor Llawn ac ati.
- Codi ymwybyddiaeth o'r maes a chymryd rhan flaengar o ran cynnig datblygiad i bob aelod a swyddog mewn perthynas â'r maes dan sylw.

**Yn y Gymuned**

- Codi proffil y maes yn y gymuned.
- Ymgysylltu â dinasyddion a grwpiau cymunedol mewn materion sy'n ymwneud â'r maes dan sylw.
- Arwain a chynnal mentrau lleol sy'n ymwneud â'r maes hwnnw.

## 3. Gwerthoedd

**Ymrwymo i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:**

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd ac uniondeb
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Parch tuag at wahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Arweinyddiaeth gynhwysol

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **15fed Hydref 2021** |
| **Teitl:** | **Fframwaith Datblygu ar gyfer Cynghorwyr yng Nghymru 2021** |
| **Pwrpas yr adroddiad:** | **I'r Pwyllgor ystyried a chytuno ar Fframwaith Datblygu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Cynghorwyr** |

**Cyflwyniad**

Datblygwyd y fframwaith hwn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, fel canllaw defnyddiol i nodi blaenoriaethau ar gyfer datblygiad personol a phroffesiynol parhaus ac ar gyfer darparu cymorth a hyfforddiant i aelodau. Mae'n cynnwys ystod o gymwyseddau generig sydd eu hangen ar bob Cynghorydd yn ogystal â chymwyseddau arbenigol sy'n gysylltiedig â rolau penodol ar y Cyngor.

Mae'r cymwyseddau generig yn cynnwys: sgiliau sylfaenol fel deall rôl y Cynghorydd, a'r Awdurdod Lleol, ymddygiad, cydraddoldeb ac amrywiaeth, sgiliau TGCh a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ac ati; sgiliau sydd eu hangen ar bob cynghorydd yn eu rolau fel arweinwyr cymunedol fel ymgynghori ac ymgysylltu; gwaith achos ar ran y cyhoedd; partneriaeth a chynrychiolaeth; a gweithio mewn amgylchedd gwleidyddol. Mae cymwyseddau penodol rolau yn cynnwys dealltwriaeth o rôl Craffu, datblygu ac adolygu polisi, dwyn y Weithrediaeth i gyfrif, monitro perfformiad; Sgiliau cadeirio; gwasanaethu ar bwyllgorau statudol / rheoleiddiol; Aelodau Gweithrediaeth; ac Arweinyddiaeth y Cyngor.

Bydd y fframwaith yn bwydo i'r rhaglen hyfforddi / cynefino ar gyfer Cynghorwyr.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad:** | **Cytuno â mabwysiadu'r Fframwaith Datblygu ar gyfer Cynghorwyr** |
| **Atodiad:** | **Atodiad A – Fframwaith Datblygu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Cynghorwyr yng Nghymru 2021** |

**Dogfennau cefndir:**

**Nia Jones**
**Rheolwr Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd**

**27ain Medi 2021**

ATODIAD A

## Fframwaith Datblygu ar gyfer Cynghorwyr yng Nghymru 2021

Mae’r fframwaith hwn yn amlinellu’r wybodaeth a’r ymddygiad sy’n ofynnol o Gynghorwyr mewn Cynghorau Unedol yng Nghymru.

Mae wedi cael ei ddatblygu gan Gynghorwyr a swyddogion wrth weithio gyda CLlLC.

Bydd yn ddefnyddiol i Gynghorau wrth ddarparu cymorth a hyfforddiant ar gyfer aelodau a Chynghorwyr er mwyn nodi eu blaenoriaethu ar gyfer parhau i ddatblygu’n broffesiynol ac yn broffesiynol.

Ni fwriedir iddo fod yn gyflawn nac yn gyfarwyddol, gellir ei addasu’n lleol hefyd er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau gwahanol gynghorau. Mae’r cymwyseddau a ddisgrifir yn adlewyrchu’r rhai y bydd cynghorwyr yn eu datblygu o fewn y rôl yn hytrach na rhai sydd eu hangen er mwyn ceisio am y swydd.

Mae’r Fframwaith yn cyd-fynd â *Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau*. Mae’r Siarter yn rhoi strwythur i Gynghorau ar gyfer hunanasesiad lleol ac yn darparu datblygiad aelodau, mae’r fframwaith hwn yn darparu argymhelliad o gynnwys y datblygiad hwnnw.

Mae’r fframwaith hefyd yn cyd-fynd â disgrifiadau rôl model CLlLC ac ymsefydlu cwricwlwm ar gyfer aelodau newydd. Mae’n ystyried gofynion deddfwriaethol ar gyfer aelodau gan gynnwys y rhai a nodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

### Defnyddio’r Fframwaith

Mae’r Fframwaith yn cynnwys ystod o gymwyseddau generig sy’n ofynnol gan holl Gynghorwyr ac adrannau gwahanol ar gyfer rolau penodol y Cyngor.

Ar gyfer bob thema, mae’r fframwaith yn nodi’r wybodaeth mae angen i’r Cynghorwyr wybod, ei ddeall, a gallu ei wneud (gwybodaeth a sgiliau), ynghyd ag esiamplau o sut y dylent weithredu (ymddygiadau).

Bydd **Rhan A** yn ddefnyddiol ar gyfer holl gynghorwyr. Dylai **Rhan B** gael ei ddefnyddio yn ddethol yn dibynnu ar rolau arbenigol ychwanegol.

## Rhan A – yn berthnasol i holl gynghorwyr

### Hanfodion: Ystod o sgiliau cyffredinol sy'n ofynnol gan holl aelodau

| CYF. | Gofynion | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|---|
| A1 | **Deall rôl y Cynghorydd** | Graddfeydd a chyfyngiadau cyfrifoldebau unigol Cynghorwyr, a'r pwerau a chyfrifoldebau sydd eu hangen ar gyfer llywodraethu'r Cyngor. | Cyflawni rôl yr aelod yn effeithiol yn y Cyngor, y gymuned a gydag asiantaethau partner. Yn gweithredu i ddarparu canlyniadau.<br>Deall pryd mae'n briodol neu'n amhriodol i weithredu ar gyfer y Ward neu er budd yr ardal gyfan. |
| A2 | **Deall rôl yr Awdurdod Lleol** | Y gwasanaethau a ddarperir gan neu ar ran y Cyngor yn statudol ac yn ôl disgresiwn, a'r polisïau, gweithdrefnau, cynlluniau a strategaethau sy'n eu tanategu.<br>Rhannu cyfrifoldeb rhwng yr haenau gwahanol o lywodraeth, y sectorau gwirfoddol ac iechyd.<br>Cydweithio rhwng Awdurdodau Lleol, sectorau a sefydliadau gwahanol, a'r cyhoedd. | Yn gweithio o fewn cwmpas gwaith y Cyngor ac yn cynrychioli hyn yn briodol i'r cyhoedd.<br>Yn cyfrannu tuag at ddatblygu cynlluniau a strategaethau'r cyngor ac yn gwneud penderfyniadau wrth ystyried y rhain.<br>Cydweithio gydag asiantaethau cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus eraill a'r cyhoedd. |
| A3 | **Ymddygiad** | Y fframwaith moesegol sydd rhaid i Gynghorwyr lynu ato.<br>Cod Ymddygiad. Rôl y Swyddog Monitro, Pwyllgor Safonau, Protocol Datrysiad Lleol. Rôl ac arweiniad gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. | Bob amser yn cadw at y Cod Ymddygiad. Bob amser yn datgan a diffinio cysylltiad pan fo angen. Ceisio cyngor y swyddog monitro lle bo angen. |
| A4 | **Llywodraethu Corfforaethol** | Egwyddorion llywodraethu corfforaethol da.<br>Sut mae'r Cyngor yn deall a bodloni anghenion y gymuned yn foesegol, yn gyfrifol ac yn effeithlon.<br>Cod Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor a'r dull i risg. | Gweithredu'n effeithiol ar draws ystod o rolau'r cyngor, gan gefnogi llywodraethu corfforaethol da trwy geisio barn y cyhoedd, gwneud neu graffu ar benderfyniadau yn foesegol, a sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Dyletswydd i Annog y Cyhoedd i Gymryd Rhan mewn gwneud penderfyniadau.<br>Strwythur gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd y Cyngor, gan gynnwys rôl a gwerth Craffu. Rôl a'r berthynas rhwng y Cabinet, Craffu, Cyngor Llawn, Rheoleiddio a phwyllgorau eraill. Cydweithio rhwng y Cynghorau a'r sectorau. Strwythurau gan gynnwys Bargeinion Twf a Chyd-Bwyllgorau Corfforaethol. | darparu'n gyfrifol ac yn effeithlon. |
| A5 | **Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** | Parchu eraill a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar egwyddorion cydraddoldeb. Tuedd Diarwybod. Yr angen i ystyried nodweddion a ddiogelir gan unigolion, - rhyw, hil, crefydd, oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a partneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth a chyfeiriadedd rhywiol, ymhob agwedd o waith y cyngor a'r gymuned.<br>Angen a barn y rhai sydd dan anfantais gymdeithasol-economaidd.<br>Cyfraith cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn perthynas â gwaith y Cyngor a rôl y Cynghorydd. | Yn dangos gwerthoedd cydraddoldeb mewn ymddygiad personol a gweithrediadau'r Cyngor. Ystyried anghenion holl aelodau o gymdeithas. Gweithredu o fewn cyfraith cydraddoldeb am amrywiaeth.<br>Herio ymddygiad amhriodol. Cydnabod a gwneud yn iawn am duedd personol. |
| A6 | **Moesgarwch** | Ymddygiad parchus a'r hyn sy'n cael ei adnabod fel camdriniaeth, aflonyddwch a bwlio. | Bob amser yn trin pawb, swyddogion, aelodau o'r cyhoedd ac aelodau eraill gyda pharch, yn y Cyngor, yn y gymuned nei grŵp gwleidyddol. Wyneb yn wyneb, mewn cyfatebiaeth ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Herio ymddygiad amhriodol ymysg eraill. Cefnogi'r rhai sy'n dioddef o gamdriniaeth, aflonyddwch neu fwlio. |
| A7 | **Cydbwyso disgwyliadau a chyfrifoldebau'r Cyngor a'r gymuned** | Cyfrifoldebau penodol cynghorydd fel aelod o gorff corfforaethol ac fel cynrychiolydd Ward. | Gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r Cyngor neu Ward yn foesegol. Yn rheoli disgwyliadau'r gymuned a'r Cyngor trwy gyfathrebu'n effeithiol. |
| A8 | **Rheoleiddio ac Archwilio** | Rôl cyrff Archwilio a Rheoleiddio a phrosesau cysylltiol y Cyngor. | Yn ymgysylltu'n effeithiol gyda phrosesau rheoleiddio ac archwilio o fewn y cyngor, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon i wneud penderfyniadau, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | monitro perfformiad, herio a chefnogi'r gwasanaethau a effeithir mewn modd adeiladol. |
| A9 | **Cydbwysedd bywyd a gwaith** | Egwyddorion rheoli amser gan gynnwys blaenoriaethu a dirprwyo.<br>Rheoli gwybodaeth. | Cynnal cydbwysedd effeithiol rhwng y cyngor, bywyd personol, ac ymrwymiadau gwaith eraill. Rheoli'r amser sydd ar gael ar gyfer gwaith y Cyngor i ganolbwyntio ar faterion sydd â'r canlyniadau mwyaf sylweddol. |
| A10 | **Hunan-ofal** | Lles, gan gynnwys rheoli straen a chadernid personol. | Yn cynnal ymwybyddiaeth o'r effaith y gall fod yn gynghorydd ei gael ar les. Ceisio cefnogaeth a chymorth cyn i'r pwysau ddod yn straen. |
| A11 | **Rheoli a delio â gwybodaeth a data** | Deall a dehongli gwybodaeth a data.<br>Delio â gwybodaeth gyfrinachol.<br>Deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.<br>Deall rôl Cynghorydd fel rheolydd a thriniwr data. | Yn defnyddio a dehongli data i wneud penderfyniadau a monitro ac asesu perfformiad. Gweithredu'n gymwys del rheolydd data neu driniwr data mewn cyd-destunau gwahanol wrth weithredu ar ran y cyngor neu mewn rôl arweinyddiaeth cymuned. |
| A12 | **Sgiliau TGCh** | Y gallu i ddefnyddio holl raglenni 'Office'. E-bost, Word, PowerPoint, Excel. Medrusrwydd mewn gweithio o bell a mynychu cyfarfodydd yn electronig.<br>Datrys problemau TG cyffredinol. | Cynnal busnes y cyngor ac ymgysylltu â'r gymuned yn electroneg ac o bell fel dull diffygdaliad. Defnyddio dull wyneb yn wyneb lle bo'n bosibl neu'n fwy priodol. |
| A13 | **Sgiliau cyfryngau cymdeithasol** | Y gallu i ddefnyddio Cyfryngau Cymdeithasol trwy lwyfannau ac apiau gwahanol.<br>Cydnabod pa gynnwys sy'n briodol.<br>Polisi Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor.<br>Canllawiau gan dimoedd cyfathrebu'r Cyngor. | Yn cynnal presenoldeb effeithiol, cadarnhaol a moesegol ar-lein yn unol â pholisi Cyfryngau Cymdeithasol y Cyngor. |
| A14 | **Paratoi a chyfranogi mewn cyfarfodydd** | Cyfarfodydd aml-leoliad, o bell, hybrid neu wyneb yn wyneb. Rheolau Sefydlog, protocolau cyfarfodydd a chwrteisi, rheolau trafodaethau. Siarad cyhoeddus, trafod a gofyn cwestiynau. | Cyfranogi yn effeithiol mewn cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol, o bell ac wyneb yn wyneb. Paratoi yn effeithiol ar gyfer cyfarfodydd trwy ddarllen adroddiadau a dadansoddi data. Cyflawni ymchwil bersonol a chymryd rhan mewn unrhyw |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cyfarfodydd paratoadol. Cyfrannu tuag at ganlyniadau cyfarfodydd cadarnhaol trwy geisio penderfyniadau neu weithrediadau. Cyfrannu'n effeithiol tuag at gyfarfodydd trwy wneud pwyntiau yn eglur a chlir. Parhau i ganolbwyntio ar y busnes dan sylw. Deall a defnyddio 'rheolau' cyfarfod. Ceisio arweiniad gan swyddogion ac Arweinyddion Grŵp cyn cyfarfodydd fel bo'n briodol. |
| A15 | **Gweithio gyda'r cyfryngau** | Adeiladu perthnasau gyda'r Cyfryngau. Sgiliau cyfweld ar gyfer y teledu, radio, y wasg a chyfryngau ar-lein. | Yn ffynhonnell gredadwy gydnabyddedig o wybodaeth ar gyfer y Cyfryngau. Siarad yn hyderus, gydag awdurdod ac yn briodol mewn cyfweliadau. Gwella enw da'r Cyngor wrth ymddangos ar sgrin neu mewn print. |
| A16 | **Hunan-hyrwyddo** | Datblygu proffil yn y gymuned trwy weithgareddau lleol a chyfathrebu ac ymgynghori effeithiol. | Adrodd ar gyflawniadau a gweithgareddau. Yn weledol iawn yn y gymuned. Yn cynnal safon uchel o ran enw da personol ac enw da'r Cyngor. |
| A17 | **Gweithio gyda swyddogion** | Rôl swyddogion yn gyffredinol a'r 'rheolau' sydd angen iddynt lynu atynt gan gynnwys dealltwriaeth ddyfnach o rôl yr uwch swyddogion megis y Prif Weithredwr, Yr Uwch Dîm Rheoli, Swyddog Monitro a Phenaethiaid y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a Chyllid. Sgiliau i weithredu fel gweithiwr corfforaethol. Deall y proses apwyntiadau a sgiliau cyfweld. | Cynnal perthnasau proffesiynol gyda swyddogion, gan gydnabod ffiniau a glynu at y Protocol Aelodau Swyddogion. Gweithredu fel aelodau effeithiol o banel penodi, gan gymhwyso AD cadarn ac egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth i wneud penodiadau. |
| A18 | **Diogelwch personol** | Sut i ddiogelu eich hunain yn y Cyngor, yn y gymuned, wrth deithio a gartref ac ar-lein. Gan gynnwys wrth weithio ar eich pen eich hun, neu mewn gyfarfodydd gyda thrigolion. | Gweithredu er mwyn cymryd y mesurau diogelwch angenrheidiol. Ddim yn rhoi eu hunain mewn perygl. Yn gofyn am gymorth y Cyngor neu'r Heddlu lle bynnag bo hynny'n angenrheidiol. |
| A19 | **Cymorth i Aelodau** | Y pwysigrwydd o ddysgu parhaus.<br>Y ffynonellau a'r deunyddiau ar gyfer datblygiad proffesiynol Cynghorwyr ar gael gan y Cyngor.<br>Cyflogau a lwfansau.<br>Cyfleoedd rhannu swydd. | Yn chwilio'n weithredol am gyfleoedd dysgu a datblygu. Yn derbyn adolygiadau datblygu personol. Canfod anghenion datblygu a chymorth. Yn cymryd rhan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Absenoldeb teulu. | mewn holl gyfleoedd dysgu perthnasol.<br>Yn hawlio lwfansau a chyflogau iawn. |
| A20 | **Galluedd Ariannol** | O ble mae cyllid y Cyngor yn dod.<br>Cynllunio ariannol a gosod cyllideb.<br>Sgiliau ariannol personol.<br>Effaith Diwygio'r Gyfundrefn Les, Brexit, Caledi a Covid gan gynnwys y bobl diamddiffyn a'r rhai gyda nodweddion a ddiogelir. | Yn ymgysylltu'n effeithiol yn y broses gosod cyllideb. Yn barod i wneud penderfyniadau anodd yn seiliedig ar dystiolaeth. Yn dangos sgiliau mewn rhifedd wrth ddehongli data a gofyn cwestiynau. |
| A21 | **Sgiliau rhyngbersonol** | Hunan-ymwybyddiaeth, a sgiliau mewn hunan-reoli, cwrteisi, parch. Deallusrwydd Emosiynol, gwrando, trafod, rheoli gwrthdaro a sgiliau cyfryngu. | Yn gweithredu mewn modd proffesiynol a pharchus tuag at bawb ac ymhob man. Yn hunanymwybodol ac yn gallu datblygu a rheoli perthnasau o fewn a thu allan i'r Cyngor. Delio â pherthnasau a rheoli gwrthdaro yn y gymuned a'r Cyngor a rhwng y ddau. |
| A22 | **Rhianta Corfforaethol** | Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd fel Rhiant Corfforaethol. | Yn cymryd cyfrifoldeb corfforaethol ar gyfer lles plant sy'n derbyn gofal, chwilio'n weithredol am wybodaeth am eu sefyllfa a'r cynnydd, ond peidio â dod yn rhan o waith achos unigol. |
| A23 | **Cynaliadwyedd** | Gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gan gynnwys nodau ar gyfer cynaliadwyedd a'r ffyrdd o weithio i'w bodloni. | Yn cydweithio a gwneud penderfyniadau gydag eraill er mwyn sicrhau bod anghenion cenedlaethau'r dyfodol yn ogystal; â'r boblogaeth bresennol, yn cael eu hystyried. Yn ceisio atal unrhyw broblemau rhag digwydd yn y lle cyntaf. |
| A24 | **Diogelu** | Y gofynion cyfreithiol, a'r cyfrifoldebau a roddir ar awdurdodau a chynghorwyr unigol i ddiogelu plant ac oedolion diamddiffyn sydd mewn risg o gamdriniaeth, gan gynnwys mecanweithiau adrodd. | Yn wyliadwrus, ac yn gweithredu er mwyn sicrhau bod plant ac oedolion diamddiffyn yn cael ei diogelu rhag camdriniaeth, gan wneud penderfyniadau ac adrodd am ddigwyddiadau. |

## Arweinyddiaeth Leol. Ystod o sgiliau sydd eu hangen gan holl gynghorwyr yn eu rôl fel arweinwyr cymunedol

| CYF. | **Gofynion** | **Gwybodaeth a Sgiliau** | **Ymddygiadau Effeithiol** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| A25 | **Gweithio gyda'r gymuned** | Cysylltiadau ar gyfer arweinwyr a grwpiau cymunedol lleol.<br>Materion a phryderon y gymuned.<br>Cynlluniau'r Cyngor sy'n effeithio ar faterion lleol. | Yn deall anghenion y gymuned leol. Yn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ar ran pobl leol. Yn cyfathrebu gyda'r gymuned, unigolion a'r Cyngor i sicrhau ymgysylltiad a dealltwriaeth holl bartïon. Yn gweithio gyda'r gymuned a'r Cyngor i ddod o hyd i ddatrysiadau i broblemau lleol. Yn sicrhau cyllid ar gyfer mentrau lleol. |
| A26 | **Ymgynghori ac ymgysylltu** | Y Ddyletswydd i Annog y Cyhoedd i Gymryd Rhan.<br>Y Strategaeth leol i annog y cyhoedd i gymryd rhan.<br>Dulliau gwahanol i ymgysylltu yn amrywio o gyfathrebu i gyd-gynhyrchu fel y nodir yn egwyddorion ymgysylltu cenedlaethol Cymru http://www.participationcymru.org.uk/national-principles | Dangos canlyniadau cadarnhaol yn sgil eu hymgysylltiad effeithiol. Yn defnyddio ystod o adnoddau cyfathrebu ac ymgynghori gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol i ddeall anghenion a safbwyntiau'r gymuned.<br>Yn gweithio o fewn egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu. |
| A27 | **Y Sector Gwirfoddol** | Rôl, cyfrifoldebau, gwasanaethau a ddarperir a chysylltiadau ar gyfer y sector gwirfoddol yn yr ardal. | Yn gweithio gyda sefydliadau'r sector gwirfoddol. Yn cyfeirio pobl tuag at asiantaethau gwirfoddol a all eu helpu nhw. |
| A28 | **Gweithio gyda chynghorau cymuned a thref** | Cyfrifoldebau'r Cynghorau Cymuned a Thref, rôl eu haelodau, cysylltiadau ar gyfer y Clercod a'u rhaglenni gwaith i'r dyfodol.<br>Gwasanaethau sydd wedi'u trosglwyddo neu a fydd yn cael eu trosglwyddo i gynghorau cymuned. | Yn gweithio gyda chynghorau cymuned i gyflawni canlyniadau ar gyfer y gymuned. Yn meithrin perthnasau cadarnhaol a chyfathrebu gweithredol gydag aelodau o'r Cyngor Cymuned a'r Clerc. |

## Gwaith achos ar ran y cyhoedd

| CYF. | **Gofynion** | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|---|
| A29 | **Bod yn hygyrch i'r cyhoedd** | Dealltwriaeth a gallu i drefnu a rhoi gwybod am gyfleoedd i drafod gwaith achos gyda'r cyhoedd. | Sicrhau eu bod ar gael trwy'r ffyrdd mwyaf defnyddiol i gysylltu gyda'r nifer fwyaf o bobl. Defnyddio sesiynau galw heibio, sesiynau ar y stryd, lleoliadau anffurfiol a'r cyfryngau cymdeithasol fel bo'n briodol. Cymryd camau i sicrhau diogelwch personol. Gwneud addewidion os oes sicrwydd y gallent gael eu cyflawni yn unig. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A30 | **Rheoli gwaith achos** | Argaeledd a defnydd o dechnegau a meddalwedd rheoli achos.<br>Gall y swyddogion helpu.<br>Gweithdrefnau'r Cyngor i gefnogi Aelodau gyda gwaith achos. | Yn ymateb yn brydlon i geisiadau am gymorth. Rhoi gwybod i'r bobl rydych yn gweithio ar eu rhan, o'r cynnydd a wneir. Yn monitro cynnydd achosion ar ôl iddynt gael eu cyfeirio ar swyddogion neu asiantaethau eraill. Yn defnyddio'r cynlluniau atgyfeirio sefydledig o fewn y Cyngor. |
| A31 | **Atgyfeirio** | Ffynonellau o wybodaeth a chyngor o fewn a thu allan i'r Cyngor sy'n ddefnyddiol i holl grwpiau cymunedol. | Yn gwneud cysylltiadau rhwng aelodau o'r cyhoedd a'r ffynhonnell briodol i gymorth yn y Cyngor neu yn y gymuned. |

## Partneriaeth a chynrychiolaeth

| CYF. | Gofynion | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|---|
| A32 | **Gwaith ar gyrff allanol** | Ym mha gapasiti caiff Aelodau eu penodi. Er enghraifft, cynrychiolydd y Cyngor, cynrychiolydd ardal leol neu fel unigolyn. Os ydych yn ymddiriedolwr.<br>Rôl y corff allanol. Ei statws, er enghraifft cwmni, ymddiriedolaeth, elusen, cymdeithas anghorfforedig. Y berthynas rhwng y Cyngor a'r corff ac unrhyw wrthdaro buddiannau. | Yn adrodd i ac oddi wrth y Cyngor a'r corff allanol fel bo'n briodol. Cynrychioli barn y Cyngor, barn bersonol neu'r gymuned yn effeithiol ac yn briodol yn unol â'r rôl. Yn ymgysylltu mewn briffio a hyfforddiant a ddarperir gan y cyrff allanol.<br>Yn gweithredu o fewn y Cod Ymddygiad perthnasol. |
| A33 | **Gweithio fel llywodraethwr ysgol** | Polisi Addysg.<br>Trefniadaeth Ysgol.<br>Cylch gwaith llywodraethwr.<br>Egwyddorion ymddygiad ar gyfer llywodraethwyr.<br>Gweler hefyd<br>Llywodraethiant ysgolion \| Is-bwnc \| LLYW.CYMRU | Goruchwylio perfformiad yr ysgol. Yn herio rheolaeth yr ysgol fel cyfaill beirniadol. Cymryd rhan mewn hyfforddiant i lywodraethwyr. |
| A34 | **Gweithio fel aelod o gyngor tref neu gymuned** | Llywodraethu Cyngor Cymuned.<br>Rôl y cyngor cymuned a'i gyfyngiadau.<br>Trosglwyddo asedau a gwasanaethau. | Yn cyfrannu tuag at lywodraethu cyngor cymuned neu dref. Yn gwneud cysylltiadau rhwng y Cyngor Cymuned a'r Cyngor Unedol, yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Protocolau rhwng Cynghorau Cymuned neu Dref a Chynghorau Unedol.<br>Gweler hefyd<br>[The Good Councillors Guide - One Voice Wales] | cymryd rhan mewn hyfforddiant Cyngor Cymunedol. |

## Gweithio mewn amgylchedd gwleidyddol

| | Gofynion | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|---|
| A35 | **Polisi plaid (os yn aelod o blaid)** | Ymwybyddiaeth o werthoedd a maniffestos yn genedlaethol ac yn lleol. | Yn cydbwyso anghenion pobl leol, Plaid, Grŵp a'r Cyngor |
| A36 | **Cysylltu gyda Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Senedd** | Deall swyddogaethau'r haenau gwahanol o lywodraethau a dulliau ymgysylltu. | Yn cysylltu gydag ASau.<br>Yn dod a materion lleol i sylw LlC lle bo'n briodol. |
| A37 | **Aelodaeth Grŵp Plaid** | Rheolau plaid a strwythur a pholisïau grŵp etholaeth. | Gweithio'n effeithiol ac yn barchus gydag aelodau a swyddogion Grŵp Plaid. |
| A38 | **Disgyblaeth Grŵp** | Dealltwriaeth o'r ymarweddiad a'r ymddygiad sydd ei angen gan aelod o grŵp. | Gweithio'n unol a'r safonau ymddygiad sydd eu hangen gan Arweinydd y Grŵp. |

# Rhan B – yn berthnasol i'r cynghorwyr sy'n cyflawni rolau arbenigol

## Craffu

| CYF. | Gofynion | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|---|
| B1 | **Rôl Craffu** | Gwerth Craffu fel rhan hanfodol o lywodraethu corfforaethol y Cyngor.<br>Rôl swyddogaeth Craffu i:<br>Gyfrannu canlyniadau gwell – gyrru gwelliannau mewn gwasanaethau.<br><br>Penderfyniadau gwell – sicrhau bod penderfyniadau democrataidd yn atebol, yn gynhwysol ac yn gadarn.<br><br>Ymgysylltiad gwell – sicrhau bod y cyhoedd yn cymryd rhan mewn | Yn cyfrannu tuag at ddatblygiad y rhaglenni gwaith i'r dyfodol.<br>Yn dewis testunau lle gall Craffu gael effaith mawr.<br>Yn hyrwyddo gwaith Craffu o fewn y Cyngor.<br>Yn gweithredu mewn dull amhlwyfol ac amhleidiol wrth gyflawni gwaith Craffu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | trafodaeth ddemocrataidd am y ddarpariaeth gyfredol ac yn y dyfodol o wasanaethau cyhoeddus. | |
| B2 | **Adolygu a Datblygu Polisi** | Dealltwriaeth gyffredinol o bolisïau, cynlluniau, gwasanaethau a swyddogaethau wrth ddatblygu neu adolygu. | Yn gwneud argymhellion gwybodus, yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer datblygu polisi. |
| B3 | **Galw'r Weithrediaeth i gyfrif** | Dealltwriaeth o gylch gwaith y Weithrediaeth yn gyffredinol ac eitemau ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.<br>Prosesau ar gyfer herio penderfyniadau gweithredol mewn modd adeiladol a phryd a sut i ddefnyddio'r pŵer i alw penderfyniadau i mewn. | Yn monitro ac yn herio'r broses gwneud penderfyniadau'r weithrediaeth mewn modd adeiladol, er lles gorau'r gymuned. |
| B4 | **Monitro Perfformiad** | Dehongli data, gwybodaeth ariannol. Risg, adroddiadau o archwilio, arolygon a chyrff rheoleiddio, a gwybodaeth eraill sydd ei angen ar gyfer mesur perfformiad. | Yn nodi a herio perfformiadau gwael yn seiliedig ar dystiolaeth, i wella gwasanaethau. |
| B5 | **Sgiliau Craffu Unigol** | Delio â data ac ymchwil.<br>Paratoi ar gyfer cyfarfodydd a grwpiau craffu ffurfiol ac anffurfiol.<br>Cyfrannu tuag at gwestiynu strategaethau a gofyn cwestiynau.<br>Gwrando gweithredol. | Paratoi yn drylwyr ar gyfer bob gweithgaredd a chyfarfodydd Craffu trwy ddarllen adroddiadau, paratoi llwybrau ymholi a chyflawni ymchwil personol.<br>Yn cyfrannu tuag at gwestiynu strategaethau a gofyn cwestiynau perthnasol ac effeithiol. Yn ceisio canlyniadau ar gyfer bob gweithgaredd Craffu. |
| B6 | **Ymgysylltu â'r cyhoedd mewn Craffu** | Sut mae'r ddyletswydd i Annog y Cyhoedd i Gymryd Rhan mewn gwneud penderfyniadau yn cael ei gefnogi gan Graffu.<br>Sefydliadau ac unigolion lleol priodol a all gyfrannu tuag at waith Craffu, yn arbennig y rhai sydd wedi'u heithrio yn draddodiadol. | Yn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith Craffu a rhaglenni gwaith. Yn annog y cyhoedd i ddod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau a pholisi trwy Graffu. |
| B7 | **Craffu ar y Cyd** | Craffu ar y Cyd – deall cylch gwaith a chylch gorchwyl o unrhyw bwyllgorau craffu.<br>Craffu trefniadau ar y cyd – rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd sefydliadau, partneriaethau a chyrff rhanbarthol tu allan i'r Cyngor sy'n destun Craffu. | Yn ceisio canlyniadau o gydweithio effeithiol gydag aelodau craffu o awdurdodau, partneriaethau a sefydliadau eraill. |

## Cadeirio

| CYF. | Gofynion | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|---|
| B8 | **Arweinyddiaeth Pwyllgor** | Dealltwriaeth fanwl o rôl y pwyllgor a'i gwmpas.<br>Y gallu i gysylltu â swyddogion, aelodau ac asiantaethau perthnasol.<br>Ymrwymiad i alluogi holl aelodau pwyllgor i ddatblygu sgiliau a chymryd rhan yn effeithiol mewn cyfarfodydd. | Hyrwyddo gwaith a gwerth y pwyllgor yn y Cyngor ac yn gyhoeddus. Yn gweithio gyda'r pwyllgor tu allan i gyfarfodydd i sicrhau ei fod yn gweithio yn fwy effeithiol. Yn cyfathrebu gydag aelodau a swyddogion gyda diddordeb mewn trafodion y pwyllgor. Adeiladu perthnasau gyda Phenaethiaid Gwasanaeth / Cyfarwyddwyr perthnasol er mwyn sicrhau bod gwaith y pwyllgor yn perthnasol, llawn gwybodaeth ac yn darparu canlyniadau angenrheidiol. |
| B9 | **Rheoli a datblygu rhaglen waith** | Y testunau o fewn cwmpas y pwyllgor a sut mae'r rhain yn rhyngweithio'n gyffredinol â pholisïau'r cyngor a rolau pwyllgorau eraill.<br>Unrhyw flaenoriaethau'r Cyngor a chymuned a ddylai lywio'r rhaglen waith. | Yn gweithio gyda swyddogion ac aelodau pwyllgor i ddatblygu'r cynllun gwaith. Yn sicrhau bod y rhaglen waith yn ystyried<br>y Cynllun Gwaith Gweithredol,<br>risgiau i'r Cyngor,<br>rhaglenni pwyllgor eraill,<br>polisïau a chynlluniau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ac anghenion y gymuned am wasanaethau. Sicrhau bod y pwyllgor yn defnyddio'r adroddiadau o archwilio, a chyrff rheoleiddio. |
| B10 | **Rheoli a pharatoi cyfarfod** | Rheoli cyfarfod mewn amrywiaeth o leoliadau a gan ddefnyddio sianeli gwahanol ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb, hybrid ac o bell.<br>Darlledu.<br>Protocolau cyfarfod a rheolau'r drafodaeth. Rheoli'r rhaglen gan gynnwys cyfraniadau ac amser teg.<br>Cyfranogiad y cyhoedd a'r wasg. | Y Cadeirydd yn gweithredu'n glir a gydag awdurdod er mwyn gorfodi rheolau'r cyfarfod ac annog cyfranogiad teg wedi'i ffocysu. Rheoli'r rhaglen drwy gyflwyno eitemau, crynhoi'r drafodaeth, canolbwyntio ar ganlyniadau a chyfyngu cyfraniadau nad ydynt yn cyfrannu tuag y canlyniadau. Yn sicrhau bod y cyhoedd yn teimlo'n groesawgar, yn deall pwrpas y |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cyfarfod a sut y gallent gyfrannu. |
| B11 | **Cymorth Pwyllgor** | Y cymorth, lefel briodol ac amrywiaeth y wybodaeth ac arian mae'r pwyllgor ei angen i weithredu'n effeithiol. | Yn trafod a sicrhau'r cymorth sydd ei angen gan y pwyllgor. |

## Gwasanaethu ar bwyllgorau statudol/rheoleiddio

| CYF. | **Gofynion** | **Gwybodaeth a Sgiliau** | **Ymddygiadau Effeithiol** |
|---|---|---|---|
| B12 | **Cynllunio** | Rôl statudol y pwyllgor.<br>Cyfraith cyffredinol hawliau tramwy a chynllunio. Sut i gymhwyso'r Cod Ymddygiad i faterion cynllunio. Datgan cysylltiad mewn Cynllunio.<br>Cynllunio Datblygiadau Lleol.<br>Rheoli Datblygu<br>Egwyddorion a deddfwriaethau Datblygu Cynaliadwy gan gynnwys ystyriaethau amgylcheddol, lles, cenedlaethau'r dyfodol a dylunio.<br>Rolau Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol.<br>Asesiad o'r effaith amgylcheddol mewn cyd-destun cynllunio. | Yn dangos gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau annibynnol yn seiliedig ar dystiolaeth a chyfrifoldeb cyfreithiol a roddir ar bwyllgorau sy'n gweithredu mewn rôl lled farnwrol. Yn glynu'n glir i'r Cod Ymddygiad. Yn ceisio cyngor swyddog proffesiynol, datblygiad personol neu friffio cyn gwneud penderfyniadau. |
| B13 | **Llywodraethu ac Archwilio** | Rôl statudol y pwyllgor.<br>Rheoli perfformiad a llywodraethu effeithiol.<br>Fframweithiau adrodd ar berfformiad y Cyngor a chenedlaethol.<br>Delio â chwynion o fewn y Cyngor.<br>Craffu ar berfformiad ariannol. Rheoli Risg a'r Strategaeth Rheoli Risg lleol.<br>Trefniadau archwilio mewnol ac allanol y Datganiad Llywodraethu BLynyddol. Rolau pwyllgorau Craffu ac Archwilio. | |
| B14 | **Trwyddedu** | Rheoliadau Trwyddedu a Pholisi Trwyddedu. Polisïau lleol sy'n effeithio ar yr ardal, megis y Cynllun Cymunedol ac ystyriaethau ehangach o ran cynaliadwyedd. | |
| B15 | **Gwasanaethau Democrataidd** | Gofynion deddfwriaethol ar gyfer y Pwyllgor gwasanaethau | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | democrataidd. Gofynion lleol a chenedlaethol ar gyfer cefnogaeth a datblygiad i aelodau. Rôl Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd/ Swyddog Monitro (os yw ar wahân). Cydweithio a rôl yr Aelod Arweiniol/Cefnogwr cefnogi a datblygu aelodau. Amrywiaeth mewn Democratiaeth. | |
| B16 | **Safonau** | Y gyfraith a chyfansoddiad mewn perthynas ag ymddygiad.<br>Protocolau penderfyniadau lleol.<br>Anghenion y Cyngor Sir a'r Cynghorau Tref a Chymuned mewn perthynas â Chod Ymddygiad.<br>Ymddygiad yr Aelod, delio gydag adroddiadau gan Arweinwyr Grŵp ac adrodd blynyddol. | |

**Aelodau gweithredol**

| CYF. | Gofynion | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|---|
| B17 | **Cydgyfrifoldeb** | Datblygu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer y Cyngor.<br>Y rôl weithredol i alluogi'r cyhoedd i gymryd rhan o fewn y Strategaeth Annog y Cyhoedd i Gymryd Rhan.<br>Gwybodaeth, arferion da a chasglu a delio â thystiolaeth.<br>Gwneud penderfyniadau ar y cyd.<br>Blaenoriaethu materion sydd bwysicaf i'r Awdurdod.<br>Gweithio gydag awdurdodau ac asiantaethau eraill i ddiogelu gwasanaethau ar gyfer y Cyngor.<br>Gweithio'n effeithiol ac yn adeiladol gyda'r uwch dîm rheoli a'r Prif Weithredwr. | Cydweithio i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y Cyngor. Sicrhau cyfranogiad y cyhoedd yn y broses gwneud penderfyniadau. Gwneud penderfyniadau strategol effeithiol.<br>Sicrhau'r perfformiad gorau bosibl i'r Cyngor.<br>Arwain a galluogi perfformiad y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli. |
| B18 | **Arweinydd Portffolio** | Gwybodaeth drylwyr o bolisi lleol a chenedlaethol yn ymwneud â'r meysydd gwasanaeth perthnasol.<br>Cydweithio'n effeithiol ac yn barchus gyda'r swyddogion arweiniol a'r cadeiryddion craffu perthnasol.<br>Datblygu gweledigaeth ar gyfer y portffolio.<br>Sefydlu gwaith y portffolio gyda'r rhaglen weithredol ehangach.<br>Sgiliau cyfryngau lefel uchel. | Yn darparu cyfeiriad gwleidyddol i swyddogion yn y maes portffolio. Yn atebol yn gyhoeddus am gyfathrebu, polisi a pherfformiad y maes portffolio. Gweithio gyda swyddogion i ystyried materion, blaenoriaethau a gwneud penderfyniadau.<br>Cynrychioli'r Cyngor yn y cyfryngau. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| B19 | **Gweithio gyda Chraffu** | Gwerthfawrogi a gweithio'n adeiladol gyda Chraffu, er mwyn sicrhau bod y weithrediaeth yn atebol am benderfyniadau ac yn cymryd ac adolygu penderfyniadau sydd wedi cael eu craffu'n drylwyr. | Ceisio a gwerthfawrogi mewnbwn Craffu i ddatblygu polisi a monitro perfformiad. |
| B20 | **Cyfrifoldebau Dirprwyedig** | Y cynllun dirprwyo a'r broses o gymryd cyfrifoldeb am benderfyniadau o dan y cynllun. | Gwneud penderfyniadau ar ôl ymchwil ac ymgynghoriad priodol. |

## Arweinyddiaeth y Cyngor

| CYF. | Gofynion | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|---|
| B21 | **Hyrwyddo a rheoli enw da'r Cyngor** | Gweithredu fel llysgennad ar gyfer yr Awdurdod Lleol. | Cynrychioli'r Cyngor yn effeithiol, gan sicrhau bod y wybodaeth am y Cyngor a'i wasanaethau a'i drigolion yn cael ei gyfathrebu'n gadarnhaol gyda dilysrwydd ac uniondeb. |
| B22 | **Arwain y weledigaeth ar gyfer yr ardal.** | Datblygu gweledigaeth ar gyfer ardal y Cyngor neu'r rhanbarth ehangach. | Cydweithio gyda'r gymuned, aelodau, swyddogion a phleidiau gwleidyddol (os yn aelod) i greu a chyfathrebu gweledigaeth a rennir ar gyfer yr ardal. |
| B23 | **Arwain y Cyngor** | Datblygu gweledigaeth trwy waith, diwylliant a chanlyniadau'r Cyngor.<br>Uwch Llywodraethu Corfforaethol | Cydweithio gyda'r gymuned, aelodau, swyddogion a phleidiau gwleidyddol (os yn aelod) i greu a chyfathrebu gweledigaeth a rennir ar gyfer y Cyngor. Goruchwylio darpariaeth llywodraethu corfforaethol effeithiol yn y Cyngor. |
| B24 | **Perthnasau gyda'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli** | Adeiladu perthynas a chyfathrebu uwch.<br>Dealltwriaeth ac empathi ar gyfer gwaith y Prif Weithredwr a'r Uwch Swyddogion.<br>Rheoli perfformiad a gwerthusiad yr uwch swyddogion. | Cyfarfod a chyfathrebu'n agored ac yn rheolaidd. Gwneud disgwyliadau'n glir a darparu arweinyddiaeth wleidyddol. Cyflawni adolygiadau perfformiad gydag uwch swyddogion fel bo'n briodol. |

## Arweinyddiaeth Sifil

| CYF. | Gofynion | Gwybodaeth a Sgiliau | Ymddygiadau Effeithiol |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| B25 | **Cadeirio'r Cyngor Llawn** | Sgiliau cadeirio uwch. Dealltwriaeth manwl o reolau sefydlog a rheolau ymgysylltu. Cyfarfodydd o bell, hybrid a wyneb yn wyneb. Sgiliau darlledu cyfarfod. | Cadeirio cyfarfodydd y Cyngor Llawn yn effeithiol ac yn hyderus trwy amrywiaeth o sianeli. Yn gosod y safonau a disgwyliadau ar gyfer ymddygiad priodol. |
| B26 | **Cynrychioli'r Cyngor mewn gweithgarwch sifil** | Tact a diplomyddiaeth.<br>Sgiliau siarad cyhoeddus uwch<br>Adeiladu perthynas. | Dangos lefel uchel o gyfathrebu rhyngbersonol, a sgiliau cymdeithasol, priodol i'r cyd-destun. |

Eitem Agenda 9

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

**Dyddiad:** **15 Hydref 2021**

**Teitl:** **Darpariaeth TGCh Aelodau ar ôl etholiadau 2022.**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Cynnig offer a chymorth TGCh ar gyfer y dyfodol**

**Cyflwyniad**

Mae'r adroddiad hwn dim ond yn disgrifio'r offer a'r cymorth arfaethedig o ran TGCh a ddarperir gan y Gwasanaeth TGCh.

**Trefniadau ar hyn o bryd**

Ar hyn o bryd, mae aelodau yn cael iPad neu Liniadur heb dâl gydag e-bost a meddalwedd cynhyrchiant Microsoft office fel a ganlyn:

**Opsiwn 1 – Gliniadur ac Argraffydd**

Bydd y Cyngor yn darparu

- Gliniadur Windows 10 gyda meddalwedd Microsoft Office (E-bost, Word, Excel, Power Point)
- Mynediad at Systemau Dogfennau Corfforaethol (Agendâu, Cofnodion ac Adroddiadau)
- Bydd yr holl wybodaeth ar y gliniadur yn cael ei hamgryptio fel amddiffyniad rhag colled neu fynediad heb ei awdurdodi.
- Cês cario ar gyfer y Gliniadur
- Argraffydd Amlddefnydd (Argraffydd, Sganiwr, Copïwr a Ffacs) gyda chysylltiad WIFI.
- Dim ond rhaglenni meddalwedd a gymeradwywyd yn Gorfforaethol fydd yn cael eu gosod ar y Gliniadur.

**Opsiwn 2 – Cyfrifiadur Apple iPad ac Argraffydd**

Bydd y Cyngor yn darparu

- iPad newydd gyda chysylltiad Wi-Fi a chysylltiad data 3G (yn dibynnu ar signal darparwr ffonau symudol).
- Clawr troi, dau Brif Gyflenwad Pŵer a chês gwarcheidiol
- Dewis opsiynol Bysellfwrdd Allanol neu Fysellfwrdd wedi'i Integreiddio â Chês.
- Bydd iPad yn cael ei rag-lwytho â rhaglenni meddalwedd ychwanegol
    - Keynote (Cyflwyniadau)
    - Notes (Prosesydd Geiriau)

    - Numbers (Taenlen)
    - Caniateir i aelodau brynu meddalwedd ychwanegol o'r Apple AppStore (trwy eu cyfrif personol eu hunain).
- Argraffydd Amlddefnydd (Argraffydd, Sganiwr, Copïwr a Ffacs) gyda chysylltiad WIFI.
- Mynediad at Systemau Dogfennau Corfforaethol (Agendâu, Cofnodion ac Adroddiadau)

**Opsiwn 3 – DIM Gwasanaethau TGCh**

Mae'r Aelod yn dymuno cael DIM offer a gwasanaeth TGCh.

Noder – Ni fydd aelodau nad ydynt yn cael y gwasanaeth TGCh yn gallu cael E-byst a Dogfennau'r Cyngor trwy eu gwasanaeth e-bost personol eu hunain. Gall aelodau nad ydynt yn cael y gwasanaeth TGCh ar hyn o bryd gael mynediad at gyfarfodydd o bell dros y ffôn, ond ni allant weld dogfennau a rennir ar y sgrin. Nodir hefyd bod Adran 43, Pennod 4 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn mynnu bod yn rhaid i brif gyngor gyhoeddi cyfeiriad electronig pob aelod o'r cyngor o fis Mai 2022 ymlaen.

Yn ogystal, yng nghyfarfod y Cyngor Sir ar 25/10/2012, penderfynwyd y dylid rhoi opsiwn i aelodau brynu eitem ychwanegol o offer (h.y. Cymryd Opsiwn 1 ac Opsiwn 2) ar yr amod bod yr ail ddarn o offer yn cael ei dalu gan yr Aelod sy'n gwneud cais.

**Ateb arfaethedig o ran TGCh ar gyfer 2022**

Mae'r cyngor yn cynnig rhoi'r un ddarpariaeth i gynghorwyr â staff y cyngor i leihau costau cymorth gydag offer ansafonol ac oherwydd profwyd bod hyn yn cwrdd â gofynion modern o ran swyddfa a gweithio gartref. Cynigir y dylid disodli'r ateb ar hyn o bryd gyda'r opsiwn sengl isod.

1. Gliniadur Windows gyda'r un manylion ag ar gyfer staff y cyngor.
2. Ffurfweddiad meddalwedd yn benodol ar gyfer cynghorwyr heb fynediad uniongyrchol at systemau corfforaethol mewnol heblaw systemau cynghorydd neu ddemocrataidd sydd eu hangen ar gyfer eu rôl.
3. Sgrin 24" gyda gallu docio mewnol neu orsaf ddocio ar wahân. Gan ganiatáu i'r gliniadur gael ei gysylltu ag un cebl.
4. Bysellfwrdd, llygoden a chlustffon
5. Mae angen dewis personol ar gyfer cesys cario i ddiwallu anghenion a dewisiadau'r defnyddiwr. Dylai aelodau ddod o hyd i'w rhai eu hunain i ddiwallu eu hanghenion personol. Fodd bynnag, darperir cês syml ar gyfer gliniadur ar gais.
6. Cyfeiriad e-bost Ceredigion a chyfrif Office E3 365.
7. Defnydd o gymwysiadau Microsoft 365 Office yn unol â chytundeb trwyddedu Microsoft. Gan gynnwys y gallu i osod cymhwysiad Office ar hyd at 5 dyfais bersonol.
8. Darparu cyfleuster argraffu a sganio ym mhob un o Ystafelloedd yr Aelodau.
9. Mynediad i Wi-Fi yn holl swyddfeydd y cyngor.

10. Mynediad i e-bost a ffeiliau Office o ddyfeisiau personol a ffonau symudol
11. Hyfforddiant a briffio priodol ar ddiogelu data a defnydd unrhyw ddyfeisiau a roddir.
12. Cymorth TGCh gan ddesgiau gwasanaeth TGCh corfforaethol a chymorth o bell dros y ffôn a chysylltu-o-bell yn ystod oriau desg gwasanaeth.
13. Dim ond meddalwedd y cytunwyd arni i'w gosod fel gyda staff y cyngor
14. Ni ddarperir argraffwyr wrth i ni geisio cefnogi arferion gweithio electronig ac arferion ecogyfeillgar.
15. Cytuno â pholisi defnydd derbyniol y cyngor a pholisi diogelwch data Cynghorwyr

**Adnewyddu ystyriaethau ar gyfer Aelodau parhaus**

Gofynnir i bob aelod ddychwelyd yr offer presennol a rhoddir offer newydd iddynt.

**Aelodau nad ydynt yn dychwelyd**

Lle nad yw'r Aelodau'n dychwelyd. Bydd angen gollwng unrhyw offer a roddwyd ond sy'n cael ei ddychwelyd wrth ddesgiau gwasanaeth Penmorfa neu Ganolfan Rheidol. Bydd yr offer hwn naill ai'n cael ei adnewyddu a'i ail-roi neu ei waredu yn unol â'n trefniadau adnewyddu corfforaethol arferol.

Bydd dychwelyd unrhyw ffeiliau neu ddogfennau personol o ddyfeisiau personol y gellir eu cadw yn gofyn am gwblhau'r Cytundeb Amgryptio Data Personol / Cyfrinachol (gweler yr atodiad ychwanegol).

**Argymhellion:**

Gan mai adroddiad ymgynghorol yw hwn, gofynnir am gadarnhad bod yr ateb a'r telerau a awgrymir yn adlewyrchu anghenion yr Aelodau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

**Arwyn Morris**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyswllt Cwsmeriaid**

**27ain Medi 2021**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 10

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **15 Hydref 2021** |
| **Teitl:** | **Canllaw Cyngor Sir Ceredigion i Ymgeiswyr** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cael barn y Pwyllgor ar y Canllaw i Ymgeiswyr gogyfer ag etholiadau mis Mai 2022.** |

**Cefndir**
Gyda golwg ar etholiadau Cyngor Sir Ceredigion ym mis Mai 2022, mae'r Gwasanaethau Democrataidd wedi datblygu canllaw ar gyfer darpar ymgeiswyr er mwyn rhoi gwybodaeth iddynt am y rôl a'r broses enwebiadau.

Bydd y canllaw ar gael yn electronig a bydd copïau caled ar gael yn llyfrgelloedd y Cyngor o fis Tachwedd eleni ymlaen. Hefyd bydd gwybodaeth ynglŷn â'r Canllaw i Ymgeiswyr yn cael ei hyrwyddo drwy dudalennau'r Cyngor ar y cyfryngau cymdeithasol.

Caiff y ddogfen ei diweddaru'n electronig pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael am ganlyniad yr ymgynghoriad ar Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) drafft 2021.

| | |
|---|---|
| **Argymhellion:** | Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r ddogfen ganllaw. |
| **Atodiadau:** | A: Dogfen Ganllaw ar gyfer Ymgeiswyr etholiadau'r Cyngor Sir |
| **Dogfennau cefndirol:** | Dim |

| | |
|---|---|
| **Enw:** | **Nia Jones** |
| **Teitl swydd:** | **Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **27.09.2021** |

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Pecyn Darpar Gynghorwyr

Ydych chi'n angerddol ynghylch eich cymuned leol?
Oes yna rywbeth rydych chi am ei newid?
Allwch chi wneud penderfyniadau heriol?

**Beth am sefyll dros yr hyn sy'n bwysig i chi a dod yn gynghorydd lleol**

DRAFT

# Gwybodaeth am Gyngor Sir Ceredigion

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn un o'r 22 awdurdod lleol unedol yng Nghymru.  Rydym yn gyfrifol am ystod eang o wasanaethau gan gynnwys Ysgolion, Llyfrgelloedd, Gofal Cymdeithasol, Hybu'r Economi, Cynllunio a Datblygu, Iechyd Amgylcheddol, Diolgeu'r Cyhoedd, Cynllunio at Argyfwng, Twristiaeth, Gwasanaethau Hamdden a Diwylliannol, Llwybrau Cyhoeddus, Priffyrdd, Casglu Gwastraff, Budd-dâl Tai a Chynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor.

Lleolir ein prif swyddfeydd yn Aberaeron ac Aberystwyth a cheir canolfannau gwasanaethau cwsmeriaid hefyd yn Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan.

Mae'r Cyngor wedi'i rannu yn 34 ward etholiadol, a gaiff eu cynrychioli gan 38 o Gynghorwyr a etholir bob 5 mlynedd. Mae 4 o'r wardiau hyn yn cael eu cynrychioli gan 2 Gynghorydd.

DRAFT



# Beth alla i ei wneud fel Cynghorydd?

## Dyma sylwadau rhai o'n cynghorywr presennol ni

*"mae'r economi wledig yn bwysig i fi, felly dwi bob amser yn gwneud yn siwr fod llais y busnesau bychan yn cael ei glywed"*

*"dwi am weld ein iaith a'n diwylliant yn cael lle blaenllaw ac yn ffynnu yn ein cymunedau"*

"mae'r amgylchedd yn flaenoriaeth i fi, ac mae Ceredigion yn arwain y ffordd ar y materion hyn"

*"mae bod yn Gynghorydd wedi galluogi fi i helpu unigolion yn f'ardal i"*

"……………………………………"

*"mae Ceredigion yn ardal amaethyddol, ac mae'n bwysig fod ni'n cefnogi ei amaethwyr ni"*

*"ein pobl ifanc yw ein dyfodol ni, felly mae'n bwysig sicrhau Addysg a chyfleoedd o'r radd flaenaf"*

"……………………………………"

# Beth yw rôl Cynghorydd?

Mae Cynghorwyr yn cynrychioli'r trigolion sy'n byw yn eu ward, trwy wrando a chynnal sgyrsiau a hwy er mwyn gallu adnabod anghenion y gymuned wrth wneud penderfyniadau ar sut mae gwasanaethau lleol yn cael eu darparu, eu hariannu a'u blenoriaethu, gan ddewis rhwng y gwahanol alwadau sydd ar wasanaethau a dyrannu adnoddau.

Mae'n bwysig eich bod chi yn gallu siarad ar ran pawb yn eich cymuned ac mae angen amrediad o wahanol bobl a sgiliau i gynrychioli gwahanol gymunedau gan gynnwys menywod, pobl ifanc, pobl anabl, grwpiau lleiafrifol a LGBTQ+.

Mae na ofyniad i chi eistedd ar Bwyllgorau'r Cyngor. Gall eich cyfrifoldebau amrywio yn ogystal yn sgîl y pwyllgorau y byddwch wedi eich dewis i fod yn aelod ohonynt.



DRAFFT

# Pwyllgorau Cyngor Sir Ceredigion

**O ran trefniadaeth llywodraethu, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull "Cabinet", sy'n cynnwys Arweinydd y Cyngor ac aelod portfolio.**

**Efallai y cewch eich dethol i fod yn Aelod o un o'r Pwyllgorau canlynol:**

- **5 Pwyllgor Trosolwg a Chraffu sef:**
  - **Cydlynu**
  - **Adnoddau Corfforaethol**
  - **Cymunedau Ffyniannus**
  - **Cymunedau Iachach**
  - **Cymunedau sy'n Dysgu**
- **Pwyllgor Rheoli Datblygu**
- **Pwyllgor Trwyddedu (statudol ac anstatudol)**
- **Pwyllgor Safonau a Moeseg**
- **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**
- **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
- **Pwyllgor Iaith**
- **Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau**

**Mae pob cyfarfod yn agored i'r cyhoedd heblaw bod trafodaeth ar faterion cyfrinachol.**



DRAFT

# Sut i gael eich hethol?

- Ydych chi eisiau cynrychioli eich cymuned leol a helpu pobl leol?
- Ydych chi'n pryderu am ddyfodol gwasanaethau lleol ac yn teimlo y gallwch fod yn lais i'ch cymuned?

Os felly, efallai y dylech ystyried sefyll ar gyfer etholiad fel Cynghorydd lleol.

Mae Cynghorwyr yn cael eu hethol gan drigolion sy'n byw yn eu ward i'w cynrychioli.

**Mae'r etholiad lleol nesaf ar 5 Mai 2022**


Mae hwn yn gyfle eithriadol i gyfrannu at waith Cyngor blaengar sydd â lle unigryw yn niwylliant a daearyddiaeth Cymru.

DR



# Wardiau Cyngor Sir

# Ceredigion



1. Aberaeron and Aberarth
2. Aberporth and Y Ferwig
3. Aberystwyth Morfa a Glais
4. Aberystwyth Penparcau
5. Aberystwyth Rheidol
6. Beulah and Llangoedmor
7. Borth
8. Ceulanamaesmawr
9. Ciliau Aeron
10. Faenor
11. Lampeter
12. Llanarth
13. Llanbadarn Fawr
14. Llandyfriog
15. Llandysiliogogo and Llangrannog
16. Llandysul North and Troedyraur
17. Llandysul South
18. Llanfarian
19. Llanfihangel Ystrad
20. Llangeitho
21. Llangybi
22. Llanrhystyd
23. Llansantffraed
24. Llanwenog
25. Lledrod
26. Melindwr
27. Mwldan
28. New Quay and Llanllwchaiarn
29. Penbryn
30. Teifi
31. Tirymynach
32. Trefeurig
33. Tregaron and Ystrad Fflur
34. Ystwyth

# A oes angen cymwysterau neu sgiliau arbennig i fod yn Gynghorydd?

Gall Cynghorydd fod o unrhyw gefndir neu allu.  Yr hyn sydd yn bwysig yw eich bod yn gallu cynrychioli eich cymuned, gan feddu ar sgiliau pobl da a pharodrwydd i wrando ar yr hyn maent eu hangen.

Mae'n rhaid i'r Cynghorywr gytuno i ddilyn Cod Ymddygiad yr Aelodau er mwyn gallu sicrhau safonau uchel yn y modd y cyflawnant eu dyletswyddau.

Mae angen i gynghorwyr allu deall adroddiadau er mwyn gwneud penderfyniadau, a bydd disgwyl i'r rhan fwyaf o'r gwaith gael ei wneud trwy gyfrifiadur.  Caiff offer ei ddarparu, ac fe fydd y Cyngor yn gwneud trefniadau priodol o ran hygyrchedd a chefnogaeth ymarferol ar gyfer unrhyw Gymghorydd sydd ei angen oherwydd anableddau.

DR



# Beth yw’r ymrwymiad o ran oriau?

Mae cynghorwyr yn treulio’r hyn sydd yn cyfateb a 3 diwrnod yr wythnos ar fusnes y Cyngor.  Fodd bynnag, nid yw holl ymrwymiadau’r Cyngor yn ystod y diwrnod gwaith, yn enwedig eich dyletswyddau Ward. Gellir mynychu cyfarfodydd y Cyngor o bell, a gellir rhannu swydd yng Ngweithrediaeth Cabinet y cyngor, gan gynnwys swydd yr Arweinydd.

Os ydych yn gweithio i gyflogwr arall, gwiriwch eu telerau ar gyfer cael amser i ffwrdd i fynychu cyfarfodydd y Cyngor.

DRAF




# Ymgeisydd annibynnol neu ymgeisydd grŵp / plaid?

Gallwch sefyll i'ch ethol yn ymgeisydd annibynnol neu'n ymgeisydd grŵp/plaid wleidyddol.

Os ydych chi'n aelod o blaid neu'n bwriadu ymuno neu sefyll fel aelod o blaid wleidyddol, mae'n bosib y bydd asiant etholiadol yn gweithio ar eich rhan.

Os oes eisiau mwy o wybodaeth arnoch am rôl cynghorydd annibynnol, mae gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol grŵp (Saesneg yn unig) ar gyfer cynghorwyr annibynnol.

Mae rhestr lawn o bleidiau gwleidyddol cofrestredig ar gael gan y Comisiwn Etholiad.



DRAFFT

# Pa gefnogaeth fyddwch chi yn ei gael?

Pan fydd cynghorwyr yn cael eu hethol am y tro cyntaf, fe fydd Swyddogion y cyngor yn trefnu hyfforddiant, a rhaglen ymsefydlu er mwyn i chi gael dod i nabod pawb, i ddeall eich rôl, gweithdrefnau'r cyngor, cyfreithiau, polisïau ac elfenau ymarferol, er enghraifft cadeirio cyfarfodydd, defnyddio rhaglenni ar gyfer cyfarfodydd rhithiol ac ati.


Caiff hyfforddiant parhaus ei ddarparu yn ôl eich anghenion.

Mae pob Cynghorydd yn derbyn cyflog sylfaenol, gyda thaliadau ychwanegol i Gynghorwyr sy'n ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol fel bod yn Gadeirydd Pwyllgor, Arweinydd Grŵp Gwleidyddol ac yn y blaen.  Bydd gennych hawl i gynllun pensiwn, lwfans absenoldeb teuluol a chefnogaeth tuag at gostau gofalu.

DRAFT



# Ein Tîm Arweiniol



# Sut ydych chi'n mynd ati i sefyll fel ymgeisydd?

Bydd angen i chi neu eich asiant (os oes gennych chi un) gwblhau ffurflen enwebu sydd ar gael ar dudalen 'Etholiadau a Chofrestru Etholiadaol' gwefan Cyngor Sir Ceredigion. Bydd angen i chi gyflwyno'r ffurflen yn fuan ar ôl dyddiad cyhoeddi'r Rhybudd Etholiad, gyda'ch enw llawn a'ch cyfeiriad cartref.

Mae'n rhaid i'r ffurflen enwebu fod wedi'i llofnodi gan 10 etholwr cofrestredig o'r ward rydych chi'n sefyll fel ymgeisydd ynddi. Y ddau gyntaf i lofnodi fydd y cynigydd a'r eilydd, a bydd yr wyth etholwr cofrestredig arall yn dystion. Dylid nodi y bydd enwau'r deg tanysgifydd yn cael eu cyhoeddi.

**Mae'r cyfnod enwebu yn cychwyn ar 21 Mawrth 2022, ac fe fydd yn cau am 4 o'r gloch y pnawn ar y 5 Ebrill 2022.**

Bydd rhaid i chi wneud apwyntiad trwy gysylltu â: swyddogcanlyniadau@ceredigion.gov.uk, neu gellir ffonio'r prif dderbynfa ar 01545 570881, a gofyn i'r gwasanaeth gysylltu gyda chi.

DRAFFT



# Y Broses Enwebu

Os ydych chi wedi cael eich dewis gan blaid fel ymgeisydd neu os ydych chi'n sefyll fel ymgeisydd annibynnol, mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod yn cael eich 'enwebu' yn swyddogol a rhoi eich caniatâd yn ysgrifenedig i'ch enwebiad.

Os ydych chi'n ymgeisydd ar gyfer plaid wleidyddol gofrestredig, mae'n rhaid i chi hefyd gyflwyno tystysgrif gan swyddog enwebu'r blaid, yn eich awdurdodi chi a'ch defnydd chi o ddisgrifiad ac arwyddlun y blaid. Os ydych chi'n sefyll yn annibynnol, allwch chi eich disgrifio eich hun fel 'annibynnol' (neu fersiwn ddwyieithiog) neu beidio rhoi disgrifiad o gwbl.

Gall ymgeiswyr sy'n sefyll dros bleidiau gwleidyddol fod ag 'asiant' etholiad. Dyma'r unigolyn sy'n gyfreithiol gyfrifol am redeg eich ymgyrch a thrafod gyda'r cyngor. Gall ymgeiswyr annibynnol fod yn asiant iddyn nhw eu hunain. Os nad yw ymgeisydd yn penodi asiant, bydd yr ymgeisydd felly yn dod yn asiant ei hun.

Ceir manylion pellach ar gwefan y Comisiwn Etholiadol.

DRAFFT



# Manylion Cyswllt:

Cyngor Sir Ceredigion
Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA

Ffon: 01545 570881

Gwybodaeth bellach: http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/

DRAFFT

DRAFFT

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **15 Hydref 2021** |
| **Teitl:** | **Rhaglen Sefydlu Aelodau 2022** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **I'r Pwyllgor ystyried a chytuno ar raglen i'r Aelodau yn dilyn Etholiadau'r Cyngor Sir ym mis Mai 2022.** |

**Cyflwyniad**

Cynhelir Etholiadau'r Cyngor Sir ar y 5$^{ed}$ o Fai 2022 ac mae'n bosib y bydd nifer o Gynghorwyr newydd. At hynny, mae'n bwysig bod rhaglen gadarn a phriodol ar waith o ran Sefydlu Aelodau i sicrhau bod y Cynghorwyr yn deall strwythur y Cyngor, ei drefniadau llywodraethu, a'u rolau a'u cyfrifoldebau nhw, ac ati.

Mae Rhaglen Sefydlu ddrafft yr Aelodau yn amlinellu'r meysydd a fydd yn cael eu cynnwys – gweler Atodiad A (gall y dyddiadau a'r amserau newid).

Cynhelir rhagor o hyfforddiant yn ddiweddarach yn y flwyddyn a bydd hwn yn cynnwys y canlynol:

| | |
|---|---|
| • Gofyn a Gweithredu (Trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig), ac Atal<br>• Rheoli Data a Rhyddid Gwybodaeth<br>• Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) | • Cyllid gan gynnwys cyllidebu a rheoli trysorlys<br>• Cyflwyniad i faes Cydraddoldeb<br>• Cyflwyniad i Safonau'r Gymraeg<br>• Y Cyfryngau Cymdeithasol |

Bydd y rhaglen Sefydlu a Hyfforddi yn cael ei theilwra ar gyfer pob Aelod unigol, gan ddibynnu ar eu rolau a'u cyfrifoldebau h.y. pa Bwyllgorau maen nhw'n aelodau ohonynt ac a ydynt yn Gadeirydd / Is-gadeirydd.

Bydd llawer o'r sesiynau hyfforddiant yn orfodol i bob Cynghorydd neu i rai ohonynt (yn gynghorwyr newydd a chynghorwyr phresennol).

**Casgliad**

Dylai'r rhaglen a ddisgrifir yn Atodiad A gynnig cyfle i'r Aelodau ddeall yn drylwyr eu rolau nhw a swyddogaethau'r Cyngor a hynny o fewn yr wythnosau cyntaf ar ôl eu hethol.

Darperir cymorth parhaus i bob Cynghorydd gan y Gwasanaethau Democrataidd, y Swyddog Monitro a'r holl Wasanaethau.

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad:** | **Cytuno ar Raglen Sefydlu i'r Aelodau yn dilyn Etholiadau'r Cyngor Sir ym mis Mai 2022.** |
| **Atodiadau:** | **Atodiad A – Rhaglen Sefydlu ddrafft yr Aelodau 2022.** |
| **Dogfennau cefndirol:** | Mesur Llywodraeth Leol 1972<br>Mesur Llywodraeth Leol 2011<br>Deddf Democratiaeth Leol 2013<br>Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion |

**Nia Jones**
**Rheolwr Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd**

**27 Medi 2021**

# Rhaglen Sefydlu a Hyfforddi Aelodau 2022

**Cynhelir yr hyfforddiant i gyd yn Siambr y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron neu o bell drwy fideo-gynadledda <u>os na nodir yn wahanol isod</u>**

| Dyddiad | Amser | Manylion | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 10 Mai | 10.00am | Cyflwyniad i'r Cyngor gan gynnwys Hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad | Gorfodol ar gyfer **<u>pob</u>** Cynghorydd |
| 23 Mai | 10.00am | Rôl a swyddogaeth aelodau Cabinet | Gorfodol ar gyfer **<u>pob</u>** Aelod o’r Cabinet |
| 1 Mehefin | 9.30am | Hyfforddiant ar y Pwyllgor Rheoli Datblygu | Gorfodol ar gyfer **<u>pob</u>** aelod o’r **<u>Pwyllgor Rheoli Datblygu*</u>** |
| 1 Mehefin | 2.00pm | Maes Cynllunio ar gyfer Cynghorwyr sydd ddim ar y Pwyllgor Rheoli Datblygu | Gorfodol ar gyfer **<u>pob</u>** Cynghorydd (ar wahân i’r rhai sydd ar y Pwyllgor Rheoli Datblygu) |
| 8 Mehefin | 10.00am | Rôl Trosolwg a Chraffu | Gorfodol ar gyfer **<u>pob</u>** aelod o’r **<u>Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu</u>** |
| 22 Mehefin | 2.00pm | Hyfforddiant ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | Gorfodol ar gyfer **<u>pob</u>** aelod o’r **<u>Pwyllgor Archwilio*</u>** |
| 23 Mehefin | 9.30am | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gwneud penderfyniadau effeithiol | Gorfodol ar gyfer **<u>pob</u>** Cynghorydd |
| 4 Gorffennaf | 10.00am | Hyfforddiant ar y Pwyllgor Trwyddedu | Gorfodol ar gyfer **<u>pob</u>** aelod o’r **<u>Pwyllgor Trwyddedu*</u>** |
| 6 Gorffennaf | 9.30am a 2.00pm | Diogelu – Hyfforddiant Lefel 1 | Gorfodol ar gyfer **<u>pob</u>** Cynghorydd |
| 21 Gorffennaf | 9.30am | Cadeirio Trosolwg a Chraffu | Gorfodol ar gyfer **<u>holl Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu</u>** |
| | 2.00pm | Rôl y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | |

Bydd dyddiadau pellach yn cael eu cadarnhau maes o law a rhoddir gwybod i chi amdanynt.

*Sylwer – ni chaniateir i chi eistedd ar y Pwyllgorau hyn os nad ydych wedi mynychu'r hyfforddiant gorfodol.

# Modiwlau e-Ddysgu

Bydd gan bob Cynghorydd fynediad hefyd i'r modiwlau e-ddysgu ar Borth Academi Cymru Gyfan.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fyddwch wedi’ch cofrestru ac yn gallu cael mynediad i'r modiwlau e-ddysgu.

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad:** | **15 Hydref 2021** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, 2020/21.** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cyflwyno er ystyriaeth Adroddiad Blynyddol drafft Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd cyn ei gyflwyno i'r Cyngor.** |

**Cyflwyniad**

Bydd yn ofynnol yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i bob Cyngor Sir sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae'r Mesur yn nodi swyddogaethau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gan hefyd nodi y bydd yn ofynnol i'r Pwyllgor lunio adroddiad o leiaf unwaith y flwyddyn i'r Cyngor.

Defnyddir Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Democrataidd er mwyn:
a) Amlygu'r gwaith a wneir gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd;
b) dangos sut y mae Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd wedi gwneud gwahaniaeth;
c) Cefnogi gwelliant parhaus ar gyfer Cynghorwyr.

Cyflwynir yr Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor gan Gadeirydd y Pwyllgor ac fe'i gyhoeddir yn dilyn hynny ar wefan y Cyngor er mwyn cyflawni gofynion y Mesur.

| | |
|---|---|
| **Argymhellion:** | **Bydd y Pwyllgor yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Pwyllgor drafft y Gwasanaethau Democrataidd i'w gyflwyno i'r Cyngor ar 21 Hydref 2021.** |
| **Atodiadau:** | **Atodiad A – Adroddiad Blynyddol Drafft Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, 2020/21.** |
| **Dogfennau Cefndir:** | **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;**<br>**Papurau a chofnodion cyfarfodydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.** |

**Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**27 Medi 2021.**

# Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Adroddiad Blynyddol

2020/21

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Rhagair gan Gadeirydd y Pwyllgor | 3 |
| Cylch Gorchwyl y Pwyllgor | 4 |
| Aelodau'r Pwyllgor 20/21 | 6 |
| Gweithgareddau'r Pwyllgor | 7 |
| Y flwyddyn nesaf | 11 |
| Dod i'r Pwyllgor / Cysylltu â ni | 12 |

# Rhagair gan Gadeirydd y Pwyllgor

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cyngor Sir a Chyngor Bwrdeistref Sirol sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, a bu'n fraint imi ddychwelyd i rôl Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn dilyn yr Etholiadau Lleol yn 2017.

Mae gwaith y Pwyllgor wedi canolbwyntio ar sicrhau bod anghenion a gofynion yr Aelodau yn cael eu diwallu, a bod y trefniadau priodol ar waith i gefnogi Aelodau wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau. Yn ystod y flwyddyn, bûm yn adolygu datblygiadau mewn perthynas â 'Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)' gan gynnwys dyletswydd i annog cyfranogiad mewn gwneud penderfyniadau, dyletswydd i wneud cynllun deiseb, dyletswydd i gyhoeddi cyfeiriadau swyddogol, darlledu cyfarfodydd yn electronig, galluogi rhannu swyddi ar gyfer swyddi Arweinydd ac Aelodau Cabinet yn ogystal â swyddi anweithredol, absenoldeb teuluol i Aelodau, safonau ymddygiad, a sicrhau bod gwybodaeth ar gael i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Bydd llawer o'r newidiadau hyn yn dod i rym o fis Mai 2022, ond oherwydd y pandemig, mae sawl un eisoes wedi'u rhoi ar waith. Cytunwyd i adolygu'r rhain ar ôl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi dogfennau canllaw y rhagwelir ar ôl mis Tachwedd 2021. Hefyd adolygwyd maint Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, diwygiadau'r i'r gweithdrefnau 'Cynigion ar Rybudd', 'Galw i Mewn'. A gweithdrefnau pleidleisio.

Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn heriol iawn, oherwydd pandemig Cocid-19, gyda Aelodau a Swyddogion yn gweithio o adre. Mae'r Aelodau wedi addasu'n dda iawn i'r trefniadau newydd, diolch i'r holl gefnogaeth a hyfforddiant a ddarparwyd gan Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd. Hoffwn estyn fy niolch a'm gwerthfawrogiad i aelodau'r Pwyllgor am eu hamser, eu hymroddiad a'u cefnogaeth ac i'r swyddogion sydd wedi cefnogi gwaith y Pwyllgor a'r Aelodau a hoffwn ddiolch iddynt oll am eu parodrwydd i wneud hynny, ac am eu hymrwymiad a'u cefnogaeth barhaus.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried nifer o faterion yn ystod gweddill 2020/21, gan gynnwys parhau i sicrhau bod sylw yn cael ei roi i anghenion a gofynion yr Aelodau o safbwynt cyfleusterau newydd yn Siambr y Cyngor ac ar ddatrysiadau TGCh i'r Aelodau.

Y Cynghorydd Ceredig Davies
Cadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Ceredigion
2020/21

# Cylch Gorchwyl y Pwyllgor

## Cylch Gorchwyl Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y Mesur) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol benodi Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Yn ystod y cyfarfod cyntaf ym mis Gorffennaf 2012, cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl fel a ganlyn:

Swyddogaethau Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yw:

- Cyflawni swyddogaeth yr awdurdod lleol o ran dynodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd
- Cadw golwg ar y ddarpariaeth o ran staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, er mwyn sicrhau ei bod yn ddigonol ar gyfer dyletswyddau'r swydd.
- Paratoi adroddiadau i'r cyngor llawn am y materion hyn, o leiaf unwaith y flwyddyn.
- Ystyried amser y cyfarfodydd, a gwneud argymhellion i'r Cyngor
- Goruchwylio hyfforddiant a datblygiad yr Aelodau.

***Aelodaeth***
Bydd y Pwyllgor yn cynnwys chwe Aelod a benodir gan y Cyngor.

***Cadeirydd***
Caiff y Cadeirydd ei benodi gan y Cyngor a bydd yn gwasanaethu am gyfnod o ddwy flynedd fwrdeistrefol yn olynol (yn unol ag Erthygl 5.2, Rhan 2 y Cyfansoddiad).

***Cyfethol***
Nid yw'r Mesur yn rhoi pwerau i'r Pwyllgor gyfethol unigolion i'r Pwyllgor.

***Is-bwyllgorau***
Caiff y Pwyllgor benodi is-bwyllgorau yn ôl y gofyn a dirprwyo swyddogaethau iddynt.

Y Pwyllgor fydd yn penodi Cadeirydd unrhyw is-bwyllgor.

***Dod i gyfarfodydd y Pwyllgor i ateb cwestiynau***
Mae gan y Pwyllgor (ac unrhyw is-bwyllgor) bŵer i fynnu bod unrhyw rai o Aelodau neu Swyddogion y Cyngor yn dod i'w gyfarfodydd i ateb cwestiynau, a gall wahodd unrhyw un arall y mae'n dymuno ei wahodd hefyd. Os bydd gofyn i'r Aelodau neu'r swyddogion ddod i gyfarfod, rhaid iddynt ateb unrhyw gwestiwn, oni bai ei fod yn gwestiwn y byddai ganddynt hawl i wrthod ei hateb mewn llys barn.

***Mynediad at wybodaeth***
Mae Rheolau Mynediad at Wybodaeth y Cyngor yn berthnasol i drafodion y Pwyllgor, fel y'u nodir yn Nogfen B Rhan 4 y Cyfansoddiad.

***Pa mor aml fydd y pwyllgor yn cyfarfod?***
Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf dair gwaith yn ystod unrhyw flwyddyn fwrdeistrefol.

Gellir cynnull cyfarfod o'r Pwyllgor hefyd os bydd y Cyngor llawn yn penderfynu y dylid gwneud hynny, neu os bydd o leiaf draean o aelodau'r Pwyllgor yn galw am gyfarfod.

Cyfrifoldeb y Cadeirydd yw sicrhau bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal pan fydd angen.

***Canllawiau Llywodraeth Cymru***
Rhaid i'r Pwyllgor roi sylw i ganllawiau Gweinidogion Cymru pan fydd yn cyflawni ei swyddogaethau.

***Adroddiadau Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd***
Rhaid i'r Pwyllgor ystyried unrhyw adroddiad a gyflwynir i'r Pwyllgor gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd cyn pen tri mis. Yn yr un modd, rhaid i'r Cyngor llawn ystyried unrhyw adroddiad a wneir gan y Pwyllgor cyn pen tri mis.

# Aelodaeth y Pwyllgor

## Aelodau Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd 2020/21

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys 6 o aelodau ac mae'n wleidyddol gytbwys. Yn 2020/21, cafodd y Pwyllgor ei gadeirio gan y Cynghorydd Ceredig Davies. Mae'r Aelodau wedi gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu gwaith Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

| Cynghorydd | Posibl | Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Ceredig Davies (Cadeirydd)<br>Democratiaid Rhyddfrydol | 1 | 1 |
| Y Cynghorydd Clive Davies<br>Plaid Cymru | 1 | 1 |
| Y Cynghorydd Lloyd Edwards<br>Democratiaid Rhyddfrydol | 1 | 1 |
| Y Cynghorydd Gwyn James<br>Annibynnol | 1 | 1 |
| Y Cynghorydd Dai Mason<br>Llais Annibynnol | 1 | 1 |
| Y Cynghorydd Wyn Thomas<br>Plaid Cymru | 1 | 1 |

Oherwydd y pandemig COVID-19 ym mis Mawrth 2020, ni fu'n bosibl cynnal y cyfarfod ym mis Mai 2020, fel a drefnwyd.

# Gweithgareddau'r Pwyllgor 2020/21

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd wedi ymgymryd ag amrywiaeth eang o weithgareddau. Mae'r rhestr isod yn tynnu sylw at y materion a drafodwyd a'r safbwyntiau a fynegwyd gan y Pwyllgor:

**Cyfarfodydd o bell**

Nodwyd bod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor wedi'i gynnal cyn y cloi lawr ym mis Mawrth. Yn dilyn adolygiad helaeth o'r amrywiol systemau a mecanweithiau ar gyfer cynnal cyfarfodydd o bell, penderfynwyd mai 'zoom' fyddai'r mecanwaith mwyaf priodol gan ei fod yn darparu ar gyfer cyfieithu ar y pryd. Bryd hynny, roedd Microsoft yn datblygu platfform ar gyfer cyfieithu trwy 'Teams', ond nid yw'r cyfleuster hwn wedi'i lansio eto.

Cynigwyd hyfforddiant un i un i bob Aelod, ac ers i gyfarfodydd ailddechrau dros yr haf, mae pob Cynghorydd wedi gallu mynychu trwy 'zoom' gydag un Cynghorydd yn ymuno â'r cyfarfod dros y ffôn.

Cytunwyd a chyhoeddwyd nodiadau canllaw ac ymarfer da ar gyfer mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd o bell , a'u cyhoeddi ar y wefan.

**Hunanwerthusiad o'r Arolwg Trosolwg a Chraffu**

Ystyriwyd canfyddiadau Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ynghylch Trosolwg a Chraffu yng Ngheredigion, a oedd wedi ystyried effeithiolrwydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Nodwyd bod pump-ar-

ugain o ymatebwyr, sef cynnydd o bump o'r flwyddyn flaenorol; roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod yr ymateb i'r arolwg, ar y cyfan, yn galonogol. Nodwyd, ar argymhelliad y pwyllgor hwn, bod nifer y cwestiynau wedi'u lleihau i 9 gyda'r nod o gynyddu cyfranogiad, a oedd wedi bod yn llwyddiannus.

Nododd y Pwyllgor fod y mwyafrif wedi gofyn i'r patrwm barhau bob tro y cynhelir yr adolygiad o amseriad y cyfarfodydd. Nodwyd bod mynychu cyfarfodydd o bell yn llai heriol ar amser rhai sy'n gweithio yn ystod y dydd ac y byddai heriau ychwanegol i gynnal cyfarfodydd o bell y tu allan i oriau swyddfa.

Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r hunanwerthuso ddigwydd bob blwyddyn ac y dylid lleihau nifer y cwestiynau gyda'r nod o gael mwy i gymryd rhan ac i adolygu fformat yr adroddiad a gyflwynir i'r Pwyllgor.

**System gweddarlleu ar gyfer Siambr y Cyngor**

Nodwyd bod y Pwyllgor, yn ystod cyfarfodydd blaenorol, wedi penderfynu gohirio prynu system gwe ddarlledu ar gyfer Siambr y Cyngor nes bod gwybodaeth bellach ar gael, a monitro ac adolygu datblygiadau mewn perthynas â'r 'Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)'. Ym mis Rhagfyr 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru becyn i gefnogi gweithrediad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) gyda £500,000 o hwnnw wedi'i ddyrannu i gefnogi trawsnewid democratiaeth yng ddigidol i danategu llawer o'r ddarpariaeth a gynhwysir yn y Ddeddf. Cyflwynodd Cyngor Sir Ceredigion gais, a chawsom ein hysbysu ar 31 Mawrth 2021, ein bod wedi llwyddo gael cyllid er mwyn uwchraddio'r offer yn Siambr y Cyngor a fyddai'n ein galluogi i gynnal cyfarfodydd hybrid, lle mae Cynghorwyr ac Aelodau o'r cyhoedd yn gallu mynychu'r lleoliad neu o bell o Fai 2022 yn unol â gofyniad y Ddeddf.

Dilynwyd proses dendro a bydd y cynigydd llwyddiannus yn cychwyn ar y gwaith o fis Tachwedd eleni. Darparir hyfforddiant 'r holl Aelodau, yn ogystal ag arweiniad i aelodau'r cyhoedd sydd am fynychu.

## Rhoi'r System Rheoli Cyfarfodydd 'Modern.gov' ar waith.

Yn ystod y cyfnod clo, gweithredwyd system rheoli cyfarfodydd 'Modern.gov' yn ogystal, ac fe gynhaliwyd 3 gweithdy i ddarparu hyfforddiant i'r Aelodau.

## Hyfforddiant a Datblygiad Aelodau

Roedd y sesiynau hyfforddi/briffio a ganlyn ar gael i Aelodau yn ystod 2020/21:

- Gweithdai'r Pwyllgor Rheoli Datblygu 28.09.2020 / 09.11.2020 / 08.12.2020
- Cyfrifiad 16.12.2020
- Porth Ceredigion 16.12.2020
- Gweithdy'r Gyllideb 19.01.2021
- Gweithdy Trosolwg a Chraffu – Cymunedau sy'n Dysgu 01.02.2021
- CYSGA (Pwyllgor Iaith) 08.02.2021
- Twyll Seibr 30.04.2021
- Modern.gov 29.04.2021 / 30.04.2021 / 04.05.2021

# Y Flwyddyn Nesaf

Ymhlith y meysydd allweddol y bydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn eu hystyried yn ystod 2021/22 y mae'r canlynol:

- Ystyried canlyniadau hunanwerthusiad blynyddol yr arolwg Trosolwg a Chraffu;
- Adolygu cyfranogiad mewn perthynas ag Adroddiadau Blynyddol Aelodau;
- Monitro Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) o ran:
    - Canllawiau ymgeiswyr ar gyfer etholiad 2022
    - Swydd-ddisgrifiadau diwygiedig i Aelodau
    - Hyfforddiant ar gyfer Aelodau newydd a'r rhai sy'n dychwelyd yn dilyn etholiadau 2022
    - Darpariaeth TG ar gyfer Aelodau yn dilyn etholiadau 2022
    - E-ddeisebau
    - Cynnal cyfarfodydd hybrid
- Adolygu maint pob Pwyllgor mewn perthynas â lleihau nifer yr Aelodau o 2022, yn dilyn yr Etholiadau Lleol;
- Datblygu Cynllun Gweithredol yn dilyn cytuno'r Datganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth;
- Sicrhau cefnogaeth ddigonol ar gyfer Aelodau;
- Unrhyw faterion a gaiff eu codi gan Aelodau sy'n gofyn am ystyriaeth y Pwyllgor.

# Dod i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd / Cysylltu â ni

**Dod i gyfarfodydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

Mae'r Cyngor yn awyddus i weld aelodau o'r cyhoedd yn dod i gyfarfodydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a holl gyfarfodydd eraill y Cyngor, gan gynnwys y Cyngor llawn, cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, y Pwyllgor Rheoli Datblygu a'r Pwyllgor Trwyddedu.

Cynhelir holl fusnes y Cyngor yn gyhoeddus ac eithrio eitemau cyfrinachol. Cyhoeddir yr holl bapurau cyhoeddus ar-lein a chânt eu cyhoeddi 3 diwrnod gwaith o flaen llaw http://www.ceredigion.gov.uk/your-council/councillors-committees/committees/

**Cysylltu â ni**

Os ydych chi am gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â Phwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd neu os ydych chi am wneud sylw neu awgrym, cysylltwch â ni:

Y Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PA

01545 570881 democracy@ceredigion.gov.uk

**Dilyn y Cyngor ar Facebook a Twitter**

facebook www.facebook.com/CeredigionCC

twitter @CeredigionCC

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 13

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

**Dyddiad:** **15 Hydref 2021**

**Teitl:** **Adroddiad ynghylch yr ymgynghoriad ar Adroddiad Blynyddol Drafft 2022/23 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

**Pwrpas yr adroddiad:** **Rhoi amlinelliad i'r Pwyllgor ynghylch y prif gynigion a geir o fewn Adroddiad Blynyddol Drafft 2022/23 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, er mwyn i'r Pwyllgor wneud sylwadau amdano**

**Cyflwyniad**

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol Drafft ar gyfer 2022/23, sydd yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd hyd 26 Tachwedd 2021.

Mae'r Adroddiad Blynyddol drafft ar gael yn llawn yn Atodiad A; fodd bynnag, mae penderfyniadau'r Panel sy'n ymwneud ag Awdurdodau Lleol wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

| **Crynodeb o'r penderfyniadau newydd a diweddaraf yn yr adroddiad hwn** |
|---|
| **Prif Gynghorau** |
| ***Penderfyniad 1:*** Bydd y cyflog sylfaenol yn 2022/23 ar gyfer aelodau etholedig o brif gynghorau yn £16,800. |
| ***Penderfyniad 2:*** Bydd lefelau uwch-gyflogau yn 2022/23 ar gyfer aelodau o brif gynghorau fel y'u nodir yn Nhabl 4. |
| ***Penderfyniad 3:*** Rhaid talu cyflog Band 3 o £25,593 i bennaeth dinesig pan fo'n cael ei dalu, yn unol â thabl 4. |
| ***Penderfyniad 4:*** Rhaid talu cyflog Band 5 o £20,540 i ddirprwy bennaeth dinesig pan fo'n cael ei dalu, yn unol â thabl 4. |
| ***Penderfyniad 5:*** Rhaid i aelod llywyddol, os penodir un ac os yw'n cael cydnabyddiaeth ariannol, gael £25,593 yn unol â Thabl 4. |
| **Cynorthwywyr i'r Weithrediaeth** |
| **Penderfyniad 13:** Bydd y Panel yn penderfynu fesul achos ar yr uwch-gyflog priodol, os o gwbl, ar gyfer cynorthwywyr y weithrediaeth. |

| | |
|---|---|
| **Argymhellion:** | **Dylai'r Pwyllgor ystyried Adroddiad Blynyddol Drafft 2022/23 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a chynnig ymateb i'w ystyried gan Banel Aelodau Trawsbleidiol.** |
| **Atodiadau:** | **Atodiad A – Adroddiad Blynyddol Drafft 2022/23 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** |
| **Dogfennau cefndir:** | **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011** |

**Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Gwasanaethau Democrataidd**

**30 Medi 2021**

Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration Panel for Wales

At:
Arweinwyr a Phrif Weithredwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol
Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol
Cadeiryddion a Chlercod Awdurdodau Tân ac Achub
Cadeirydd a Phrif Weithredwr Un Llais Cymru
Arweinydd a Phrif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Penaethiaid Gwasanaethau Democrataidd/Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, ac Awdurdodau Tân ac Achub,
Cynghorau Cymuned a Thref

29 Medi 2021

Annwyl Gyfaill

**Taliadau annibynnol ar gyfer Cymru – Adroddiad Blynyddol Drafft 2022/2023**


Mae Adroddiad Blynyddol drafft y Panel ar gyfer 2022/23 wedi ei atodi. Byddem yn gwerthfawrogi cael sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori a fydd yn dod i ben ar 26 Tachwedd 2021.

Cynhelir etholiadau ar gyfer y prif gynghorau a chynghorau cymuned a thref ym mis Mai 2022, felly bydd adroddiad nesaf y Panel yn cyd-ddigwydd â thymor newydd y cynghorau. Ers nifer o flynyddoedd nid yw taliadau i aelodau etholedig y 22 o brif gynghorau wedi cadw i fyny â'r cymharydd gwreiddiol a oedd yn cael ei ddefnyddio i bennu'r cyflog sylfaenol, nac unrhyw gymhariaeth sector cyhoeddus arall. Mae'r Panel wedi penderfynu ei bod yn adeg amserol i unioni'r sefyllfa hon ac ail osod y ddolen ag enillion cyfartalog Cymru (yn seiliedig ar dri diwrnod).

Hefyd, mae'r adroddiad drafft yn disgrifio newidiadau i'r fframwaith taliadau cydnabyddiaeth ar gyfer cynghorau cymuned a thref ar ôl cynnal ymgynghoriad eang yn gynharach yn y flwyddyn.

Rydym yn edrych ymlaen at gael sylwadau ar y cynigion sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad drafft, a byddwn yn ystyried yr holl ymatebion cyn cynhyrchu'r adroddiad terfynol a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2022.

Yn gywir



John Bader
Cadeirydd

Panel Annibynnol Cymru
ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Independent Remuneration
Panel for Wales

# Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

## Adroddiad Blynyddol

DRAFFT

Chwefror 2022

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG43433

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022/2023

## RHAGAIR

Mae'r pandemig Covid yn parhau i effeithio ar waith y Panel gan nad ydym wedi gallu cwrdd ag awdurdodau a'u sefydliadau cynrychioliadol wyneb yn wyneb. Serch hynny, rydym wedi parhau i gwrdd yn rheolaidd a chynnal trafodaethau ystyrlon i gyflawni ein rhwymedigaethau statudol drwy Microsoft Teams neu Zoom.

Mae'r cyfnod hwn wedi bod yn anodd i'r sector cyhoeddus, ond mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi arddangos eu cydnerthedd a'u gallu dros y 18 mis diwethaf. Mae 2022 yn flwyddyn etholiad ar gyfer llywodraeth leol ac mae'r tymor pum mlynedd newydd yn rhoi cyfle i ailosod cyflogau sylfaenol aelodau etholedig i gyd-fynd ag enillion cyfartalog yng Nghymru. Nid yw'r cyflogau wedi cyd-fynd yn y blynyddoedd diwethaf, yn bennaf oherwydd mesurau cyni. Rydym yn credu ei bod yn bwysig bod y taliadau i aelodau etholedig o brif gynghorau yn deg ac nad ydynt ar lefel sy'n atal ymgeiswyr posibl rhag sefyll i gael eu hethol.

Rydym wedi cynnal ymarfer ymgynghori mawr yn ymwneud â'r Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer cynghorau tref a chymuned ac mae'r canlyniad wedi'i gynnwys yn adran 13 yr adroddiad drafft hwn. Hoffwn fynegi fy ngwerthfawrogiad i'r holl gynghorau ac aelodau a swyddogion unigol am gymryd rhan yn yr ymarfer.

Bu rhai newidiadau i aelodaeth y Panel. Ymunodd Ruth Glazzard â'r Panel ym mis Ebrill ac ymunodd Helen Wilkinson yn lle Claire Sharp ym mis Gorffennaf. Hoffwn ddiolch yn bersonol i Claire am ei chyfraniad i waith y Panel.

Daw'r cyfnod ymgynghori ar gyfer yr Adroddiad drafft hwn i ben ar **26 Tachwedd 2021**. Byddai'r Panel yn gwerthfawrogi derbyn sylwadau a fydd yn cael eu hystyried cyn llunio'r adroddiad terfynol.

John Bader
Cadeirydd

Aelodau'r Panel
John Bader, Cadeirydd
Saz Willey, Is-gadeirydd
Joe Stockley
Ruth Glazzard
Helen Wilkinson

Ceir gwybodaeth fanwl am yr aelodau ar y wefan: Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

**Cynnwys**


**Gweithredu Penderfyniadau'r Panel** 3

**Crynodeb Gweithredol** 4

1. **Fframwaith y Panel: Egwyddorion Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau** 8
2. **Tudalen Grynodeb yr Adroddiad Blynyddol** 10
3. **Taliadau i Aelodau Etholedig Prif Gynghorau: Cyflogau Sylfaenol, a Uwch-gyflogau a Chyflogau Dinesig** 11
4. **Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu** 24
5. **Darpariaeth Pensiwn ar gyfer Aelodau Etholedig o Brif Gynghorau** 25
6. **Hawl i Absenoldeb Teuluol** 26
7. **Taliadau i Aelodau o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol** 27
8. **Taliadau i Aelodau o Awdurdodau Tân ac Achub Cymru** 30
9. **Taliadau i Aelodau Cyfetholedig o Brif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub** 33
10. **Cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol** 35
11. **Absenoldeb Oherwydd Salwch i Ddeiliaid Uwch-gyflogau** 39
12. **Ad-dalu Costau Teithio a Chynhaliaeth pan fo'r Aelod ar Fusnes Swyddogol** 41
13. **Taliadau i Aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned** 43
14. **Cydymffurfio â Gofynion y Panel** 52
15. **Cyflogau Penaethiaid Gwasanaeth Cyflogedig Prif Gynghorau ac Awdurdodau Tân ac Achub a Phrif Swyddogion Prif Gynghorau** 53

**Atodiad 1: Penderfyniadau'r Panel ar gyfer 2022/23** 55

**Atodiad 2: Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** 61

**Atodiad 3: Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau** 76

**Atodiad 4: Cyhoeddi Cydnabyddiaeth Ariannol – Gofynion y Panel** 78

**Atodiad 5: Crynodeb o'r penderfyniadau newydd ac wedi'u diweddaru sydd i'w gweld yn yr adroddiad hwn** 80

# Amserlen ar gyfer Gweithredu Penderfyniadau’r Panel

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Adroddiad Blynyddol y Panel ddod i rym o 1 Ebrill. Yn y rhan fwyaf o flynyddoedd, mae hyn yn unol â threfniadau ariannol a gweinyddol yr holl awdurdodau. Fodd bynnag, pan fydd cynghorau newydd yn cael eu hethol bydd rhai o benderfyniadau’r Panel yn effeithiol ar gyfer tymor newydd y cyngor.

Ar 9 Mai 2022, daw trefniadau newydd i rym yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol. Felly mae dau ddyddiad gweithredu gwahanol i’r Adroddiad Blynyddol hwn fel y nodwyd isod:

1. Ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 8 Mai 2022, bydd yr holl Benderfyniadau yn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2021/2022 yn parhau i fod yn berthnasol ar gyfer prif gynghorau a chynghorau tref a chymuned.

2. Ar gyfer awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub Cymru bydd y penderfyniadau yn Adrannau 7 ac 8 yr Adroddiad hwn yn berthnasol o’r flwyddyn ariannol newydd, 1 Ebrill 2022.

3. O 9 Mai 2022, (blwyddyn newydd y cyngor) bydd y penderfyniadau a nodwyd yn yr Adroddiad hwn yn Adrannau 3 ac 13 yn berthnasol i brif gynghorau a chynghorau tref a chymuned,

## Crynodeb Gweithredol

**Dyma bedwerydd Adroddiad Blynyddol ar ddeg Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, i gael ei gyhoeddi o dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (fel y'i diwygiwyd).**

1. Wrth i Gymru adfer o'r pandemig Covid, bydd gan ddemocratiaeth leol a gwasanaethau cyhoeddus rôl hanfodol i'w chwarae wrth gryfhau cadernid ein cymunedau a'n heconomïau lleol. Mae 2022 yn garreg filltir oherwydd y cyd-destun cyffredinol hwn.

2. Fel Panel, rydym yn credu'n gryf bod hwn yn drobwynt ar gyfer democratiaeth yng Nghymru ac ar gyfer gwerthfawrogi ein gwasanaethau cyhoeddus; mae'n gyfle pwysig i sicrhau dyfodol ein democratiaeth a'n gwasanaethau cyhoeddus. Felly rydym wedi treulio amser yn cysylltu â rhanddeiliaid, yn cymryd seibiant ac adlewyrchu ar effaith ein penderfyniadau a'r negeseuon rydym yn eu cyfathrebu wrth wneud penderfyniadau eleni.

3. Ers ei sefydlu, mae'r Panel wedi mynegi'n gyson ac yn gadarn nad yw democratiaeth leol a llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus yn ddi-gost a bod angen rhoi gwerth iddynt os ydym am alluogi i bawb gymryd rhan. Mae angen i gydnabyddiaeth tâl fod ar lefel sy'n ddigonol i annog amrywiaeth o bobl bodlon ac abl i gymryd rhan mewn llywodraethiant lleol drwy swyddi etholedig, penodedig neu gyfetholedig. Mae'n bwysig hyrwyddo diwylliant sy'n annog unigolion i dderbyn cydnabyddiaeth tâl i sicrhau y gall pobl o bob rhan o gymdeithas gymryd rhan yn hyderus yn ein democratiaeth. Fodd bynnag, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel ystyried goblygiadau ariannol ei benderfyniadau. Rydym wedi trafod y mater o fforddiadwyedd gyda chynrychiolwyr CLILC a'r consensws cyffredinol yng nghyd-destun incwm a gwariant y cyngor yw nad yw penderfyniadau'r Panel yn cael effaith sylweddol. Rydym yn credu bod y cynigion yn yr Adroddiad drafft hwn yn bodloni'r gofynion deddfwriaethol.

4. Ers 2009, nid yw cydnabyddiaeth tâl ar gyfer aelodau etholedig mewn llywodraeth leol yng Nghymru wedi cyd-fynd â mesurau chwyddiant neu gymaryddion eraill posibl. Mae'r rhain yn cynnwys y Mynegai Prisiau Manwerthu, y Mynegai Prisiau Defnyddwyr, NJC (gweithwyr sector cyhoeddus), Cyflog Byw Cenedlaethol (NLW), cyfraddau Cyflog Byw y Living Wage Foundation, Aelodau Senedd Cymru, ac Aelodau Senedd y DU yn ogystal â'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE). Dyma ganlyniad cyni a phwysau ar gyllid cyhoeddus. Mae potensial i achosi anfanteision economaidd-gymdeithasol parhaus, gan ychwanegu at y canfyddiad o ddiffygion democrataidd.

**Cynnydd canrannol blynyddol i gyflog sylfaenol, meincnodau a mesurau eraill 2013 i 2021**

| Blwyddyn Adrodd Blynyddol | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **IRPW Sylfaenol** | **0.00** | **0.00** | **0.95** | **0.00** | **0.00** | **0.75** | **3.49** | **2.52** | **1.06** |
| **ASHE*** | 4.00 | 0.60 | 1.00 | 2.70 | 1.00 | 2.10 | 5.10 | **0.60** | **Oct-21** |
| **NLW** | 1.90 | 3.00 | 3.10 | 7.50 | 4.20 | 4.40 | 4.90 | **6.20** | **2.18** |
| **LWF** | 3.47 | 2.68 | 2.61 | 5.10 | 2.42 | 3.55 | 2.86 | **3.33** | **2.15** |

5. Yn ystod y cyfnod hwn, mae’r broses gwneud penderfyniadau a llywodraethu lleol wedi mynd yn fwy cymhleth gyda chyfrifoldebau cynyddol yn deillio o newidiadau cyfreithiol, cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a thechnolegol. Mae ffordd o fyw (a disgwyliadau pobl) hefyd wedi newid yn ystod y ddegawd ddiwethaf. Mae gofynion a disgwyliadau cynyddol am ddulliau hyblyg o gefnogi pobl y mae pwysau teuluol a gofal arnynt i gymryd rhan a chyfrannu at waith a bywyd cyhoeddus, drwy gynnig rhannu swyddi, hyblygrwydd ac absenoldeb am resymau teuluol. Mae’r agenda amrywiaeth mewn democratiaeth wedi datblygu, gyda’r Ddeddf Cydraddoldeb yn sail iddi, ac mae disgwyliad cynyddol y dylid annog a grymuso pobl â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan. Mae sicrhau bod democratiaeth a llywodraethu’n addas ar gyfer y dyfodol hefyd yn golygu bod pobl ifanc, y rheini mewn gwaith a’r rhai sydd dan anfantais yn gymdeithasol ac yn economaidd hefyd yn cael eu hannog a’u grymuso i gymryd rhan gan ei bod yn amlwg y dylai ein gwasanaethau cyhoeddus fod yn atebol ac y dylent gael eu cyflawni gan bobl sy’n adlewyrchu’r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae tystiolaeth y bydd gwell amrywiaeth yn sicrhau bod penderfyniadau’n ystyried amrywiaeth eang o safbwyntiau.

6. Mae’r pandemig Covid wedi rhoi pwysau digynsail ar ein gwleidyddion a’n gweision sifil. Mae hefyd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd ein seilwaith lleol a chymunedol ar gyfer datblygu atebion cyflym ac arloesol. Wrth i Gymru ailgodi ar ôl y pandemig, mae ymwybyddiaeth gynyddol bod angen i’n cenedl fanteisio ar dalentau amrywiol i gwrdd â graddfa’r heriau parhaus sy’n wynebu’r genedl. Mae angen i lywodraethu lleol ddefnyddio profiadau a gwybodaeth pobl leol.

7. Fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn, nid yw taliadau i gynghorwyr yn y 22 o brif gynghorau yng Nghymru wedi cyd-fynd â chymaryddion fel ASHE. Mae cyfyngiadau ariannol ar y sector cyhoeddus ac yn arbennig ar awdurdodau lleol dros sawl blwyddyn wedi golygu nad oedd yn bosibl cadw’r cysylltiad ag enillion cyfartalog Cymru. Mae’r Panel yn credu bod hyn wedi tanbrisio gwerth aelodau etholedig ac mai nawr yw’r amser i adfer y cysylltiad hwn fel y cymharydd mwyaf priodol. Bydd yr Aelodau yn y 22 o brif gynghorau yn cael, yn gyfatebol, yr un swm cyfartalog ag yr oedd etholwyr Cymru yn ei gael yn 2020. Rydym yn credu bod hyn yn gosod gwerth teg ar y cyfraniad a wnaed gan wleidyddion lleol. Rydym yn gobeithio hefyd dros amser y bydd hyn yn annog gwell amrywiaeth ac yn galluogi i ymgeiswyr posibl ystyried sefyll mewn etholiad.

8. Cynhelir etholiadau lleol yng Nghymru ar 5 Mai 2022 ar gyfer tymor newydd ac, o bosibl, llawer o wleidyddion lleol newydd. 9 Mai 2022 felly yw’r dyddiad gorau yn ein barn ni i ‘ailosod yn sylweddol’ a buddsoddi mewn democratiaeth leol yng Nghymru. Felly daw ein cynnydd arfaethedig mewn lefelau cydnabyddiaeth tâl i rym ar y dyddiad hwn. Ceir rhagor o fanylion yn Adran 3.

9. Fel Panel, rydym yn bryderus bod yr wybodaeth am daliadau a ddarperir gan wahanol awdurdodau'n dangos mai ychydig iawn o aelodau sy'n defnyddio'r ddarpariaeth yn y fframwaith ar gyfer cymorth ariannol ar gyfer gofal. Rydym yn credu ei bod yn hanfodol bod y Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd yn parhau i annog a hwyluso gwell defnydd o'r elfen hon o'r Fframwaith Cydnabyddiaeth Tâl fel nad yw aelodau dan anfantais yn ariannol.

10. Rydym hefyd yn credu y bydd annog aelodau â chyfrifoldebau gofalu i fanteisio ar y cymorth ariannol hwn yn rhoi'r neges bositif ein bod yn croesawu ac yn gwerthfawrogi aelodau gyda'r cyfrifoldebau hyn. Gobeithiwn y bydd yn annog eraill â chyfrifoldebau gofalu i ystyried sefyll i gael eu hethol.

11. Bydd taliadau ar gyfer aelodau awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub Cymru yn cynyddu o ganlyniad i'r codiad a gynigir ar gyfer aelodau etholedig mewn prif gynghorau. Fel y nodwyd uchod, daw'r codiadau hyn i rym o 1 Ebrill 2022, sef y flwyddyn ariannol newydd. Ystyriodd y Panel y dewis arall ar gyfer gweithredu yn dilyn cyfarfod blynyddol pob awdurdod, ond gallai hyn olygu oedi sylweddol cyn i unigolion gael y taliadau newydd. Ni fyddai hyn yn deg.

12. Yn gynnar yn 2021 dechreuodd y Panel gynnal adolygiad mawr o'r Fframwaith Cydnabyddiaeth Tâl ar gyfer cynghorau tref a chymuned a chynhaliwyd ymarfer ymgynghori cynhwysfawr gyda'r sector. Roeddem yn gwerthfawrogi lefel y cyswllt gan gynghorau unigol a'r sefydliadau a oedd yn eu cynrychioli. Mae'r pandemig Covid wedi cyfyngu ar gyfleoedd y Panel i gysylltu wyneb yn wyneb yn 2020/2021. Fodd bynnag, roedd cysylltiadau digidol y Panel yn sylweddol. Mae'r Panel yn cydnabod yr amrywiaeth eang o ran daearyddiaeth, cwmpas a graddfa ar draws y 735 o gynghorau tref a chymuned yng Nghymru, o gynghorau cymuned bychan gyda gwariant cymharol fach ac ychydig iawn o gyfarfodydd i gynghorau tref mawr gydag asedau a chyfrifoldebau sylweddol. Mae ein hargymhellion ar gyfer diwygio a'r fframwaith newydd arfaethedig wedi'u hamlinellu yn Adran 13.

13. Wrth ddod i gasgliadau rydym hefyd wedi ystyried:

- fframwaith cyffredinol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- ethos ac egwyddor y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a ddaeth i rym yng Nghymru yn 2020
- ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i gydraddoldeb ac amrywiaeth mewn democratiaeth;

**Penderfyniadau 2022-2023**

14. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r penderfyniadau newydd a diweddaraf yn Adroddiad Blynyddol eleni sydd wedi'u llywio gan ein cred a'n rhesymeg dros fuddsoddi mewn democratiaeth leol a gwasanaethau cyhoeddus, a'r egwyddorion a amlinellir uchod.

Mae Atodiad 1 yn amlinellu holl benderfyniadau'r Panel ar gyfer 2022/23.

| **Crynodeb o'r penderfyniadau newydd a diweddaraf yn yr adroddiad hwn** |
|---|
| **Prif Gynghorau** |
| ***Penderfyniad 1:*** Bydd y cyflog sylfaenol yn 2022/23 ar gyfer aelodau etholedig o brif gynghorau yn £16,800. |
| ***Penderfyniad 2:*** Bydd lefelau uwch-gyflogau yn 2022/23 ar gyfer aelodau o brif gynghorau fel y'u nodir yn Nhabl 4. |
| ***Penderfyniad 3:*** Rhaid talu cyflog Band 3 o £25,593 i bennaeth dinesig pan fo'n cael ei dalu, yn unol â thabl 4. |
| ***Penderfyniad 4:*** Rhaid talu cyflog Band 5 o £20,540 i ddirprwy bennaeth dinesig pan fo'n cael ei dalu, yn unol â thabl 4. |
| ***Penderfyniad 5:*** Rhaid i aelod llywyddol, os penodir un ac os yw'n cael cydnabyddiaeth ariannol, gael £25,593 yn unol â Thabl 4. |
| **Cynorthwywyr i'r Weithrediaeth** |
| **Penderfyniad 13:** Bydd y Panel yn penderfynu fesul achos ar yr uwch-gyflog priodol, os o gwbl, ar gyfer cynorthwywyr y weithrediaeth. |
| **Awdurdodau Parciau Cenedlaethol** |
| ***Penderfyniad 23:*** Y cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau cyffredin o APC fydd £4,738, yn weithredol o 1 Ebrill 2022. |
| ***Penderfyniad 24:*** Yr uwch-gyflog ar gyfer cadeirydd APC fydd £13,531, yn weithredol o 1 Ebrill 2022. |
| ***Penderfyniad 25:*** Rhaid talu uwch-gyflog APC o £8,478 i ddirprwy gadeirydd os penodir un. |
| ***Penderfyniad 26:*** Gellir talu i gadeiryddion pwyllgorau neu uwch-swyddi eraill. Y tâl fydd £8,478 |
| **Awdurdodau Tân ac Achub** |
| ***Penderfyniad 30:*** Y cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau cyffredin o ATA fydd £2,369, yn weithredol o 1 Ebrill 2022. |
| ***Penderfyniad 31:*** Yr uwch-gyflog ar gyfer cadeirydd ATA fydd £11,162, yn weithredol o 1 Ebrill 2022. |
| ***Penderfyniad 32:*** Rhaid talu uwch-gyflog ATA o £6,109 i ddirprwy gadeirydd os penodir un. |
| ***Penderfyniad 33:*** Gellir talu i gadeiryddion pwyllgorau neu uwch-swyddi eraill. Y tâl fydd £6,109. |
| **Cynghorau Tref a Chymuned** |
| **Penderfyniad 48:** Gall pob cyngor benderfynu cyflwyno lwfans presenoldeb i'r aelodau. Ni chaiff unrhyw daliad fod yn fwy na £30.<br><br>Ni fydd gan aelod sydd mewn colled ariannol hawl i gael lwfans presenoldeb ar gyfer yr un digwyddiad.<br><br>Mae'n rhaid i gynghorau sy'n bwriadu cyflwyno system lwfansau presenoldeb amlinellu manylion y cynllun a'i gyhoeddi ar eu gwefan. |

# 1. Fframwaith y Panel: Egwyddorion Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau

**Cynnal ymddiriedaeth a hyder**

1.1 Mae gan ddinasyddion yr hawl i ddisgwyl bod pawb sy'n dewis gwasanaethu mewn awdurdodau lleol yn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd trwy goleddu'r gwerthoedd a'r foeseg sy'n ymhlyg mewn gwasanaeth cyhoeddus o’r fath. Mae’r egwyddorion hyn yn sylfaen i’r cyfraniad y mae gwaith y Panel a’i Fframwaith yn ei wneud tuag at gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd.

**Symlrwydd**

1.2 Mae'r Fframwaith yn glir ac yn ddealladwy. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i'r Panel allu cyfleu ei Benderfyniadau yn effeithiol i bawb yr effeithir arnynt gan ei waith neu sydd â diddordeb ynddo.

**Cydnabyddiaeth ariannol**

1.3 Mae'r Fframwaith yn darparu ar gyfer taliadau i aelodau o awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldeb am wasanaethu eu cymunedau. Ni ddylai lefel y gydnabyddiaeth ariannol fod yn rhwystr i ymgymryd â’r gwaith na pharhau ag ef. Ni ddylai fod unrhyw ofyniad bod adnoddau sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau’n cael eu hariannu o'r taliad. Mae'r Fframwaith yn rhoi taliadau ychwanegol i'r rhai y rhoddir mwy o gyfrifoldeb iddynt.

**Amrywiaeth**

1.4 Caiff democratiaeth ei chryfhau pan fo aelodaeth o awdurdodau lleol yn adlewyrchu'n ddigonol gyfansoddiad demograffig a diwylliannol y cymunedau a wasanaethir gan y cyfryw awdurdodau. Bydd y Panel bob amser yn ystyried pa gyfraniad y gall ei fframwaith ei wneud i annog y rhai a dangynrychiolir yn sylweddol i gyfranogi ar lefel awdurdod lleol.

**Atebolrwydd**

1.5 Mae gan drethdalwyr a dinasyddion yr hawl i gael gwerth am arian o arian cyhoeddus sydd wedi'i neilltuo i roi cydnabyddiaeth ariannol i’r rhai a etholir, a benodir, neu a gyfetholir i wasanaethu er budd y cyhoedd. Mae'r Panel yn disgwyl bod pob awdurdod yn trefnu bod gwybodaeth am weithgareddau ei aelodau a chydnabyddiaeth ariannol a roddir iddynt ar gael yn rhwydd ac yn briodol.

**Tegwch**

1.6 Bydd yn bosibl cymhwyso'r fframwaith yn gyson i aelodau pob awdurdod sydd o fewn cylch gwaith y Panel fel modd i sicrhau bod lefelau cydnabyddiaeth ariannol yn deg, yn fforddiadwy ac yn gyffredinol dderbyniol.

**Ansawdd**

1.7 Mae'r Panel yn cydnabod bod y cymysgedd cymhleth o ddyletswyddau llywodraethu, craffu a rheoleiddio sydd ar aelodau yn golygu bod yn rhaid iddynt ymgysylltu â phroses o wella ansawdd yn barhaus. Mae'r Panel yn disgwyl i aelodau ymgymryd â'r cyfleoedd hyfforddi a datblygiad personol hynny sy'n angenrheidiol i gyflawni'r dyletswyddau y cânt gydnabyddiaeth ariannol amdanynt mewn modd priodol.

**Tryloywder**

1.8 Mae er budd y cyhoedd i sicrhau tryloywder cydnabyddiaeth ariannol aelodau. Mae rhai aelodau yn derbyn lefelau ychwanegol o gydnabyddiaeth ariannol am eu bod wedi'u hethol, neu eu penodi, i fwy nag un corff cyhoeddus. Mae'r Fframwaith yn fodd i sicrhau bod gwybodaeth am yr holl gydnabyddiaeth ariannol y mae pob aelod yn ei chael ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd.

**Cydnabyddiaeth Ariannol i Benaethiaid Gwasanaeth Cyflogedig**

1.9 Mae’r Panel yn cymhwyso’r egwyddorion hyn, sef tegwch, atebolrwydd a thryloywder, yn ei holl benderfyniadau ynghylch cydnabyddiaeth ariannol i aelodau o’r holl awdurdodau sydd o fewn ei gylch gwaith. Mae’r un egwyddorion yn berthnasol hefyd pan fo’n ofynnol i’r Panel wneud argymhellion mewn perthynas â chydnabyddiaeth ariannol i benaethiaid gwasanaeth cyflogedig yr awdurdodau hyn.

# 2. Tudalen Grynodeb yr Adroddiad Blynyddol

| **Math o Daliad** | **Math o Awdurdod** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Prif Gyngor** | **Awdurdod Parc Cenedlaethol** | **Awdurdod Tân ac Achub** | **Cyngor Tref a Chymuned** |
| **Cyflog Sylfaenol** | tudalen 13 | tudalen 28 | tudalen 32 | Amh[2]. |
| **Uwch-rolau** | tudalen 16 | tudalen 28 | tudalen 32 | tudalen 45 |
| **Cadeiryddion Pwyllgorau** | tudalen 16 | tudalen 28 | tudalen 32 | Amh. |
| **Grwpiau Gwrthbleidiau** | tudalen 16 | Amh. | Amh. | Amh. |
| **Penaethiaid a Dirprwyon Dinesig** | tudalen 17 | Amh. | Amh. | tudalen 48 |
| **Aelodau Llywyddol** | tudalen 18 | Amh. | Amh. | Amh. |
| **Milltiredd** | tudalen 41 | tudalen 41 | tudalen 41 | tudalen 46 |
| **Costau Teithio Eraill** | tudalen 41 | tudalen 41 | tudalen 41 | tudalen 46 |
| **Costau Cynhaliaeth** | tudalen 42 | tudalen 42 | tudalen 42 | tudalen 42 |
| **Cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol** | tudalen 35 | tudalen 35 | tudalen 35 | tudalen 35 |
| **Absenoldeb Teuluol** | tudalen 26 | Amh. | Amh. | Amh. |
| **Absenoldeb oherwydd salwch** | tudalen 39 | tudalen 39 | tudalen 39 | Amh. |
| **Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu** | tudalen 24 | Amh. | Amh. | Amh. |
| **Pensiwn** | tudalen 25 | Amh. | Amh. | Amh. |
| **Aelodau Cyfetholedig** | tudalen 33 | tudalen 33 | tudalen 33 | Amh. |
| **Lwfansau Penodol neu Ychwanegol** | tudalen 20 | Amh | Amh | Amh. |
| **Taliadau i Gynghorwyr Tref a Chymuned** | Amh. | Amh. | Amh. | tudalen 45 |
| **Digolledu am Golled Ariannol** | Amh. | Amh. | Amh. | tudalen 46 |
| **Datganiad o Daliadau** | tudalen 78 | tudalen 78 | tudalen 78 | tudalen 78 |
| **Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol** | tudalen 76 | tudalen 76 | tudalen 76 | Amh. |
| **Cyflogau Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig** | tudalen 53 | Amh. | tudalen 53 | Amh. |

[2] Amherthnasol

# 3. Taliadau i Aelodau Etholedig o Brif Gynghorau: Cyflogau Sylfaenol, Uwch-gyflogau a Chyflogau Dinesig

## Cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau etholedig o brif gynghorau

3.1 Yn 2009, penderfynodd y Panel mai ymrwymiad gwaith cynghorydd etholedig mewn prif gyngor, ar gyfartaledd, yw tri diwrnod gwaith. Nodwyd mai'r uchafswm cyfnod sylfaenol oedd £13,868. Roedd hyn yn adlewyrchu tair rhan o bump o enillion gros canolrifol gweithwyr gwrywaidd amser llawn sy'n byw yng Nghymru, fel y nodwyd yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Roedd y Panel yn credu ei bod yn briodol i ddefnyddio'r ffigur hwn, gan y gellir ei gymharu â chyflog yr etholwyr, wedi'i addasu ar gyfer natur rhan-amser gwaith aelod heb gyfrifoldebau uwch. Pan gyflwynwyd mesurau cyni, lleihawyd y cyflog sylfaenol i £13,175 a thorrwyd y cysylltiad ag ASHE. Ers hynny, ni fu unrhyw gysylltiad rhwng cyflog cynghorwyr ac etholwyr. Yn 2019, cymerodd y Panel gamau i atal y bwlch rhag cynyddu gan adolygu dewisiadau i symud tuag at ailosod y cysylltiad gydag ASHE neu feincnod addas arall. Mae papur esboniadol manwl sy'n nodi'r cyd-destun hanesyddol a dadansoddiad ar gael ar wefan y Panel. Y materion allweddol yw::

3.1.1 Ers 2009, mae'r Panel wedi cyflawni ei ddyletswydd i ystyried fforddiadwyedd a derbynioldeb ac wedi gosod symiau ar gyfer cyflog sylfaenol sydd wedi amrywio ond heb gyd-fynd â mesurau chwyddiant neu gymaryddion eraill. Mae Tabl 1 yn dangos y cynnydd canrannol i'r cyflog sylfaenol a detholiad o feincnodau eraill rhwng 2013 a 2021.

3.1.2 Rhwng 2013 a 2020 cynyddodd cyflog sylfaenol aelodau etholedig eraill Cymru 9% (£13,175 i £14,368). Cynyddodd cyflog Aelod o Senedd Cymru 28.6% (£53,852 i £69,272) a chynyddodd cyflog Aelod o Senedd y DU 23.4% (£66,396 i £81,932). Aildrefnwyd cyflogau Aelodau Senedd Cymru yn 2017 ac Aelodau Senedd y DU yn 2015.

3.1.3 Gan edrych ar rannau eraill y deyrnas Unedig, mae cynghorwyr yr Alban yn cael £18,604 y flwyddyn ac yn 2018 roedd cynghorwyr Gogledd Iwerddon yn cael £15,486. Mae'n anoddach dwyn cymhariaeth gyda Lloegr oherwydd bod strwythur llywodraeth leol yn wahanol yn y wlad honno, er bod enghreifftiau lle bydd aelodau'n cael mwy o gyflog na'u cymheiriaid yng Nghymru.

3.1.4 Mae tabl 1 yn dangos bod cyflog sylfaenol cynghorwyr y meinciau cefn bellach lawer iawn yn is na chyflog cyfartalog (canolrifol) Cymru a chyflog y sector cyhoeddus.

**Tabl 1 – Cynnydd canrannol blynyddol i'r cyflog sylfaenol, meincnodau a mesurau amgen 2013 i 2021**

| Blwyddyn Adroddiad Blynyddol | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **IRPW Sylfaenol** | **0.00** | **0.00** | **0.95** | **0.00** | **0.00** | **0.75** | **3.49** | **2.52** | **1.06** |
| **ASHE *** | 4.00 | 0.60 | 1.00 | 2.70 | 1.00 | 2.10 | 5.10 | **0.60** | **Hydref-21** |
| **NJC **** | 1.00 | 0.43 | 2.05 | 1.00 | 1.00 | 2.00 | 2.60 | **2.75** | **1.75** |
| **Aelod o Senedd Cymru** | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 1.00 | 17.70 | 2.10 | 3.50 | **0.00** | **2.40** |
| **Aelod o Senedd y DU** | 1.00 | 1.00 | 10.30 | 1.30 | 1.40 | 1.80 | 2.70 | **3.10** | **0.00** |
| **RPI***** | 3.00 | 2.40 | 1.00 | 1.80 | 3.60 | 3.30 | 2.60 | **1.50** | **3.80** |
| **CPI ****** | 2.60 | 1.50 | 0.00 | 0.70 | 2.70 | 2.50 | 1.80 | **0.90** | **2.00** |
| **NLW** | 1.90 | 3.00 | 3.10 | 7.50 | 4.20 | 4.40 | 4.90 | **6.20** | **2.18** |
| **LWF** | 3.47 | 2.68 | 2.61 | 5.10 | 2.42 | 3.55 | 2.86 | **3.33** | **2.15** |

** cynnig cyflogwyr terfynol NJC Gorffennaf 2021; *** RPI a CPI**** ar gyfer Gorffennaf 2021.

Enillion wythnosol gros Cyfartaledd Canolrifol Cymru (canolrif) yn ôl ardal leol yng Nghymru a'r flwyddyn (£) (llyw.cymru)

| | |
|---|---|
| Aelod o Senedd Cymru | Bwrdd Cydnabyddiaeth Ariannol |
| Aelod o Senedd y DU | Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol |
| RPI pob eitem | Mynegai Prisiau Manwerthu |
| CPI | Chwyddiant Prisiau Defnyddwyr |
| NLW | Cyflog Byw Cenedlaethol |
| LWF | Living Wage Foundation |

**Tabl 2 – Cyflog blynyddol sylfaenol a chyflog cyfartaledd cenedlaethol Cymru cyfwerth ag amser llawn a 3 diwrnod (60%) 2013 i 2021**

| **Blwyddyn** | **Cyflog sylfaenol IRPW** | **ASHE Canolrifol Cymru** | |
|---|---|---|---|
| | | **Amser llawn** | **3 diwrnod** |
| 2013 | 13,175 | 24,499 | 14,699 |
| 2014 | 13,175 | 24,655 | 14,793 |
| 2015 | 13,300 | 24,915 | 14,949 |
| 2016 | 13,300 | 25,643 | 15,386 |
| 2017 | 13,300 | 25,904 | 15,542 |
| 2018 | 13,400 | 26,476 | 15,886 |
| 2019 | 13,868 | 27,828 | 16,697 |
| 2020 | 14,218 | 27,974 | **16,784** |
| 2021 | **14,368** | **Hydref 2021** | **Hydref 2021** |

3.2 Wrth wneud penderfyniadau ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol hwn, ystyriodd y Panel gynnydd yr amryw o ffigurau meincnod a amlinellwyd uchod ar gyfer y cyfnod rhwng 2013 a 2021 a'r codiadau cyflog.

3.3 Fel yr amlinellwyd yn ein Crynodeb Gweithredol, mae'r Panel yn credu bod yr etholiadau leol ym mis Mai 2022 yn adeg addas i gywiro'r anghydbwysedd rhwng cyflog sylfaenol cynghorwyr a chyflogau cyfartalog eu hetholwyr. Bydd cyflog sylfaenol cynghorwyr y prif gynghorau a etholir yn etholiadau lleol mis Mai 2022 yn cael ei ailosod i gyd-fynd ag AHSE 2020, sef £16,800.

| |
|---|
| **Penderfyniad 1: Bydd y cyflog sylfaenol yn 2022/23 ar gyfer aelodau etholedig o brif gynghorau yn £16,800.** |

**Uwch-gyflogau**

Uwch-gyflogau yw taliadau i aelodau'r weithrediaeth, cadeiryddion pwyllgorau ac arweinydd yr wrthblaid.

**Nifer yr uwch-gyflogau**

3.4 Bydd y cyfyngiad ar nifer yr uwch-gyflogau sy'n daladwy ("y cap") yn dal i sefyll ac ni fydd yn newid. Yn 2022-2023 bydd uchafswm nifer yr uwch-gyflogau sy'n daladwy ym mhob cyngor fel y'i nodir yn Nhabl 3.

**Taliadau uwch-gyflogau**

3.5 Mae'r holl uwch-gyflogau'n cynnwys y taliad sylfaenol.

3.6 Mae'r Panel yn cydnabod bod blynyddoedd o gynnydd isel, neu ddim cynnydd o gwbl, wedi golygu bod cyflog deiliaid uwch-gyflogau yn sylweddol ac yn gynyddol is na llawer o'r cymaryddion perthnasol.

**Arweinwyr**

3.7 Cydnabyddir yn eang fod swydd arweinydd ar brif gyngor yn swydd gymhleth iawn ac y daw gyda lefel uchel a chynyddol o gyfrifoldeb. Mae tâl arweinwyr ar begwn isaf cymaryddion y sector.

3.8 Mae'r Panel wedi clywed dadleuon y dylai cyflog arweinydd fod cyfwerth â chyflog Aelod Senedd y meinciau cefn yng Nghymru, neu Gadeirydd Bwrdd Iechyd, neu'n uwch. Mae'r Panel wedi ystyried y dadleuon hyn, ond wedi dod i'r casgliad er bod y swyddi'n debyg, bod gwahaniaethau sylweddol neu hanfodol yn bodoli nad ydynt yn ddefnyddiol wrth wneud cymhariaeth.

3.9 Mae'r Panel yn bryderus iawn nad yw'r lefelau tâl presennol yn ddeniadol yn ariannol a bod pobl yn eu gweld fel rhwystr i gyfranogi. I lawer o bobl sy'n fodlon a chymwys, gallai uwch-gyflog olygu gostyngiad mawr mewn enillion. Nid yw hyn yn ysbryd amrywiaeth, cynhwysiant na democratiaeth ac nid yw'n effeithlon ar

gyfer cynnal prif gynghorau'n effeithiol. I ddechrau mynd i'r afael â hyn, mae'r Panel wedi ailosod yr holl daliadau uwch-gyflogau ar gyfer 2022-2023. Cyflog arweinydd y cyngor mwyaf (Grŵp A) fydd £63,000. Mae'r holl daliadau eraill wedi'u penderfynu gan ystyried hyn ac maent wedi'u nodi yn Nhabl 4.

**Y Weithrediaeth**

3.10 Mae'r Panel yn parhau i fod o'r farn y dylid ystyried bod aelodau'r weithrediaeth yn gweithio oriau sy'n cyfateb i amser llawn (tua 40 awr yr wythnos), ond nid naw tan bump o reidrwydd. Mae trafodaethau parhaus gydag aelodau a swyddogion yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cadarnhau'r casgliad hwn.

**Cadeiryddion Pwyllgorau**

3.11 Mae'r Panel yn cydnabod bod gwahaniaeth sylweddol rhwng cyfrifoldebau a swyddogaethau cadeirio gwahanol bwyllgorau. Nid oes rhaid i gynghorau roi tâl i gadeiryddion pwyllgorau. Mater i bob cyngor yw penderfynu pa gadeiryddion pwyllgorau, os o gwbl, sy'n cael tâl. Mae hyn yn caniatáu i gynghorau ystyried gwahanol lefelau cyfrifoldeb.

3.12 Mae'r Panel wedi ystyried elfen swyddogaeth cyflog y cadeirydd. Mae symud i daliad cadeirydd ar lefel benodol yn 2019 wedi lleihau'r gwahaniaeth rhwng uwch-daliadau eraill. I ailosod hyn, mae'r Panel wedi penderfynu peidio â newid yr elfen rôl yn ffigur 2021, sef £8,793 ar gyfer 2022-2023. Bydd y cynnydd cyflog sylfaenol yn berthnasol.

**Penderfyniad 2: Bydd lefelau uwch-gyflogau yn 2022/23 ar gyfer aelodau o brif gynghorau fel y'u nodir yn Nhabl 4.**

**Tabl 3:** Uchafswm yr aelodau o gynghorau sy'n gymwys i gael uwch-gyflog

| **Cyngor** | **Nifer y cynghorwyr** | **Nifer yr uwch-gyflogau** |
|---|---|---|
| **Grŵp A** (poblogaethau dros 200,000) | | |
| Caerdydd | 75 | 19 |
| Rhondda Cynon Taf | 75 | 19 |
| Abertawe | 72 | 19 |
| **Grŵp B** (poblogaethau rhwng 100,000 a 200,000) | | |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 54 | 18 |
| Caerffili | 73 | 18 |
| Sir Gaerfyrddin | 74 | 18 |
| Conwy | 59 | 18 |
| Sir y Fflint | 70 | 18 |
| Gwynedd | 75 | 18 |
| Castell-nedd Port Talbot | 64 | 18 |
| Casnewydd | 50 | 18 |
| Sir Benfro | 60 | 18 |
| Powys | 73 | 18 |
| Bro Morgannwg | 47 | 18 |
| Wrecsam | 52 | 18 |
| **Grŵp C** (poblogaethau hyd at 100,000) | | |
| Blaenau Gwent | 42 | 17 |
| Ceredigion | 42 | 17 |
| Sir Ddinbych | 47 | 17 |
| Ynys Môn | 30 | 16 |
| Merthyr Tudful | 33 | 16 |
| Sir Fynwy | 43 | 17 |
| Torfaen | 44 | 17 |

**Tabl 4:** Cyflogau sylfaenol sy'n daladwy i aelodau Sylfaenol, Uwch, Dinesig a Llywyddol o Brif Gynghorau

| **Cyflog sylfaenol (sy'n daladwy i'r holl aelodau etholedig) £16,800** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Grŵp A**<br>Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe | **Grŵp B**<br>Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir y Fflint, Gwynedd, Casnewydd, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys, Bro Morgannwg, Wrecsam | **Grŵp C**<br>Blaenau Gwent, Ceredigion, Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Torfaen, Ynys Môn |
| **Uwch-gyflogau (gan gynnwys cyflog sylfaenol)** | | | |
| **Band 1**<br>Arweinydd<br><br>Dirprwy Arweinydd | £63,000<br><br>£44,100 | £56,700<br><br>£39,690 | £53,550<br><br>£37,485 |
| **Band 2**<br>Aelodau Gweithrediaeth | £37,800 | £34,020 | £32,130 |
| **Band 3**<br>Cadeiryddion pwyllgorau (os ydynt yn cael cydnabyddiaeth ariannol): | | £25,593 | |
| **Band 4**<br>Arweinydd Grŵp yr Wrthblaid Fwyaf[3] | | £25,593 | |
| **Band 5**<br>Arweinwyr grwpiau gwleidyddol eraill | | £20,540 | |

[3]Arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf. Gweler Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, Atodiad 2, Rhan 1(2) ar gyfer diffiniad o "*grŵp yr wrthblaid fwyaf*" a "*grŵp gwleidyddol arall*".

**Nodiadau ar Dabl 4:**

a. Mae'r Panel o'r farn mai swyddogaethau arweiniol a gweithredol (cyflogau Band 1 a 2 yn eu tro) sydd â'r atebolrwydd unigol mwyaf. Bydd dirprwy arweinydd yn cael cyflog sydd 70% o gyflog eu harweinydd ac aelod gweithredol yn cael cyflog sydd 60% o gyflog eu harweinydd.

b. Ystyriodd y Panel y dadleuon o blaid ac yn erbyn newid grwpiau'r cynghorau. Roedd y dewisiadau'n cynnwys dileu neu gynyddu nifer y grwpiau a newid y lefelau bandiau. Daeth y Panel i'r casgliad bod 'maint y boblogaeth' yn ffactor

mawr o ran dylanwadu ar lefelau cyfrifoldeb ac mae wedi cadw'r tri grŵp poblogaeth (A, B a C). Er gwybodaeth: Poblogaeth Grŵp A 200,000 ac uwch; Poblogaeth Grŵp B 100,001 i 199,999; Poblogaeth Grŵp C hyd at 100,000.

c. Bydd cyflogau cynghorau grŵp B yn 90% o gyflogau Grŵp A. Mae cyflogau cynghorau Grŵp C tua 80% o gyflogau Grŵp A. Er bod poblogaethau a chyllidebau cynghorau Grŵp C yn sylweddol is maent yn wynebu dyletswyddau a heriau tebyg i'r cynghorau yng Grwpiau A a B ac yn gwneud hynny gyda llai o adnoddau. Mae'r Panel felly wedi penderfynu lleihau'r gwahaniaeth rhwng y Grwpiau. Yn 2022/23 bydd cyflogau Grŵp C yn 85% o gyflogau Grŵp A. Mae'r cyflogau wedi'u hamlinellu yn Nhabl 4.

d. Bydd cadeiryddion pwyllgorau yn cael eu talu ar Band 3. Gall y cyngor benderfynu pa gadeiryddion, os o gwbl, fydd yn cael cydnabyddiaeth tâl. Mae hyn yn galluogi i gynghorau ystyried y gwahanol lefelau o gyfrifoldeb.

e. Nid yw'r amod bod rhaid i arweinydd grŵp yr wrthblaid neu unrhyw arweinydd grŵp arall gynrychioli o leiaf 10% o aelodau'r cyngor cyn bod yn gymwys am uwch-gyflog wedi newid.

f. Mae'r Panel wedi penderfynu bod rhaid i'r cyngor sicrhau bod uwch-gyflog ar gael i arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf.

g. Mae'r Panel wedi penderfynu, os rhoddir cydnabyddiaeth tâl, bod rhaid rhoi uwch-gyflog Band 5 i arweinwyr grwpiau gwleidyddol eraill.

**Taliadau i Benaethiaid a Dirprwyon Dinesig (Cyflogau Dinesig)**

3.13 Gall cyngor ddewis peidio â thalu unrhyw gyflog dinesig ar gyfer swyddi pennaeth dinesig a/neu ddirprwy bennaeth dinesig. Os rhoddir tâl, rhaid rhoi cydnabyddiaeth tâl i benaethiaid dinesig ar lefel Band 3 a'r dirprwy benaethiaid dinesig ar Band 5. (Penderfyniadau 5, 6, 7 ac 8).

3.14 Nid yw swyddi'r pennaeth dinesig a'r dirprwy bennaeth dinesig wedi'u cynnwys yn y cap (ac eithrio Cynghorau Ynys Môn a Merthyr Tudful).

3.15 Mae penaethiaid dinesig yn uwch-swyddi mewn cynghorau sy'n wahanol i arweinyddiaeth wleidyddol neu weithredol. Yn ogystal â chadeirio cyfarfodydd pwysig, y pennaeth dinesig yw 'dinesydd cyntaf' a 'llysgennad' yr awdurdod, gan gynrychioli'r cyngor wrth ymwneud â phob math o sefydliadau a chyrff. Mae gofyniad y Panel na ddylai aelodau orfod talu am gost y cymorth (gweler **Penderfyniad 10**) sydd ei angen i gyflawni eu dyletswyddau yn berthnasol yn achos dirprwy benaethiaid dinesig hefyd.

| |
|---|
| **Penderfyniad 3: Rhaid talu cyflog Band 3 o £25,593 i Bennaeth Dinesig pan fo'n cael ei dalu, yn unol â thabl 4.** |

**Penderfyniad 4: Rhaid talu cyflog Band 5 o £20,540 i Ddirprwy Bennaeth Dinesig pan fo'n cael ei dalu, yn unol â thabl 4.**

3.16 Mewn sawl achos, mae penaethiaid dinesig yn cael cymorth ysgrifenyddol, yn cael cludiant ar gyfer dyletswyddau swyddogol, ac yn gallu manteisio ar gyllideb lletygarwch ar wahân sy’n cael ei rheoli gan swyddogion y cyngor.

3.17 Mae’r Panel yn cydnabod yr ystod o wahanol fathau o ddarpariaeth a wneir ar gyfer penaethiaid dinesig o ran cludiant, cymorth ysgrifenyddol, rhoddion elusennol a dillad. Nid cydnabyddiaeth ariannol bersonol yw penderfyniadau cyllido mewn perthynas â lefelau o gymorth ychwanegol o'r fath, ond yn hytrach cyllid sy'n ofynnol i gyflawni'r tasgau a'r dyletswyddau. Penderfyniad i’r cynghorau unigol yw'r rhain o hyd. Mae cynghorau'n rhydd i fuddsoddi mewn cymorth ar ba bynnag lefel sy'n briodol yn eu barn nhw ar gyfer yr arweinyddiaeth ddinesig sydd yn ei lle.

3.18 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn galluogi cynghorau i benodi aelod llywyddol sy’n gyfrifol am gadeirio cyfarfodydd y cyngor cyfan. Lle penodir un, bydd gan y pennaeth dinesig lai o gyfrifoldebau o ganlyniad i hynny.

### Aelodau Llywyddol

3.19 Atgoffir cynghorau nad oes rhaid iddynt dalu aelod llywyddol sy'n cael ei benodi. Os bydd yn cael ei dalu, bydd y swydd yn cyfrif tuag at y cap, ac yn derbyn uwch gyflog Band 3.

**Penderfyniad 5: Rhaid i aelod llywyddol, os penodir un ac os yw'n cael cydnabyddiaeth ariannol, gael £25,593 yn unol â Thabl 4.**

**Penderfyniad 6: Ni fydd swydd dirprwy aelod llywyddol yn cael cydnabyddiaeth ariannol.**

### Y ffactorau allweddol sy’n sail i benderfyniadau’r Panel:

3.20 Y cyflog sylfaenol, a delir i bob aelod, yw’r gydnabyddiaeth ariannol am y cyfrifoldeb o gynrychioli’r gymuned a chymryd rhan yn y swyddogaethau craffu, rheoleiddio a swyddogaethau cysylltiedig sy’n rhan o lywodraethu lleol. Y mae’n seiliedig ar gyfnod sy’n gyfwerth â thri diwrnod yr wythnos.

3.21 Rhaid talu’r cyflog a’r costau sydd wedi’u pennu yn llawn i bob aelod, oni bai bod unigolyn wedi rhoi gwybod yn ysgrifenedig i swyddog priodol yr awdurdod ei fod wedi dewis yn annibynnol ac yn wirfoddol ei fod am wrthod yr holl daliad neu unrhyw elfen ohono. Mae’n hanfodol bod tryloywder yn y broses hon fel bod unrhyw awgrym posibl bod aelodau’n cael eu rhoi dan bwysau i wrthod cyflogau’n cael ei osgoi.

Rhaid cymhwyso'r canlynol:

**Penderfyniad 7:**

**a) Ni ddylai aelod etholedig gael cydnabyddiaeth ariannol am fwy nag un uwch-swydd o fewn ei awdurdod ef neu hi.**

**b) Ni ddylid talu uwch-gyflog a chyflog dinesig i aelod etholedig.**

**c) Mae'r cyflog sylfaenol yn gynwysedig ym mhob uwch-gyflog a chyflog dinesig a delir.**

**d) Os yw cyngor yn dewis bod â mwy nag un dirprwy arweinydd sy'n cael cydnabyddiaeth ariannol, dylid rhannu'r gwahaniaeth rhwng uwch-gyflog y dirprwy arweinydd ac aelodau gweithrediaeth eraill â nifer y dirprwy arweinwyr a'i ychwanegu at uwch-gyflog aelodau gweithrediaeth eraill er mwyn cyfrifo'r uwch-gyflog sy'n daladwy i bob dirprwy arweinydd.**

**Penderfyniad 8: Ni all aelodau sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 gael cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub y maent wedi'u penodi iddo. Mae ganddynt hawl o hyd i hawlio costau teithio a chynhaliaeth a chyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol neu'r Awdurdod Tân ac Achub.**

**Penderfyniad 9: Ni all aelodau sy'n cael cyflog Band 1 neu Fand 2 dderbyn unrhyw dâl gan gyngor cymuned neu dref y maent yn aelod ohono. Maent yn dal yn gymwys i hawlio costau teithio a chynhaliaeth a chyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol gan y cyngor cymuned neu'r cyngor tref. Pan fo'r sefyllfa hon yn berthnasol, cyfrifoldeb yr aelod unigol yw cydymffurfio.**

### Cefnogi gwaith aelodau etholedig o awdurdodau lleol

3.22 Mae'r Panel yn disgwyl bod y cymorth a roddir yn ystyried anghenion penodol aelodau unigol. Mae'n ofynnol i Bwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd adolygu'n achlysurol y lefel o gymorth a roddir i aelodau i gyflawni'u dyletswyddau. Byddai'r Panel yn disgwyl i'r pwyllgorau hyn gynnal adolygiadau achlysurol a chyflwyno cynigion gerbron y cyngor llawn o ran yr hyn sydd ei angen. Dylai unrhyw gynigion gael eu gwneud gan roi sylw dyledus i Benderfyniadau 10 ac 11 isod. Er enghraifft, nid yw'r Panel yn ei hystyried yn briodol ei gwneud yn ofynnol i aelodau etholedig dalu am unrhyw ddefnydd o ffôn i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau ar gyfer y cyngor.

3.23 Mae'r Panel o'r farn ei bod yn angenrheidiol i bob aelod etholedig gael defnydd hwylus o wasanaethau e-bost a chael mynediad electronig at wybodaeth briodol drwy gyswllt â'r rhyngrwyd. Nid yw'r Panel yn ei hystyried yn briodol ei

gwneud yn ofynnol i aelodau etholedig dalu am unrhyw ddefnydd o'r rhyngrwyd i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau ar gyfer y cyngor. Mae'n hanfodol y ceir mynediad at ohebiaeth electronig er mwyn i aelod fod mewn cysylltiad priodol â gwasanaethau'r cyngor a chadw cysylltiad â'r rhai y mae'n eu cynrychioli. Mae cynghorau wedi ymrwymo i 'weithio'n ddi-bapur', a heb fynediad electronig o'r fath byddai aelod yn wynebu cyfyngiadau sylweddol o ran ei allu i gyflawni ei ddyletswyddau. Nid yw'n briodol i gyfleusterau y mae ar aelodau eu hangen fod ar gael yn swyddfeydd y cyngor yn ystod oriau swyddfa yn unig.

3.24 Cyfrifoldeb pob cyngor drwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yw rhoi cymorth a ddylai fod yn seiliedig ar asesiad o anghenion ei aelodau. Lle ceir anghenion ychwanegol neu faterion sy'n ymwneud ag anabledd, neu lle nodwyd bod gofynion penodol o ran hyfforddiant, bydd angen i bob awdurdod asesu unrhyw ofynion penodol sydd gan aelodau unigol.

3.25 Gallai ei swydd fel cynghorydd effeithio'n niweidiol ar ddiogelwch personol yr aelod etholedig. Dyletswydd y Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd yw ariannu neu ddarparu'r cymorth sy'n angenrheidiol i alluogi cynghorydd i gyflawni ei rôl yn rhesymol ac yn ddiogel. Gallai hyn olygu ariannu mesurau diogelwch priodol i ddiogelu cynghorwyr rhag risg bersonol neu fygythiad sylweddol. Byddai'r ddarpariaeth sy'n ofynnol yn cael ei dewis ar sail asesiad risg a thrafodaeth â chyrff perthnasol fel yr heddlu a'r gwasanaethau diogelwch.

3.26 Ar gyfer aelodau cyfetholedig, mae'r gofynion cymorth wedi'u nodi yn Adran 9 a Phenderfyniad 42.

**Penderfyniad 10: Dylai pob awdurdod sicrhau, drwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, fod ei holl aelodau etholedig yn cael cymaint o gymorth ag sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Dylai pob aelod etholedig gael cyfleusterau ffôn, e-bost a rhyngrwyd digonol i'w galluogi i gael mynediad electronig at wybodaeth briodol.**

**Penderfyniad 11: Dylid rhoi cymorth o'r fath heb gostau i'r aelod unigol. Ni ddylai'r priod awdurdod ddidynnu symiau o gyflogau aelodau fel cyfraniad tuag at y costau cymorth y mae'r awdurdod wedi penderfynu eu bod yn angenrheidiol ar gyfer effeithlonrwydd a/neu effeithiolrwydd aelodau.**

### Uwch-gyflogau penodol neu ychwanegol

3.27 Mae'r Panel wedi caniatáu mwy o hyblygrwydd sy'n galluogi i awdurdodau wneud cais am uwch-gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn perthyn i'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol presennol, neu na ellid gwneud lle iddynt o fewn uchafswm uwch-gyflogau'r awdurdod. Os yw'r ychwanegiad arfaethedig yn cael ei gymeradwyo ac yn achosi i'r cyngor fynd y tu hwnt i'r cap hwn, bydd hyn yn cael ei gynnwys yn y gymeradwyaeth (ac eithrio Cynghorau Merthyr Tudful ac Ynys Môn – gweler troednodyn 4). Mae rhai cynghorau wedi codi'r posibilrwydd o weithredu rhai swyddi ag uwch-gyflogau

yn ôl trefniant “rhannu swyddi”. Mae’r Panel yn cefnogi’r egwyddor hon ar y sail ei bod yn cefnogi amrywiaeth a chynhwysiant, a chaiff y broses ei nodi ym Mharagraff 3.29.

**Penderfyniad 12: Gall prif gynghorau wneud cais am uwch-gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn syrthio o fewn y Fframwaith presennol.**

3.28 Cyhoeddwyd canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ynghylch y broses ymgeisio ym mis Ebrill 2014 ac roeddent yn cynnwys yr egwyddorion canlynol:

a. Ni all cyfanswm yr uwch-gyflogau fod yn uwch na hanner cant y cant[4] o’r aelodaeth.

b. Bydd rhaid i geisiadau gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod yn ei gyfanrwydd (oni bai bod hyn wedi’i ddirprwyo o fewn y Rheolau Sefydlog) cyn eu cyflwyno i’r Panel.

c. Rhaid bod tystiolaeth glir bod y swydd neu’r swyddi yn cynnwys cyfrifoldeb ychwanegol a ddangosir gan ddisgrifiad o’r rôl, swyddogaeth a hyd.

d. Bydd rhaid i bob cais ddynodi’r amseriad ar gyfer ystyried adolygiad ffurfiol o’r rôl gan yr awdurdod yn ei gyfanrwydd.

[4] Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 Adran 142 (5) Ni all y gyfran sy'n cael ei gosod gan y Panel yn unol ag is-adran (4) fod yn uwch na hanner cant y cant oni bai bod un o Weinidogion Cymru wedi cydsynio i hynny.

**3.29 Trefniadau Rhannu Swyddi**

Mae adran 58 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi sefydlu trefniadau newydd o ran rhannu swydd ar gyfer arweinwyr gweithrediadau ac aelodau gweithrediadau. Mae’r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau:

a) sy’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys darpariaeth yn eu trefniadau gweithredol sy’n galluogi i ddau gynghorydd neu fwy rannu swydd yn y weithrediaeth, gan gynnwys swydd arweinydd y weithrediaeth.

b) sy’n newid uchafswm aelodau o weithrediaeth pan fo aelodau’r weithrediaeth yn rhannu swydd

c) yn ymwneud â phleidleisio a chworwm pan fo aelodau’r weithrediaeth yn rhannu swydd.

I aelodau o weithrediaeth: Bydd pob un sy’n rhannu swydd yn cael cyfran briodol o’r grŵp cyflogau fe y’i nodir yn Nhabl 3.

Ni ellir mynd y tu hwnt i’r uchafswm statudol, fel y nodwyd yn y Ddeddf, ar gyfer cabinetau felly bydd y ddau rannwr swydd yn cyfrif tuag at yr uchafswm.

O dan y Mesur, nifer y bobl sy’n cael uwch-gyflog, nid nifer y swyddi ag uwch-gyflogau, sy’n cyfrif tuag at y cap. Felly, ar gyfer yr holl drefniadau rhannu swyddi bydd y cap uwch-gyflog yn cael ei gynyddu yn amodol ar yr uchafswm statudol o 50% o aelodaeth y cyngor. Os yw’r trefniadau’n golygu yr eir y tu hwnt i’r uchafswm statudol, byddai angen i’r Panel geisio cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

**3.30 Cynorthwywyr y Weithrediaeth**

Mae’r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau hefyd yn galluogi i brif gynghorau benodi aelodau etholedig i gynorthwyo’r weithrediaeth i gyflawni ei swyddogaethau.

Gwneir penodiadau o’r fath gan arweinydd y cyngor a gall gynnwys:

- nifer y cynorthwywyr y gellir eu penodi
- cyfnod swydd y cynorthwywyr
- cyfrifoldeb y cynorthwywyr

Mae eithriadau i’r penodiadau fel y nodwyd yn y ddeddfwriaeth ac nid yw cynorthwywyr yn aelodau o’r cabinet.

Mae’r Panel wedi ystyried materion cydnabyddiaeth tâl ar gyfer aelodau sydd wedi’u penodi fel cynorthwywyr y weithrediaeth ond wedi dod i’r casgliad nad yw’n bosibl penderfynu ar daliadau ychwanegol, os o gwbl, nes y bydd rhagor o

wybodaeth ar gael ynglŷn â dyletswyddau'r swyddi. Felly, cynigir y bydd hyn yn cael ei ystyried ymhellach pan fydd cyngor yn penderfynu penodi a phan fydd manylion y cyfrifoldebau penodol ar gael.

I weithredu hyn heb fod angen adroddiad ffurfiol pellach, bydd y penderfyniad a ganlyn yn berthnasol.

**Penderfyniad 13: Bydd y Panel yn penderfynu fesul achos ar yr uwch-gyflog priodol, os o gwbl, ar gyfer cynorthwywyr y weithrediaeth.**

Nodyn: Os telir uwch-gyflog, bydd pob un yn cyfrif tuag at y cap, fodd bynnag bydd y cap yn cynyddu yn unol â nifer y cynorthwywyr sy'n cael taliadau, yn amodol ar uchafswm statudol o 50 y cant o aelodaeth y cyngor.

# 4. Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu (JOSC)

4.1 Ychydig o ddefnydd a wnaed o’r trefniadau ar gyfer Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Felly mae’r Panel wedi penderfynu dileu'r taliad o'r Fframwaith. Os, yn y dyfodol, y bydd JOSC yn cael ei ffurfio gan gyngor unigol, a’i fod yn dymuno rhoi cydnabyddiaeth ariannol, gall wneud cais am gydnabyddiaeth ariannol gan ddefnyddio trefniadau sydd i’w gweld ym mharagraffau 3.27 a 3.28. Bydd y pwyllgorau JOSC sy’n gweithredu’n barod yn parhau heb fod angen cadarnhad pellach. Mae’r cyflogau perthnasol wedi’u nodi yn y penderfyniadau a ganlyn.

**Penderfyniad 14: Lefel cyflog cadeirydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu fydd £8,793.**

**Penderfyniad 15: Lefel cyflog is-gadeirydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu fydd £4,396.**

## 5. Darpariaeth Pensiwn ar gyfer Aelodau Etholedig o Brif Gynghorau

5.1 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn rhoi pŵer i'r Panel wneud penderfyniadau am hawliau pensiwn ar gyfer aelodau etholedig o brif gynghorau.

**Penderfyniad 16: Bydd yr hawl i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gymwys i holl aelodau etholedig cymwys o brif gynghorau.**

## 6. Hawl i Absenoldeb Teuluol

Mae'r adran hon yn berthnasol i aelodau etholedig o brif awdurdodau.

6.1 Cafodd y Rheoliadau mewn perthynas ag Absenoldeb Teuluol ar gyfer aelodau etholedig o brif gynghorau eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Tachwedd 2013[5] ac maent yn cynnwys absenoldebau mamolaeth, newydd-anedig, mabwysiadu ac absenoldeb rhiant o fusnes swyddogol.

6.2 Bu'r Panel yn ystyried goblygiadau taliadau cydnabyddiaeth i aelodau o’r fath y rhoddir absenoldeb iddynt dan delerau Rheoliadau Llywodraeth Cymru a chaiff penderfyniadau’r Panel eu nodi isod.

**Penderfyniad 17: Mae gan aelod etholedig hawl i gadw cyflog sylfaenol wrth gymryd absenoldeb teuluol dan y rheoliadau gwreiddiol neu unrhyw ddiwygiad i’r rheoliadau, ni waeth beth oedd ei hanes presenoldeb yn union cyn dechrau’r absenoldeb teuluol.**

**Penderfyniad 18: Pan fo deiliad uwch-gyflog yn gymwys i gael absenoldeb teuluol, bydd yn dal i gael y cyflog tra pery’r absenoldeb.**

**Penderfyniad 19: Mater i’r awdurdod yw penderfynu a yw’n mynd i benodi rhywun i ddirprwyo ar ran y sawl sy’n absennol. Bydd yr aelod etholedig sy’n dirprwyo ar ran deiliad uwch-gyflog sy’n cymryd absenoldeb teuluol yn gymwys i gael uwch-gyflog, os yw’r awdurdod yn penderfynu hynny.**

**Penderfyniad 20: Os yw talu cydnabyddiaeth ariannol i’r sawl sy’n dirprwyo’n golygu bod yr awdurdod yn mynd y tu hwnt i’r uchafswm uwch-gyflogau sy’n berthnasol iddo, fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol y Panel, bydd ychwanegiad at yr uchafswm yn cael ei ganiatáu tra pery’r trefniant dirprwyo. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn berthnasol i Gynghorau Ynys Môn na Merthyr Tudful pe bai’n golygu bod nifer yr uwch-gyflogau’n uwch na hanner cant y cant o aelodaeth y Cyngor. Mae’n ofynnol cael cymeradwyaeth benodol gan Weinidogion Cymru dan amgylchiadau o’r fath.**

**Penderfyniad 21: Pan fo Cyngor yn cytuno i dalu i aelod etholedig sy’n dirprwyo yn ystod absenoldeb teuluol, rhaid hysbysu’r Panel o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad, ynghylch y manylion gan gynnwys y swydd benodol a hyd y trefniant dirprwyo.**

**Penderfyniad 22: Rhaid diwygio rhestr cydnabyddiaeth ariannol y Cyngor i adlewyrchu goblygiadau’r absenoldeb teuluol.**

[5] Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013

# 7. Taliadau i Aelodau o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (APCau)

### Strwythur Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

7.1 Mae tri pharc cenedlaethol yng Nghymru – Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro ac Eryri; fe'u ffurfiwyd i warchod tirweddau ysblennydd a darparu cyfleoedd hamdden ar gyfer y cyhoedd. Deddf yr Amgylchedd 1995 a arweiniodd at greu Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) ar gyfer pob parc.

7.2 Mae awdurdodau parciau cenedlaethol yn cynnwys aelodau sydd naill ai'n aelodau etholedig a enwebwyd gan y prif gynghorau o fewn ardal y parc cenedlaethol neu'n aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru drwy'r broses Penodiadau Cyhoeddus. Caiff aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru ac aelodau a enwebwyd gan y cyngor eu trin yn gyfartal o ran cydnabyddiaeth ariannol.

7.3 Caiff strwythur y pwyllgor aelodau ym mhob un o'r tri pharc cenedlaethol ei nodi yn Nhabl 5.

**Tabl 5: Aelodaeth o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru**

| Awdurdod Parc Cenedlaethol | Cyfanswm Aelodaeth | Aelodau a Enwebwyd gan Brif Gynghorau | Aelodau a Benodwyd gan Lywodraeth Cymru |
|---|---|---|---|
| **Bannau Brycheiniog** | 18 | 12:<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – 1<br>Cyngor Sir Gaerfyrddin – 1<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – 1<br>Cyngor Sir Fynwy – 1<br>Cyngor Sir Powys – 6<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf - 1<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – 1 | 6 |
| **Arfordir Penfro** | 18 | 12:<br>Cyngor Sir Penfro – 12 | 6 |
| **Eryri** | 18 | 12:<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – 3<br>Cyngor Gwynedd -9 | 6 |

7.4 Mae gan Bwyllgorau Safonau APCau hefyd aelodau cyfetholedig annibynnol y mae eu cydnabyddiaeth ariannol wedi'i chynnwys yn y Fframwaith fel y nodir yn Adran 9.

7.5 Mae'r Panel wedi seilio'i benderfyniadau ar y pwyntiau allweddol canlynol:

- Mae APCau yn rheoli eu gwaith trwy gyfarfodydd awdurdod ffurfiol, pwyllgorau a grwpiau gorchwyl a gorffen. Mae gan bob un Bwyllgor Datblygu, Pwyllgor Rheoli a/neu Bwyllgor Cynllunio ac mae pwyllgorau

eraill yn cynnwys Perfformiad ac Adnoddau ac Archwilio a Chraffu. Mae aelodau cyffredin o APCau yn aelodau o un pwyllgor o leiaf, yn ogystal â chymryd rhan mewn ymweliadau â safleoedd a phaneli arolygu.

- Mae disgwyl i aelodau gymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi a datblygu.

- Mae gan gadeirydd APC rôl arwain a dylanwadu yn yr awdurdod, rôl gynrychiadol sy'n debyg mewn rhai ffyrdd i rôl pennaeth dinesig a lefel uchel o atebolrwydd. Nid dim ond arweinydd yr awdurdod yw'r cadeirydd, ond y cadeirydd hefyd yw wyneb cyhoeddus y parc cenedlaethol dan sylw a'r cysylltiad â'r Gweinidog ac ASau y mae'n cael cyfarfodydd rheolaidd gyda hwy. Mae'r rôl yn galw am lawer o ymrwymiad ac amser.

**Cyflogau sylfaenol ac uwch-gyflogau**

7.6 Yr ymrwymiad amser y seilir cydnabyddiaeth ariannol aelodau arno fydd 44 diwrnod. Bydd cyflog aelodau APCau yn cynyddu i £4,738.

7.7 Penderfynodd y Panel y dylai cydnabyddiaeth ariannol i gadeirydd APC fod yn gyson â'r rhan o uwch-gyflog Band 3 a delir i gadeirydd pwyllgor prif gyngor. Bydd y cyflog hwn yn cynyddu i £13,531.

7.8 Gall APC bennu nifer yr uwch-swyddi sydd ei angen arno yn unol â'i drefniadau llywodraethu.

7.9 Mae'r Panel wedi gwneud y penderfyniadau canlynol:

**Penderfyniad 23: Y cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau cyffredin o APC fydd £4,738, yn weithredol o 1 Ebrill 2022.**

**Penderfyniad 24: Yr uwch-gyflog ar gyfer cadeirydd APC fydd £13,531, yn weithredol o 1 Ebrill 2022.**

**Penderfyniad 25: Rhaid talu uwch-gyflog APC o £8,478 i ddirprwy gadeirydd os penodir un.**

**Penderfyniad 26: Gellir talu i gadeiryddion pwyllgorau neu uwch-swyddi eraill. Y tâl fydd £8,478.**

**Penderfyniad 27: Ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un uwch-gyflog gan APC.**

**Penderfyniad 28: Caiff uwch-gyflog APC ei dalu gan gynnwys cyflog sylfaenol APC.**

**Penderfyniad 29: Ni chaiff aelodau o brif gyngor sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw APC arall y maent wedi'u penodi iddo. Pan fo'r sefyllfa hon yn berthnasol, cyfrifoldeb yr aelod unigol yw cydymffurfio.**

Sylwer: Nid yw absenoldeb teuluol yn berthnasol i aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru ac mae'r rhai a enwebwyd gan awdurdodau lleol wedi'u cynnwys yn nhrefniadau'r prif gyngor dan sylw, felly nid oes gofyn i APCau wneud unrhyw drefniadau o ran hyn.

# 8. Taliadau i Aelodau o Awdurdodau Tân ac Achub Cymru (ATAau)

### Strwythur Awdurdodau Tân ac Achub

8.1 Mae tri awdurdod tân ac achub (ATAau) yng Nghymru: Ffurfiwyd Awdurdodau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru a De Cymru fel rhan o ad-drefnu Llywodraeth Leol ym 1996.

8.2 Mae ATAau yn cynnwys aelodau etholedig a enwebwyd gan y Prif Gynghorau yn ardaloedd y gwasanaethau tân ac achub.

8.3 Caiff strwythur pob un o'r tri ATA ei nodi yn Nhabl 6.

**Tabl 6: Aelodau Awdurdodau Tân ac Achub**

| Awdurdod Tân ac Achub | Nifer yr Aelodau a enwebwyd gan Awdurdodau Lleol |
|---|---|
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | 25:<br>Cyngor Sir Caerfyrddin – 5<br>Cyngor Sir Ceredigion – 2<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot – 4<br>Cyngor Sir Penfro – 3<br>Cyngor Sir Powys – 4<br>Cyngor Dinas a Sir Abertawe – 7 |
| Gogledd Cymru | 28:<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – 5<br>Cyngor Sir Ddinbych – 4<br>Cyngor Sir y Fflint – 6<br>Cyngor Gwynedd – 5<br>Cyngor Sir Ynys Môn – 3<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – 5 |
| De Cymru | 24:<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – 2<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – 1<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – 3<br>Cyngor Dinas Caerdydd – 5<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – 1<br>Cyngor Sir Fynwy – 2<br>Cyngor Dinas Casnewydd – 2<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – 4<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen – 2<br>Cyngor Bro Morgannwg – 2 |

8.4 Hefyd mae gan Bwyllgorau Safonau ATAau aelodau cyfetholedig annibynnol, y mae eu cydnabyddiaeth ariannol wedi'i chynnwys yn y Fframwaith fel y nodir yn Adran 9.

8.5 Wrth ystyried cydnabyddiaeth ariannol i aelodau o ATAau, mae'r Panel wedi seilio'i benderfyniadau ar y pwyntiau allweddol canlynol:

- Mae gan y Cadeirydd rôl arwain a dylanwadu yn yr awdurdod, a lefel uchel o atebolrwydd, yn enwedig wrth i faterion dadleuol godi sy'n ymwneud â'r gwasanaeth brys. Yn ogystal â chyfarfodydd yr awdurdod tân, mae gan bob ATA bwyllgorau sy'n cynnwys, mewn gwahanol gyfuniadau: archwilio, rheoli perfformiad, craffu, adnoddau dynol, rheoli adnoddau yn ogystal â grwpiau gorchwyl a gorffen a phaneli disgyblu. Yn ogystal â mynychu cyfarfodydd ffurfiol yr awdurdod a'r pwyllgorau, mae aelodau yn cael eu hannog i ymgymryd â rôl ymgysylltu â'r gymuned, gan gynnwys ymweld â gorsafoedd tân.

- Mae ethos hyfforddi cryf mewn ATAau. Disgwylir i aelodau gymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi a datblygu. Mae rhaglenni sefydlu ar gael, yn ogystal â hyfforddiant arbenigol ar gyfer apeliadau a gwrandawiadau disgyblu.

- Ychwanegir sesiynau hyfforddi'n aml at gyfarfodydd awdurdod i sicrhau bod hyfforddiant yn hygyrch.

**Cyflogau Sylfaenol ac Uwch-gyflogau**

8.6 Yr ymrwymiad amser y seilir cydnabyddiaeth ariannol arno fydd 22 diwrnod. Bydd cyflog aelodau o ATAau yn codi i £2,369.

8.7 Penderfynodd y Panel y dylai cydnabyddiaeth ariannol i gadeirydd ATA fod yn gyson â'r rhan o uwch-gyflog ym Mand 3 a delir i gadeirydd pwyllgor prif gyngor. Bydd y cyflog hwn yn cynyddu i £11,162.

8.8 Penderfynodd y Panel y bydd cydnabyddiaeth ariannol i ddirprwy gadeirydd ATA yn cael ei chysoni â'r uwch-gyflog ym Mand 5 ar gyfer prif gynghorau. Bydd yn cynyddu i £6,109 a bydd rhaid ei thalu os bydd yr awdurdod yn penodi dirprwy gadeirydd.

8.9 Mae'r ATA yn pennu nifer yr uwch-swyddi sydd ei angen arno yn unol â'i drefniadau llywodraethu. Bydd cadeiryddion pwyllgorau ac unrhyw uwch-swyddi eraill, os cânt eu talu, yn cael eu cysoni â Band 5. Bydd hon yn codi i £6,109.

**Byrddau Pensiwn Lleol**

8.10 Mae'r Panel wedi ystyried ceisiadau gan ATAau i ganiatáu iddynt dalu cyflogau i gadeiryddion byrddau pensiwn lleol a sefydlwyd dan Reoliadau Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015. Mae'r Rheoliadau hynny eisoes yn rhoi'r pŵer i ATAau benderfynu sut y dylai byrddau pensiwn lleol weithio a thalu i'r cadeirydd ac aelodau os ydynt yn dymuno. Felly nid yw'n briodol i'r Panel wneud penderfyniad sy'n grymuso ATAau i dalu cyflogau i gadeiryddion byrddau pensiwn lleol. Ni ellir defnyddio'r uwch-gyflogau ym Mhenderfyniad 31 na 32 ar gyfer y rôl hon yn unig.

8.11 Mae'r Panel wedi gwneud y penderfyniadau canlynol:

**Penderfyniad 30: Y cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau cyffredin o ATA fydd £2,369, yn weithredol o 1 Ebrill 2022.**

**Penderfyniad 31: Yr uwch-gyflog ar gyfer cadeirydd ATA fydd £11,162, yn weithredol o 1 Ebrill 2022.**

**Penderfyniad 32: Rhaid talu uwch-gyflog ATA o £6,109 i ddirprwy gadeirydd os penodir un.**

**Penderfyniad 33: Gellir talu i gadeiryddion pwyllgorau neu uwch-swyddi eraill. Y tâl fydd £6,109.**

**Penderfyniad 34: Ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un uwch-gyflog gan ATA.**

**Penderfyniad 35: Telir uwch-gyflog ATA gan gynnwys cyflog sylfaenol yr ATA a rhaid iddo adlewyrchu cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus.**

**Penderfyniad 36: Ni chaiff aelodau o brif gyngor sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw ATA arall y maent wedi'u henwebu iddo. Pan fo'r sefyllfa hon yn berthnasol, cyfrifoldeb yr aelod unigol yw cydymffurfio.**

# 9. Taliadau i Aelodau Cyfetholedig o Brif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub [6]

9.1 Mae’r Panel wedi penderfynu bod ffi ddyddiol neu hanner diwrnod yn gydnabyddiaeth ariannol briodol am y rôl bwysig a gyflawnir gan aelodau cyfetholedig o awdurdodau sydd â hawliau pleidleisio.

9.2 Mae nifer y dyddiau mewn unrhyw un flwyddyn y gall aelodau cyfetholedig gael tâl amdanynt yn amrywio gan ddibynnu ar waith penodol y pwyllgor dan sylw. Felly, mae’r cyd-destun hwn ar gyfer taliad yn wahanol i’r cyd-destun ar gyfer aelodau etholedig o brif gynghorau sy’n darparu taliad misol. Dywed llawer o aelodau etholedig o brif gynghorau eu bod yn dibynnu ar hwn fel rhan o incwm craidd, a hebddo ni fyddent yn gallu parhau yn y rôl.

9.3 Mewn trafodaeth â’r Panel, cydnabu aelodau cyfetholedig bwysigrwydd y ffioedd y maent yn eu cael ond nid ydynt yn ystyried y taliadau hyn yn incwm ar gyfer byw y maent yn dibynnu arno. Caiff penderfyniadau’r Panel ynghylch ffioedd aelodau cyfetholedig eu gwneud yn y cyd-destun hwn ac felly nid oes modd cymharu unrhyw ymgodiadau â’r newidiadau i gyflogau aelodau etholedig.

9.4 Gan gydnabod swyddogaeth bwysig aelodau cyfetholedig, rhaid rhoi taliadau am amser teithio a pharatoi, pwyllgorau a chyfarfodydd o fathau eraill yn ogystal â gweithgareddau eraill, gan gynnwys hyfforddiant, fel y nodir ym Mhenderfyniadau 38 i 41.

9.5 Mae'r penderfyniadau wedi'u nodi isod. Rhaid i brif gynghorau, APCau ac ATAau ddweud wrth aelodau cyfetholedig beth yw enw'r swyddog penodol a fydd yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol iddynt ar gyfer eu hawliadau; a rhoi gwybod i'r swyddog hwnnw am yr ystod o daliadau y dylid eu gwneud.

**Penderfyniad 37: Rhaid i Brif Gynghorau, APCau ac ATAau dalu’r ffioedd canlynol i aelodau cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio (Tabl 7).**

**Tabl 7:** Ffioedd ar gyfer aelodau cyfetholedig (sydd â hawliau pleidleisio)

| | |
|---|---|
| Cadeiryddion pwyllgorau safonau a phwyllgorau archwilio | £268<br>(4 awr a mwy)<br>£134 (hyd at 4 awr) |
| Aelodau cyffredin o bwyllgorau safonau sydd hefyd yn cadeirio pwyllgorau safonau ar gyfer cynghorau tref a chymuned | £238 o ffi ddyddiol<br>(4 awr a mwy)<br>£119 (hyd at 4 awr) |
| Aelodau cyffredin pwyllgorau safonau; pwyllgor craffu addysg; pwyllgor craffu troseddau ac anhrefn a phwyllgor archwilio | £210<br>(4 awr a mwy)<br>£105 (hyd at 4 awr) |

| | |
|---|---|
| Cynghorau tref a chymuned sy'n eistedd ar bwyllgorau safonau prif gynghorau | £210<br>(4 awr a mwy)<br>£105 (hyd at 4 awr) |

**Penderfyniad 38: Mae amser rhesymol i baratoi cyn cyfarfodydd yn gymwys i'w gynnwys mewn hawliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig – gall swyddog priodol benderfynu faint cyn y cyfarfod.**

**Penderfyniad 39: Gellir cynnwys amser teithio i'r cyfarfod ac oddi yno yn yr hawliadau am daliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).**

**Penderfyniad 40: Rhaid i swyddog priodol yn yr awdurdod bennu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer diwrnod llawn ac fe delir ffi ar sail y penderfyniad hwn, hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn gorffen cyn diwedd pedair awr.**

**Penderfyniad 41: Rhaid talu ffioedd am gyfarfodydd a gweithgareddau eraill gan gynnwys pwyllgorau a gweithgorau eraill (gan gynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen), cyfarfodydd rhagarweiniol gyda swyddogion, hyfforddiant a phresenoldeb mewn cynadleddau neu unrhyw gyfarfod ffurfiol arall y gofynnir i aelodau cyfetholedig ei fynychu.**

**Cymorth ar gyfer aelodau cyfetholedig**

**Penderfyniad 42: Dylai pob awdurdod sicrhau, drwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd neu bwyllgor priodol arall, fod ei holl aelodau cyfetholedig sydd â phleidlais yn cael cymaint o gymorth ag sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Dylai cymorth o'r fath fod heb gostau i'r aelod unigol.**

[6] Nid yw'r adran hon yn berthnasol i aelodau cyfetholedig o gynghorau tref a chymuned.

# 10. Cyfraniad tuag at gostau Gofal a Chymorth Personol

10.1 Mae'r adran hon yn berthnasol i aelodau o brif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Tân ac Achub ac i aelodau cyfetholedig o'r awdurdodau hyn. Dyma'r un ddarpariaeth ar gyfer cynghorau cymuned a thref.

10.2 Diben yr adran hon yw galluogi pobl ag anghenion cymorth personol a/neu gyfrifoldebau gofalu i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol fel aelod o awdurdod. Mae'r Panel o'r farn na ddylai'r costau gofal ychwanegol sy'n ofynnol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy atal unrhyw unigolion rhag dod yn aelod neu barhau i fod yn aelod o awdurdod na chyfyngu ar eu gallu i gyflawni'r rôl. Mae'r Panel wedi mabwysiadu egwyddorion penodol o ran cymorth ar gyfer costau gofal a oedd yn destun Adroddiad Atodol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020. Mae'r egwyddorion hyn i'w gweld yn nhabl 8.

10.3 Adolygodd y Panel drefniadau'r cymorth ariannol hwn ac mae wedi gwneud y newidiadau canlynol:

a) Gan fod taliadau'n drethadwy o dan reolau presennol CThEM, nid yw ad-daliad llawn yn bosibl felly i fod yn glir mae'n cael teitl newydd sef "cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol". Bydd angen derbynebau gyda hawliadau o hyd.

b) Gellir gwneud hawliad mewn perthynas â dibynnydd o dan 16 mlwydd oed neu berson ifanc dan oed neu oedolyn sydd fel arfer yn byw gyda'r aelod fel rhan o'i deulu ac na ellir ei adael heb oruchwyliaeth.

c) Gellir hawlio ad-daliad ar gyfer anghenion gofal neu gymorth yr aelod pan nad yw'r cymorth a/neu gost unrhyw anghenion ychwanegol ar gael gan yr awdurdod, neu pan nad yw'r awdurdod yn talu'n uniongyrchol amdanynt, megis Mynediad i Waith, Taliadau Annibyniaeth Personol, Yswiriant. Gallai'r rhain ddod i'r amlwg pan fo'r anghenion yn rhai diweddar a/neu dros dro.

10.4 Dylai aelodau, gan gynnwys aelodau cyfetholedig, gael yr hawl i ad-daliad o'u costau gofal, ar gyfer gweithgareddau y mae'r cyngor unigol wedi'u dynodi'n fusnes swyddogol neu'n ddyletswydd gymeradwy a allai gynnwys amser priodol a rhesymol ar gyfer paratoi a theithio. Mater i'r awdurdodau unigol yw penderfynu ar drefniadau penodol i roi hyn ar waith. Rhaid i bob awdurdod sicrhau bod unrhyw daliadau a wneir â chysylltiad priodol â busnes swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy.

10.5 Adolygodd y Panel y taliad misol uchaf gan gydnabod nad yw wedi newid ers sawl blwyddyn. Mae gwybodaeth yn dynodi bod costau misol a hawliadau yn amrywio'n sylweddol. Gall y rhain ddibynnu ar nifer y dibynyddion, eu hoedrannau a ffactorau eraill. Felly, bydd y trefniadau canlynol yn disodli'r cap misol:

- Costau gofal ffurfiol (wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru) i'w talu yn unol â thystiolaeth.
- Costau gofal anffurfiol (heb gofrestru) i'w talu hyd at gyfradd uchaf sy'n gyfwerth â [Chyflog Byw Gwirioneddol y DU] ar yr adeg pan aethpwyd i'r costau.

I fod yn glir, ni ellir talu costau gofal i rywun sy'n rhan o aelwyd yr aelod.

10.6 Mae'r Panel yn parhau i gydnabod y materion sy'n gysylltiedig â chyhoeddi'r draul ddilys hon ac mae wedi cadw'r gofynion cyhoeddi a nodir yn [Atodiad 4]. I gefnogi aelodau presennol ac i annog amrywiaeth, mae'r Panel yn erfyn ar awdurdodau i hybu ac annog mwy o aelodau i hawlio'r cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol.

**Tabl 8**

**Egwyddorion y Panel o ran Gofal a Chymorth Personol**

| **Y lleiafswm y dylai'r Awdurdodau ei wneud** | | **Sut mae mynd ati i wneud hyn** |
|---|---|---|
| Nodi'n glir ar gyfer pwy mae'r gofal | Aelodau sydd â phrif gyfrifoldeb am ofalu am blentyn neu oedolyn a/neu sydd ag anghenion cymorth personol lle nad yw'r rhain yn dod o dan ddarpariaeth statudol neu ddarpariaeth arall.<br><br>Hawliau cymorth personol. Gallai hefyd gynnwys cyflwr byrdymor neu gyflwr diweddar nad yw'n berthnasol i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mynediad i waith, Taliadau Personol, yswiriant neu ddarpariaeth arall. | Adolygiad cyfrinachol o anghenion aelodau unigol yn flynyddol a phan fo amgylchiadau'n newid. |
| Gwella ymwybyddiaeth | Sicrhau bod darpar ymgeiswyr, ymgeiswyr ac aelodau cyfredol yn gwybod bod cymorth ariannol ar gael iddynt os yw eu hamgylchiadau cyfredol neu eu hamgylchiadau yn y dyfodol yn mynnu hynny. | Sicrhau bod gwybodaeth glir a hygyrch ar gael ar y wefan ac mewn deunyddiau ynghylch etholiad a phenodi, mewn sesiynau cysgodi ac yn y sesiwn gynefino ac yn "llawlyfr" yr aelodau. Atgoffa aelodau presennol drwy e-bost a neu hyfforddiant. Cyfeirio at daflenni'r Panel yn ymwneud â [Thaliadau i Gynghorwyr]. |
| Hyrwyddo diwylliant cadarnhaol | Sicrhau bod yr holl aelodau yn deall y rheswm dros ofal a chymorth personol ac yn cefnogi ac yn annog eraill i hawlio os oes angen. | Anogaeth o fewn ac ar draws yr holl bleidiau yn yr awdurdodau perthnasol i gefnogi aelodau i hawlio. Cytuno i beidio â hysbysebu |

| | | |
|---|---|---|
| | | neu gyhoeddi unrhyw benderfyniadau unigol i beidio â hawlio. |
| Amlinellu'r dyletswyddau a gymeradwywyd ar gyfer hawlio ad-daliad gofal a chymorth personol | **Cyfarfodydd** – ffurfiol (y rhai y mae'r awdurdod yn eu galw) a'r rhai sy'n angenrheidiol i waith aelodau (i ymdrin â materion yr etholaeth ond nid materion y blaid) a datblygiad personol (hyfforddiant a gwerthusiadau.)<br><br>**Teithio** – mewn cysylltiad â mynd i gyfarfodydd.<br><br>**Paratoi** – mae darllen a gweinyddu yn rhan o rôl yr aelod. Ar gyfer rhai cyfarfodydd a phwyllgorau, mae angen gwneud llawer iawn o waith darllen, dadansoddi neu ddrafftio cyn neu ar ôl y cyfarfod.<br><br>Efallai y bydd gan ddeiliaid cyflogau uwch, sydd â dyletswyddau ychwanegol, gostau uwch. | Mater o ffaith yw dyletswyddau a gymeradwyir fel rheol. Mae dehongliad o Reoliadau'r Panel wedi'i nodi yn yr Adroddiad Blynyddol.<br><br>"Unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwyir gan yr awdurdod, neu unrhyw ddyletswydd o ddosbarth a gymeradwyir felly, ac yr ymgymerir â hi at ddibenion cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu unrhyw un o'i bwyllgorau neu mewn cysylltiad â'u cyflawni." |
| Bod mor hyblyg â phosibl o ran y gwahanol fathau o gymorth y gellid hawlio ar eu cyfer | Ni ddylai Aelodau fod ar eu colled yn amodol ar y terfyn a bennwyd yn yr Adroddiad Blynyddol.<br><br>Mae modelau ac anghenion gofal yn amrywio.<br><br>Gall Aelodau ddefnyddio cyfuniad o sawl dewis gofal.<br><br>Gall patrymau gofal amrywio dros y flwyddyn ddinesig ac academaidd.<br><br>Nid yw pob gofal yn seiliedig ar gyfraddau fesul awr (neu ran o awr).<br><br>Os oes rhaid talu am sesiwn gyfan, rhaid ad-dalu'r gost yn llawn hyd yn oed os mai ond rhan o sesiwn a oedd ei angen.<br><br>Gall fod angen i Aelodau wneud y canlynol:<br>• archebu a thalu am sesiynau ymlaen llaw<br>• ymrwymo i gontract bloc: wythnos, mis neu dymor<br>• talu am sesiynau a gafodd eu | |

| | | |
|---|---|---|
| | canslo ar fyr rybudd<br><br>Os yw'r angen am ofal mynd ymlaen i ail sesiwn, dylid ad-dalu cost y ddwy sesiwn | |
| Cynnal proses hawlio syml ac effeithiol | Dylai'r aelodau wybod sut i hawlio.<br><br>Dylai'r broses hawlio fod yn glir, yn gymesur ac yn archwiliadwy. | Sicrhau bod aelodau yn deall sut i hawlio a'i bod yn hawdd gwneud hynny<br><br>Hyblygrwydd i dderbyn anfonebau di-bapur<br>Ffurflen ar-lein<br>Yr un ffurflen neu ffurflen debyg ar gyfer hawlio costau teithio |
| Cydymffurfio â rheolau'r Panel ran cyhoeddi | Mae Fframwaith y Panel yn nodi:<br><br>"Mewn perthynas â chyhoeddi ad-daliadau costau gofal, mae'r Panel wedi penderfynu mai dim ond y cyfanswm a ad-dalwyd yn ystod y flwyddyn y dylai'r awdurdodau perthnasol ei gyhoeddi. Mater i bob awdurdod yw penderfynu ar ei ymateb i unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth y bydd yn eu derbyn. Fodd bynnag, ni fwriedir i fanylion unrhyw hawliadau unigol gael eu datgelu." | |

**Penderfyniad 43: Rhaid i'r holl awdurdodau perthnasol ddarparu taliad tuag at gostau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol fel a ganlyn:**

- **Costau gofal ffurfiol (wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru) i'w talu yn unol â thystiolaeth.**
- **Costau gofal anffurfiol (heb gofrestru) i'w talu hyd at gyfradd uchaf sy'n gyfwerth â Chyflog Byw Gwirioneddol y DU ar yr adeg pan aethpwyd i'r costau.**

**Rhaid i hyn fod am y costau ychwanegol a ysgwyddwyd gan aelodau i'w galluogi i gyflawni busnes swyddogol neu ddyletswyddau cymeradwy. Rhaid i bob awdurdod sicrhau bod unrhyw daliadau a wneir yn gysylltiedig â busnes swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy, fel sy'n briodol. Ni ddylid gwneud taliadau nes bydd derbynebau gan y darparwr gofal wedi'u darparu.**

# 11. Absenoldeb Oherwydd Salwch i Ddeiliaid Uwch-gyflogau

11.1 Mae'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol (a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn 2014) yn benodol iawn mewn perthynas â hawliau a dim ond i aelodau etholedig o brif gynghorau y maent ar gael. Nid yw absenoldeb oherwydd salwch wedi'i gynnwys.

11.2 Mae achosion wedi cael eu dwyn i sylw'r Panel sy'n ymwneud â deiliaid uwch-gyflogau ar salwch hirdymor a'r annhegwch canfyddedig o'i gymharu â'r trefniadau ar gyfer absenoldeb teuluol. O ganlyniad, mae cynghorau'n wynebu'r cyfyng-gyngor canlynol:

- gweithredu heb yr aelod unigol ond parhau i dalu'r uwch-gyflog iddo.
- disodli'r aelod, sydd felly'n colli'r uwch-gyflog (ond yn cadw'r cyflog sylfaenol).

11.3 Mae Fframwaith y Panel yn darparu trefniadau penodol ar gyfer salwch hirdymor fel y nodir isod:

a) Caiff salwch hirdymor ei ddiffinio fel absenoldebau ardystiedig y tu hwnt i 4 wythnos.

b) Uchafswm hyd absenoldeb oherwydd salwch o fewn y cynigion hyn yw 26 wythnos neu nes bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, pa un bynnag sydd gyntaf (ond os bydd yn cael ei ailbenodi bydd unrhyw ran o'r 26 wythnos sy'n weddill yn cael ei chynnwys).

c) O fewn y terfynau hyn gall deiliad uwch-gyflog sydd ar absenoldeb hirdymor oherwydd salwch barhau i gael cydnabyddiaeth ariannol am y swydd a ddelir os yw'r awdurdod yn penderfynu hynny.

d) Mater i'r awdurdod yw penderfynu a yw'n mynd i benodi rhywun i ddirprwyo ar ran y sawl sy'n absennol ond bydd yr aelod etholedig sy'n dirprwyo yn gymwys i gael yr uwch-gyflog sy'n briodol i'r swydd.

e) Os yw talu cydnabyddiaeth ariannol i'r sawl sy'n dirprwyo yn golygu bod yr awdurdod yn mynd y tu hwnt i'r uchafswm uwch-gyflogau sy'n berthnasol i'r awdurdod hwnnw, fel y nodir yn yr Adroddiad Blynyddol, bydd ychwanegiad at yr uchafswm yn cael ei ganiatáu tra pery'r trefniant dirprwyo. (Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn berthnasol i gynghorau Ynys Môn na Merthyr Tudful pe bai'n golygu bod mwy na 50% o'r aelodaeth yn cael uwch-gyflog. Ni fyddai'n berthnasol ychwaith mewn perthynas ag aelod o weithrediaeth cyngor pe bai'n golygu bod y cabinet yn mynd y tu hwnt i 10 swydd – yr uchafswm statudol).

f) Pan fo'r Cyngor yn cytuno i dalu i aelod etholedig sy'n dirprwyo, rhaid hysbysu'r Panel, a hynny o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad, ynghylch y manylion gan gynnwys y swydd benodol a hyd disgwyliedig y trefniant dirprwyo. Rhaid diwygio Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol yr

awdurdodau yn unol â hynny.

g) Nid yw'n berthnasol i aelodau etholedig o brif gynghorau nad ydynt yn ddeiliaid uwch-swyddi gan eu bod yn parhau i gael cyflog sylfaenol am o leiaf chwe mis, ni waeth beth fo'u presenoldeb, a mater i'r awdurdod yw unrhyw estyniad y tu hwnt i'r raddfa amser hon.

11.4 Mae'r trefniant hwn yn berthnasol i aelodau o brif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub sy'n ddeiliaid uwch-gyflogau, gan gynnwys aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru, ond nad ydynt yn aelodau cyfetholedig.

Sylwer:

Mae'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol yn berthnasol i aelodau etholedig mewn achosion o absenoldeb mamolaeth, newydd-anedig, mabwysiadu ac absenoldeb rhiant o fusnes swyddogol. Nid ydynt yn berthnasol i aelodau o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a benodwyd gan Lywodraeth Cymru.

## 12. Ad-dalu Costau Teithio a Chynhaliaeth pan fo'r Aelod ar Fusnes Swyddogol

12.1 Mae'r adran hon yn berthnasol i aelodau o brif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Awdurdodau Tân ac Achub ac i aelodau cyfetholedig o'r awdurdodau hyn. (Rhoddir darpariaeth debyg ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yn Adran 13 gan fod dull gwahanol yn berthnasol i aelodau o'r fath, sef yn bennaf bod y ddarpariaeth yn ganiataol.)

12.2 Gall aelodau hawlio ad-daliadau ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth (prydau a llety) lle mae'r rhain wedi deillio o ganlyniad i gyflawni busnes neu ddyletswyddau cymeradwy swyddogol.

12.3 Caiff treuliau a ad-delir i aelodau prif gynghorau, gan eu prif gyngor, eu heithrio rhag treth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol cyflogeion. Mae'n bosibl y bydd aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub yn destun trefniadau eraill fel y'u pennwyd gan CThEM.

12.4 Mae'r Panel yn ymwybodol bod aelodau ag anableddau wedi bod yn gyndyn o hawlio treuliau teithio dilys mewn rhai achosion oherwydd ymateb anffafriol yn dilyn cyhoeddi eu costau teithio. Fel dewis arall, gallai trefniadau teithio gael eu gwneud yn uniongyrchol gan yr awdurdod dan amgylchiadau o'r fath.

12.5 Mae'r Panel wedi penderfynu na fydd unrhyw newid i gyfraddau milltiredd y mae gan aelodau hawl i'w hawlio. Dim ond yn ôl cyfraddau cyfredol CThEM y gall yr holl awdurdodau ad-dalu costau teithio eu haelodau sy'n ymgymryd â busnes swyddogol o fewn a/neu'r tu allan i ffiniau'r awdurdod, ac mae'r cyfraddau hyn fel a ganlyn:

**Ad-dalu costau milltiredd**

| | |
|---|---|
| 45c y filltir | Hyd at 10,000 o filltiroedd mewn blwyddyn mewn car |
| 25c y filltir | Dros 10,000 o filltiroedd mewn blwyddyn mewn car |
| 5c y filltir | Am bob teithiwr sy'n cael ei gludo ar fusnes yr awdurdod |
| 24c y filltir | Beiciau modur |
| 20c y filltir | Beiciau |

12.6 Lle mae aelod sydd ar fusnes swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy yn cael ei gludo gan drydydd parti (nad yw'n un o aelodau na swyddogion yr awdurdod hwnnw), gall yr aelod hawlio milltiredd yn ôl y cyfraddau a ragnodir ac unrhyw ffioedd parcio neu dollau ar yr amod bod yr awdurdod wedi'i argyhoeddi bod yr aelod wedi ysgwyddo'r costau hyn.

**Ad-dalu costau teithio eraill**

12.7 Rhaid i'r holl hawliadau eraill am gostau teithio (gan gynnwys teithio mewn

tacsi os mai dyna'r unig ddull cludiant neu'r dull cludiant mwyaf addas) gael eu had-dalu dim ond os dangosir derbynebau sy'n dangos y gost wirioneddol a byddant yn amodol ar unrhyw ofyniad neu gyfyngiad pellach y gall awdurdod ei bennu. Dylai aelodau bob amser fod yn ymwybodol o'r angen i ddewis y dull teithio mwyaf costeffeithiol.

**Ad-dalu costau cynhaliaeth**

| | |
|---|---|
| £28 y dydd | Lwfans dydd ar gyfer prydau, gan gynnwys brecwast, lle nad yw'n cael ei ddarparu yn y tâl am aros dros nos |
| £200 y nos | Llundain |
| £95 y nos | Ardaloedd eraill |
| £30 y nos | Aros gyda ffrindiau a/neu deulu |

12.8 Mae'r cyfraddau hyn yn unol â chyfraddau Llywodraeth Cymru. Argymhellir bod yr awdurdod perthnasol fel arfer yn archebu llety dros nos ac yn talu amdano ar ran aelodau, ac mewn achos o'r fath gall awdurdod bennu ei derfynau rhesymol ei hun ac nid yw'r terfynau sy'n berthnasol pan fo aelod unigol yn hawlio'n ôl-ddyledus am lety dros nos yn berthnasol bryd hynny.

12.9 Rhaid i bob awdurdod barhau i ad-dalu costau cynhaliaeth ar gyfer eu haelodau hyd at y cyfraddau uchaf a nodir uchod ar sail hawliadau gyda derbynebau, ac eithrio ar achlysuron lle mae aelodau'n aros gyda ffrindiau a/neu deulu.

12.10 Efallai y bydd achosion lle bydd awdurdod wedi pennu bod costau teithio o fewn ei ffiniau'n daladwy a bod angen ailadrodd y daith ar ddiwrnodau olynol. Lle y bo'n rhesymol ac yn gost-effeithiol ad-dalu costau llety dros nos yn hytrach na chostau milltiredd dyddiol dro ar ôl tro, ceir caniatâd i wneud hynny.

12.11 Nid oes angen dyrannu'r gyfradd ddyddiol uchaf (£28 y dydd) rhwng gwahanol brydau, gan fod y gyfradd ddyddiol uchaf ad-daladwy yn cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio am unrhyw bryd os yw hynny'n berthnasol, cyn belled ag y cyflwynir derbynebau gyda hawliad o'r fath.

**Parcio Ceir Aelodau**

Mae gan nifer o gynghorau drefniadau penodol ar gyfer eu haelodau o ran parcio ceir. Mae'r Panel o'r farn mai mater i gynghorau unigol yw penderfynu ar drefniadau gan gynnwys taliadau i, a gan, aelodau, ar yr amod ei fod yn benderfyniad ffurfiol gan y cyngor.

## 13. Taliadau i Aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned

13.1 Mae’r Panel yn cydnabod bod amrywiadau eang o ran daearyddiaeth, cwmpas a graddfa ar draws y 735 o gynghorau tref a chymuned yng Nghymru, o gynghorau cymuned bychain â gwariant cymharol isel ac ychydig o gyfarfodydd i gynghorau tref mawr ag asedau a chyfrifoldebau sylweddol. Mae hyn, a’r ffaith nad oes cynghorau ym mhob ardal etholiadol, wedi’i gwneud yn fwy anodd sefydlu trefniadau cydnabyddiaeth tâl nag mewn awdurdodau eraill perthnasol. Oherwydd hyn, penderfynodd y Panel y dylid cynnal adolygiad sylfaenol yn barod ei weithredu o ddyddiad yr etholiadau ar 5 Mai 2022.

13.2 Wrth gynnal yr adolygiad, penderfynodd y Panel ei bod yn hanfodol i gysylltu’n gynhwysfawr gyda chynghorau tref a chymuned a sefydliadau cynrychioliadol, gan ymrwymo i ymgynghori ar y cynigion sy’n deillio o’r adolygiad. Canlyniad yr ymgynghoriad oedd bod llawer iawn o gefnogaeth ar gyfer y cynigion newydd ac felly mae’r Panel wedi penderfynu cyflwyno’r Fframwaith newydd fel y nodwyd yn yr adran hon.

13.3 Er mwyn gweithredu a chyflawni dyletswyddau fel aelod o gyngor cymuned neu dref, rhaid i bob person wneud datganiad swyddogol yn derbyn y swydd. Yn dilyn y datganiad hwn, bydd aelodau o gynghorau cymuned neu dref yn dal swyddi etholedig ac yn rhan o strwythur llywodraeth leol Cymru. Mae'n bwysig nodi bod person sy'n dilyn y trywydd hwn mewn sefyllfa wahanol i fathau eraill o weithgareddau, er enghraifft gwirfoddoli neu waith elusennol, sydd fel rheol yn dod o dan Gomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr.

13.4 Dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae cynghorau cymuned a thref yn awdurdodau perthnasol at ddibenion cydnabyddiaeth ariannol.

13.5 O ganlyniad, bydd hawl gan unigolion sydd wedi derbyn swydd fel aelod o gyngor cymuned neu dref i gael taliadau yn unol â phenderfyniad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Dyletswydd swyddog priodol o'r cyngor (Clerc y Cyngor fel rheol) yw trefnu bod pob unigolyn sydd â hawl i gael ei dalu yn cael y taliadau cywir.

13.6 Dylai aelodau dderbyn arian y mae ganddynt hawl ei dderbyn yn gyffredinol.

13.7 Gall unigolyn wrthod derbyn taliad yn rhannol neu'n llwyr os yw’n dymuno gwneud hynny. Rhaid i hynny gael ei wneud yn ysgrifenedig, ac mae'n fater i'r unigolyn. Rhaid i aelod o gyngor cymuned neu dref sydd am wrthod taliadau ysgrifennu'n bersonol at y swyddog priodol i wneud hynny.

13.8 Mae’r Panel yn credu y dylai unrhyw aelod sydd ag anghenion personol, anghenion cymorth neu gyfrifoldebau gofalu gael ei alluogi i gyflawni ei rôl. Felly, mae’r Panel yn gorchymyn cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol i holl aelodau o gynghorau cymuned a thref fel y nodir ym Mhenderfyniad 43.

13.9 Rhaid i bob cyngor cymuned a thref sicrhau nad yw’n creu amgylchedd sy’n atal

personau rhag cael at unrhyw arian y mae ganddynt hawl iddo ac a allai eu helpu i gymryd rhan mewn democratiaeth leol. Dylid gwneud taliadau yn effeithlon ac yn brydlon.

13.10 Ni all aelodau sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 gan brif gyngor gael unrhyw daliad gan gyngor tref neu gymuned, ac eithrio costau teithio a chynhaliaeth a chyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn eu hatal rhag dal uwch-swydd (Arweinydd, Dirprwy Arweinydd) heb daliad.

13.11 Mae Tabl 12 yn gosod y camau y mae'n rhaid i gynghorau cymuned a thref eu cymryd yn flynyddol o ran y penderfyniadau a ganlyn.

**Tabl 9: Grwpiau Cynghorau Tref a Chymuned**

Y grwpiau cyfredol yw:

| Grŵp Cynghorau Tref a Chymuned | Incwm *neu* Wariant yn 2020-21 |
|---|---|
| A | £200,000 ac uwch |
| B | £30,000 – £199,999 |
| C | Islaw £30,000 |

13.12 Mae'r rhain yn seiliedig yn gyfan gwbl ar gyllid. Rydym yn cydnabod barn llawer o ymatebwyr bod hyn yn gyfyngol. Felly bydd 5 Grŵp yn cael eu sefydlu yn seiliedig ar faint etholaeth y cyngor.

**Tabl 10**

| Rhif y Grŵp | Maint yr Etholaeth |
|---|---|
| Grŵp 1 | Etholaeth o fwy na 14,000 |
| Grŵp 2 | 10,000 i 13,999 |
| Grŵp 3 | 5,000 i 9,999 |
| Grŵp 4 | 1,000 i 4,999 |
| Grŵp 5 | O dan 1,000 |

13.3 Yn ogystal, bydd ail ffactor ar gyfer penderfynu ym mha grŵp fydd y cyngor yn cael ei leoli. Os yw'r incwm neu wariant yn fwy na £200,000 y flwyddyn, bydd yn cael ei symud i'r grŵp nesaf,

**Taliadau tuag at gostau a threuliau**

13.14 Mae'r Panel yn parhau i'w gwneud yn ofynnol i dalu £150 fel cyfraniad ar gyfer costau a threuliau pob aelod o gyngor tref a chymuned, ac eithrio ar gyfer cynghorau yn Grŵp 5 pan fydd yn ddewisol,.

13.15 Nid oes angen derbynebau ar gyfer y taliadau hyn.

**Penderfyniad 44: Rhaid i bob cyngor cymuned a thref sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i'w aelodau fel cyfraniad tuag at gostau a threuliau, ac eithrio'r cynghorau yn Grŵp 5 pan fo'r taliad yn ddewisol.**

**Trethu**

13.16 Codwyd y mater o drethu'r taliad o £150 ar sawl achlysur ac mae wedi'i gynnwys yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad diweddar. Fel y nodwyd yn glir, nid oes gan y Panel gylch gwaith mewn perthynas â materion yn ymwneud â threthu ond y mae wedi cael gwybod am y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a CThEM i sefydlu eithriad posibl sy'n berthnasol i'r holl gynghorau tref a chymuned. Os oes canlyniad positif, ni fydd o fewn amserlen yr Adroddiad drafft hwn. Fodd bynnag, os bydd yn cael ei gyflawni cyn cyhoeddi'r Adroddiad terfynol, bydd y Panel yn cymryd y cyfle i ailstrwythuro'r trefniadau ar gyfer y taliad hwn ac os yw briodol bydd yn addasu'r swm i'w dalu yn ôl y penderfyniad.

**Uwch-rolau**

13.17 Mae'r Panel yn cydnabod y gall rolau penodol ar gyfer aelodau yn enwedig o fewn y cynghorau tref a chymuned mwy, er enghraifft cadeirydd pwyllgor, olygu mwy o gyfrifoldeb. Mae hefyd yn debygol y bydd gan y cynghorau mwy nifer fwy o bwyllgorau, sy'n adlewyrchu eu lefel gweithgarwch. Mae'r Panel felly wedi amlinellu'r penderfyniadau ar gyfer uwch-swyddi yn nhabl 11 isod.

13.18 Ym mhob achos, dim ond un taliad o £500 gall cynghorydd ei dderbyn, beth bynnag yw nifer yr uwch-swyddogaethau sydd ganddo yn y Cyngor.

13.19 Pan fo person yn aelod o fwy nag un cyngor cymuned neu dref, mae'n gymwys i dderbyn £150 ac, os yn briodol, £500 gan bob cyngor y mae'n aelod ohono.

**Cyfraniad tuag at gostau Gofal a Chymorth Personol**

13.20 Diben hyn yw galluogi pobl sydd ag anghenion cymorth personol a/neu gyfrifoldebau gofalu i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol fel aelod o awdurdod. Mae Penderfyniadau'r Panel yn Adran 10 yn gymwys i Gynghorau Cymuned a Thref.

**Ad-dalu costau teithio a chostau cynhaliaeth**

13.21 Mae'r Panel yn cydnabod y gall fod costau teithio a chynhaliaeth sylweddol sy'n gysylltiedig â gwaith aelodau o gynghorau tref a chymuned, yn enwedig pan fo ardal ddaearyddol y cyngor yn fawr a/neu pan fo'n ymgymryd â dyletswyddau y tu allan i'r ardal. Mae opsiwn gan bob cyngor i dalu costau teithio a chynhaliaeth (gan gynnwys teithio mewn tacsi os mai dyna'r unig ddull cludiant neu'r dull cludiant mwyaf addas). Pan fo cyngor yn dewis talu costau teithio a chynhaliaeth bydd y penderfyniadau canlynol yn berthnasol.

**Penderfyniad 45: Gall cynghorau tref a chymuned dalu costau teithio pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy.[7] Rhaid i daliadau o'r fath fod yn gostau gwirioneddol teithio ar gludiant cyhoeddus neu lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel y nodir isod:**

- **45c y filltir – hyd at 10,000 o filltiroedd yn y flwyddyn.**
- **25c y filltir – dros 10,000 o filltiroedd.**
- **5c y filltir y teithiwr a gludir ar fusnes yr awdurdod.**
- **24c y filltir – beiciau modur preifat.**
- **20c y filltir – beiciau.**

**Penderfyniad 46: Os yw cyngor tref neu gymuned yn penderfynu bod angen arhosiad dros nos ar gyfer dyletswydd benodol, gall roi awdurdod i ad-dalu treuliau cynhaliaeth i'w aelodau yn ôl y cyfraddau uchaf a nodir isod, ar sail hawliadau gyda derbynebau:**

- **Lwfans o £28 y cyfnod o 24 awr ar gyfer prydau bwyd, gan gynnwys brecwast pan na fydd wedi'i gynnwys.**
- **£200 – Llundain dros nos.**
- **£95 – rhywle arall dros nos.**
- **£30 – aros gyda ffrindiau a/neu deulu dros nos.**

**Digolledu am golled ariannol**

13.22 Mae'r Panel wedi cadw'r cyfleuster sy'n galluogi cynghorau i dalu iawndal i'w haelodau pan fyddant mewn colled ariannol o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy. Rhaid i aelodau fedru dangos bod y golled ariannol wedi'i hysgwyddo. Mae opsiwn gan bob cyngor i dalu iawndal am golled ariannol, a phan fo'n gwneud hynny bydd y penderfyniad canlynol yn berthnasol.

**Penderfyniad 47: Gall cynghorau tref a chymuned dalu iawndal am golled ariannol i bob un o'u haelodau, lle mae colled o'r fath wedi cael ei hysgwyddo, o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy fel a ganlyn:**

- **Hyd at £55.50 am bob cyfnod nad yw'n fwy na 4 awr**
- **Hyd at £110.00 am bob cyfnod sy'n fwy na 4 awr ond nad yw'n fwy na 24 awr**

[7] Lle mae aelod sydd ar fusnes swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy yn cael ei gludo gan yrrwr sy'n drydydd parti (ddim yn un o aelodau na swyddogion yr awdurdod hwnnw), gall yr aelod hawlio milltiredd yn ôl y cyfraddau a ragnodir ac unrhyw ffioedd parcio neu dollau ar yr amod bod yr awdurdod wedi'i argyhoeddi bod yr aelod wedi ysgwyddo'r costau hyn.

**Lwfans Presenoldeb**

13.23 Un o'r pwyntiau y dylid eu codi yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad yw cynnwys lwfans presenoldeb. Mae'r Panel yn cydnabod y gallai hyn fod yn ychwanegiad gwerthfawr i gefnogi gwaith cyngor mewn rhai achosion. Felly y mae wedi'i gynnwys fel dewis i bob cyngor.

**Penderfyniad 48: Gall pob cyngor benderfynu cyflwyno lwfans presenoldeb i'r aelodau. Ni chaiff unrhyw daliad fod yn fwy na £30.**
**Ni fydd gan aelod sydd mewn colled ariannol hawl i gael lwfans presenoldeb ar gyfer yr un digwyddiad.**

**Mae'n rhaid i gynghorau sy'n bwriadu cyflwyno Lwfans Presenoldeb amlinellu manylion y cynllun a'i gyhoeddi ar eu gwefan.**

**Pennaeth Dinesig a Dirprwy Bennaeth Dinesig**

13.24 Mae penaethiaid dinesig yn uwch swyddi o fewn cynghorau cymuned a thref. Yn ogystal â chadeirio cyfarfodydd pwysig, y pennaeth dinesig yw'r 'llysgennad' sy'n cynrychioli'r cyngor i bob math o sefydliadau a chyrff. Mae'r Panel yn gorchymyn na ddylai aelodau eu hunain orfod talu unrhyw gost sy'n gysylltiedig â chyflawni'r dyletswyddau hyn. Mae'r gofyniad hwn hefyd yn berthnasol yn achos dirprwy benaethiaid dinesig.

13.25 Mae'r Panel yn cydnabod yr amrywiaeth eang o ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer penaethiaid dinesig o ran trafnidiaeth, cymorth ysgrifenyddol, rhoi i elusennau a dillad swyddogol – rydym yn ystyried mai cyllidebau dinesig y cyngor yw'r rhain.

13.26 Nid yw penderfyniadau cyllido ynghylch cyllidebau dinesig o'r fath yn fater o daliadau cydnabyddiaeth personol i ddeiliad y swydd – maent yn ymwneud yn hytrach â chyllid sydd ei angen er mwyn i dasgau a dyletswyddau gael eu cyflawni. Mae rhyddid o hyd i gynghorau osod cyllidebau dinesig ar ba lefel bynnag sy'n briodol yn eu tyb hwy ar gyfer lefelau'r arweinyddiaeth ddinesig sydd ganddynt.

13.27 I osgoi unrhyw amheuaeth, nid mater o dalu cydnabyddiaeth ariannol i'r unigolyn sy'n dal yr uwch-swydd yw costau mewn perthynas ag, er enghraifft, trafnidiaeth (costau cludiant corfforol neu gostau fesul milltir), cymorth ysgrifenyddol, cyfraniadau elusennol (prynu tocynnau, gwneud cyfraniadau neu brynu tocynnau raffl) a dillad swyddogol. Dylai'r rhain ddod o'r gyllideb ddinesig.

13.28 Gan gydnabod bod rhai meiri a chadeiryddion cynghorau tref a chymuned a'u dirprwyon yn brysur iawn yn ystod eu blwyddyn yn y swydd, mae'r Panel wedi penderfynu y dylai cynghorau tref a chymuned fedru gwneud taliad i'r unigolion sy'n dal y rolau hyn.

13.29 Taliad personol i unigolyn yw hwn ac mae'n gyfan gwbl ar wahân i'r costau a nodir uchod.

13.30 Mae'r Panel wedi penderfynu mai uchafswm y taliad i gadeirydd neu faer

cyngor tref neu gymuned yw £1,500. Uchafswm y taliad i ddirprwy faer neu ddirprwy gadeirydd fydd £500.

**Penderfyniad 49: Gall cynghorau tref a chymuned ddarparu taliad i faer neu gadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £1,500. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 ar gyfer costau a threuliau a'r uwch-gyflog o £500 os hawlir y rhain.**

**Penderfyniad 50: Gall cynghorau tref a chymuned ddarparu taliad i ddirprwy faer neu ddirprwy gadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £500. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 ar gyfer costau a threuliau a'r uwch-gyflog o £500 os hawlir y rhain.**

**Penderfyniad 51: Y Grŵp perthnasol i gymhwyso'r Fframwaith Cydnabyddiaeth Tâl.**

**Tabl 11**

| Math o daliad | Gofyniad |
|---|---|
| **Grŵp 1** | **(Etholaeth dros 14,000)** |
| Cyflog Sylfaenol | Gorfodol ar gyfer pob Aelod |
| Cyflog Uwch-rolau | Gorfodol ar gyfer 1 aelod; Dewisol ar gyfer hyd at 7 |
| Lwfans Presenoldeb | Dewisol |
| Colli Enillion | Gorfodol |
| Teithio a Chynhaliaeth | Dewisol |
| Costau Gofal | Gorfodol |
| **Grŵp 2** | **(Etholaeth 10,000 i 13,999)** |
| Cyflog Sylfaenol | Gorfodol ar gyfer pob aelod |
| Cyflog Uwch-rolau | Gorfodol ar gyfer 1 aelod; Dewisol ar gyfer hyd at 5 |
| Lwfans Presenoldeb | Dewisol |
| Colli Enillion | Gorfodol |
| Teithio a Chynhaliaeth | Dewisol |
| Costau Gofal | Gorfodol |
| **Grŵp 3** | **(Etholaeth 5,000 i 9,999)** |
| Cyflog Sylfaenol | Gorfodol ar gyfer pob aelod |
| Cyflog Uwch-rolau | Dewisol hyd at 3 aelod |
| Lwfans Presenoldeb | Dewisol |
| Colli Enillion | Gorfodol |
| Teithio a Chynhaliaeth | Dewisol |
| Costau Gofal | Gorfodol |
| **Grŵp 4** | **(Etholaeth 1,000 i 4,999)** |
| Cyflog Sylfaenol | Gorfodol ar gyfer pob aelod |
| Cyflog Uwch-rolau | Dewisol hyd at 3 aelod |
| Lwfans Presenoldeb | Dewisol |

| Math o daliad | Gofyniad |
|---|---|
| Colli Enillion | Gorfodol |
| Teithio a Chynhaliaeth | Dewisol |
| Costau Gofal | Gorfodol |
| **Grŵp 5** | **(Etholaeth llai na 1,000)** |
| Cyflog Sylfaenol | Dewisol |
| Cyflog Uwch-rolau | Dewisol |
| Lwfans Presenoldeb | Dewisol |
| Colli Enillion | Gorfodol |
| Teithio a Chynhaliaeth | Dewisol |
| Costau Gofal | Gorfodol |

**Gwneud Taliadau i Aelodau**

13.31 Mae Tabl 12 yn gosod pob un o'r penderfyniadau uchod, ac yn nodi os oes angen penderfyniad gan y cyngor ynghylch pob un.

13.32 O ran taliadau gorfodol, lle nad oes angen penderfyniad gan y cyngor, dylai aelodau dderbyn arian y mae ganddynt hawl ei dderbyn yn gyffredinol.

13.33 Pan fo angen penderfyniad gan y cyngor, dylid gwneud hyn yn y cyfarfod cyntaf ar ôl i'r Adroddiad Blynyddol ddod i law.

13.34 Gall cyngor fabwysiadu unrhyw rai neu'r cyfan o'r penderfyniadau nad ydynt yn cynnwys gorchymyn ond os yw'n gwneud penderfyniad o'r fath, rhaid iddo fod yn berthnasol i'w holl aelodau.

13.35 Nodir ym mharagraffau 13.37 i 13.39 isod pryd y bydd y taliadau yn dod i rym.

13.36 Ar dderbyn Adroddiad Blynyddol drafft yr hydref blaenorol, dylai cynghorau ystyried y penderfyniadau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, a defnyddio hyn wrth lunio cynlluniau ar gyfer y gyllideb.

**Tabl 12**

| Rhif y Penderfyniad | Oes angen penderfyniad gan y cyngor? |
|---|---|
| **44** Rhaid i gynghorau cymuned a thref sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i'w aelodau fel cyfraniad tuag at gostau a threuliau, ac eithrio'r cynghorau yn Grŵp 5 pan mae'r taliad yn ddewisol. | Na – mae'r taliad o £150 yn orfodol ar gyfer pob aelod oni bai iddynt hysbysu'r swyddog priodol yn ysgrifenedig nad ydynt am ei gymryd.<br><br>Nid yw hyn yn berthnasol i gynghorau yn Grŵp 5. Mae'n rhaid i'r cyngor benderfynu a yw'n mabwysiadu'r taliad ac os felly rhaid ei wneud ar gael i bawb. |

| Rhif y Penderfyniad | Oes angen penderfyniad gan y cyngor? |
|---|---|
| **45** Gall cynghorau tref a chymuned dalu costau teithio pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy. | Oes – mae talu costau teithio yn ddewisol. |
| **46** Os yw cyngor tref neu gymuned yn penderfynu bod angen arhosiad dros nos ar gyfer dyletswydd benodol, gall roi awdurdod i ad-dalu treuliau cynhaliaeth i'w aelodau. | Oes – mae talu costau cynhaliaeth dros nos yn ddewisol. |
| **47** Gall cynghorau tref a chymuned dalu iawndal am golled ariannol i bob un o'u haelodau, lle mae colled o'r fath wedi cael ei hysgwyddo mewn gwirionedd, o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy. | Oes – mae talu lwfans colled ariannol yn ddewisol. |
| **48** Gall pob cyngor benderfynu cyflwyno lwfans presenoldeb i'r aelodau. Ni chaiff unrhyw daliad fod yn fwy na £30.<br>Ni fydd gan aelod sydd mewn colled ariannol hawl i gael lwfans presenoldeb ar gyfer yr un digwyddiad.<br><br>Mae'n rhaid i gynghorau sy'n bwriadu cyflwyno system Lwfansau Presenoldeb amlinellu manylion y cynllun a'i gyhoeddi ar eu gwefan. | Oes – mae talu lwfans presenoldeb yn ddewisol |
| **49** Gall cynghorau tref a chymuned ddarparu taliad Pennaeth Dinesig i fae neu gadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £1,500. | Oes – mae'r taliad i bennaeth dinesig yn ddewisol. |
| **50** Gall cynghorau tref a chymuned ddarparu taliad Dirprwy Bennaeth Dinesig i ddirprwy faer neu ddirprwy gadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £500. | Oes – mae'r taliad i ddirprwy bennaeth dinesig yn ddewisol. |
| **51** Y Grŵp perthnasol i gymhwyso'r Fframwaith Cydnabyddiaeth Tâl. | |
| **52** Ni all aelodau sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 gan brif gyngor (hynny yw yr arweinydd, dirprwy arweinydd neu aelod gweithrediaeth) gael unrhyw daliad gan Gyngor Tref neu Gymuned, ac eithrio costau teithio a | Na – Gall aelodau o brif gyngor sy'n cael uwch gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 (hynny yw yr arweinydd, dirprwy arweinydd neu aelodau gweithrediaeth) dderbyn costau teithio a chynhaliaeth a chyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol yn unig; os ydynt yn |

| Rhif y Penderfyniad | Oes angen penderfyniad gan y cyngor? |
|---|---|
| chynhaliaeth a chyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol. | gymwys i'w hawlio ac yn dymuno gwneud hynny. |

13.37 Mae pob aelod yn gymwys i dderbyn y £150 fel sydd wedi'i nodi ym Mhenderfyniad 44 a Thabl 11 o ddechrau'r flwyddyn ariannol, oni bai iddynt gael eu hethol yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn ariannol. Os felly, maent y gymwys i gael taliad cymesur o'r dyddiad hwnnw ymlaen.

13.38 Mae symiau eraill sy'n daladwy i aelodau mewn cydnabyddiaeth am ddyletswyddau penodol neu fel pennaeth dinesig neu ddirprwy bennaeth dinesig fel y gwelir ym Mhenderfyniadau 49 a 50 yn daladwy pan fydd yr aelod yn ymgymryd â'r swydd yn ystod y flwyddyn ariannol.

13.39 Mater i bob cyngor fydd gwneud a chofnodi penderfyniad polisi ynglŷn â:

- phryd y bydd taliad yn cael ei wneud i'r aelod;
- sut i rannu'r cyfanswm taladwy i nifer o daliadau llai; ac
- a ddylid adfer unrhyw daliadau i aelodau sy'n gadael neu'n newid eu swyddi yn ystod y flwyddyn ariannol, ac os felly, sut.

13.40 Mae taliadau yn ymwneud â Phenderfyniadau 45, 46, 47 a 48 yn daladwy pan fo'r gweithgarwch dan sylw wedi digwydd.

13.41 Fel y nodwyd ym mharagraff 13.7, gall unrhyw aelod unigol wneud penderfyniad personol i ddewis rhoi heibio rhan neu'r cyfan o'r hawl i unrhyw un o'r taliadau hyn drwy hysbysu swyddog priodol y cyngor yn ysgrifenedig.

**Penderfyniad 52: Ni all aelodau sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 gan brif gyngor (hynny yw yr Arweinydd, Dirprwy Arweinydd neu Aelod Gweithrediaeth) gael unrhyw daliad gan Gyngor Tref neu Gymuned, ac eithrio costau teithio a chynhaliaeth a chyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol.**

### Gofynion o ran cyhoeddusrwydd

13.42 Mae'n ofynnol i gynghorau tref a chymuned gyhoeddi manylion yr holl daliadau a wneir i aelodau unigol mewn Datganiad o Daliadau blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r wybodaeth hon gael ei chyhoeddi ar hysbysfyrddau a/neu wefannau cynghorau (gyda mynediad rhwydd) a chael ei darparu ar gyfer y Panel trwy'r e-bost neu drwy'r post fan bellaf erbyn 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'r Panel yn tynnu sylw at y gofynion a nodir yn Atodiad 4. Mae'r Panel yn nodi gyda phryder nad yw nifer sylweddol o gynghorau wedi cydymffurfio â'r gofyniad hwn o hyd.

## 14. Cydymffurfio â Gofynion y Panel

### Cylch Gwaith y Panel dan y Mesur

14.1 Mae Adran 153 o'r Mesur yn galluogi'r Panel i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol[8] gydymffurfio â'r gofynion a osodir arno gan Adroddiadau Blynyddol y Panel ac yn galluogi'r Panel i fonitro sut mae awdurdodau perthnasol yn cydymffurfio â phenderfyniadau'r Panel.

14.2 Rhaid i awdurdod perthnasol weithredu penderfyniadau'r Panel yn yr adroddiad hwn o ddyddiad ei gyfarfod blynyddol neu ddyddiad a nodir yn yr Adroddiad Blynyddol.

### Monitro cydymffurfiaeth

14.3 Bydd y Panel yn monitro sut y mae pob awdurdod perthnasol yn cydymffurfio â'r Penderfyniadau yn yr Adroddiad Blynyddol hwn trwy ystyried y gofynion canlynol:

(i) Rhaid i awdurdod perthnasol gynnal **Rhestr flynyddol o Gydnabyddiaeth Ariannol Aelodau** (Rheoliadau 4 a 5 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol). Mae canllawiau yn Atodiad 3 yn nodi'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y Rhestr.

(ii) Rhaid i awdurdod perthnasol wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r Rhestr yn ardal yr awdurdod (Rheoliad 46 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol) ac anfon y Rhestr at y Panel cyn gynted ag y bo'n ymarferol a dim hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi. Mae Atodiad 4 yn cynnwys rhagor o fanylion am y gofynion cyhoeddusrwydd.

(iii) Rhaid hysbysu'r Panel am unrhyw ddiwygiadau a wneir i'r Rhestr yn ystod y flwyddyn cyn gynted â phosibl wedi i'r diwygiad gael ei wneud.

**Sylwer: Nid yw'r gofynion uchod yn berthnasol i Gynghorau Tref a Chymuned ar hyn o bryd**.

**Mae'r canlynol yn berthnasol i'r <u>holl</u> awdurdodau gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned.**

(iv) Rhaid i awdurdod perthnasol wneud trefniadau i gyhoeddi o fewn ardal yr awdurdod, y cyfanswm a dalwyd ganddo yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol i bob aelod ac aelod cyfetholedig o safbwynt cyflog (sylfaenol, uwch a dinesig), lwfansau, ffioedd ac ad-daliadau mewn Datganiad o Daliadau (yn unol ag Atodiad 4 sy'n nodi cynnwys y Gofynion o ran Cyhoeddusrwydd). Rhaid i hyn gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol a heb fod yn hwyrach na 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol flaenorol – **a rhaid ei gyflwyno i'r Panel erbyn y dyddiad hwnnw.**

[8] Dehongliad o "Awdurdod Perthnasol" yn ôl Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW), Rhan 1, 'Dehongli'.

# 15. Cyflogau Penaethiaid Gwasanaeth Cyflogedig Prif Gynghorau ac Awdurdodau Tân ac Achub a Phrif Swyddogion Prif Gynghorau

15.1 Diwygiodd Adran 63 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 gan fewnosod Adran 143A. Mae hyn yn galluogi'r Panel i ffurfio barn ynglŷn ag unrhyw beth yn Natganiadau Polisi Tâl awdurdodau sy'n ymwneud â chyflog y pennaeth gwasanaeth cyflogedig (fel arfer Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig neu'r prif swyddog tân). Diwygiodd adran 39 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 y Mesur ymhellach gan estyn y swyddogaeth hon i gynnwys Prif Swyddogion Prif Gynghorau. Serch hynny, daeth y swyddogaeth hon i ben ar 31 Mawrth 2020.

15.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau diwygiedig ar gyfer y Panel sydd i'w gweld yn Canllaw Diwygiedig i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o dan Adran 143A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac Adran 39 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 201. Mae'r rhain yn nodi'r sail y bydd y Panel yn ei defnyddio i gyflawni'r swyddogaeth sydd wedi'i chynnwys yn y ddeddfwriaeth.

15.3 Swyddogaethau'r Panel a'r gofynion ar awdurdodau a sefydlwyd gan y ddeddfwriaeth a'r canllawiau dilynol yw:

a) Os yw prif gyngor yn bwriadu newid cyflog pennaeth y gwasanaeth cyflogedig, neu os yw awdurdod tân ac achub yn bwriadu newid cyflog ei bennaeth gwasanaeth cyflogedig rhaid iddo ymgynghori â'r Panel oni bai bod y newid yn cyd-fynd â newidiadau a gymhwysir i swyddogion eraill yn yr awdurdod hwnnw (boed y newid yn gynnydd neu'n ostyngiad). Mae 'cyflog' yn cynnwys taliadau o dan gontract am wasanaethau, yn ogystal â thaliadau cyflog o dan gontract cyflogaeth.

b) Rhaid i'r awdurdod roi sylw i argymhelliad/argymhellion y Panel wrth ddod i benderfyniad.

c) Caiff y Panel ofyn am unrhyw wybodaeth y mae'n ystyried ei bod yn angenrheidiol i ddod i gasgliad a chyflwyno argymhelliad. Rhaid i'r awdurdod ddarparu'r wybodaeth a geisir gan y Panel.

d) Caiff y Panel gyhoeddi unrhyw argymhelliad y mae'n ei wneud ar yr amod bod y rhain yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Y bwriad yw, er budd tryloywder, y bydd fel arfer yn gwneud hynny.

e) Gallai argymhelliad/argymhellion y Panel:
- gymeradwyo cynnig yr awdurdod
- mynegi pryderon am y cynnig
- argymell amrywiadau i'r cynnig

15.4 Mae gan y Panel bŵer cyffredinol hefyd i adolygu Datganiadau ar Bolisïau Tâl Awdurdodau i'r graddau y maent yn ymwneud â phenaethiaid gwasanaeth cyflogedig.

15.5 Mae'n bwysig nodi na fydd y Panel yn penderfynu beth fydd pennaeth gwasanaeth cyflogedig unigol yn ei dderbyn.

15.6 Mae'r Panel yn ymwybodol iawn bod y swyddogaeth hon yn wahanol iawn i'w gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â chydnabyddiaeth ariannol aelodau. Fodd bynnag, mae'n ymgymryd â'r rôl hon drwy fod yn glir ac yn agored, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol mewn perthynas ag achosion unigol penodol. Anogir awdurdodau i ymgynghori â'r Panel yn gynnar yn ei broses ar gyfer gwneud penderfyniad ar y materion hyn. Bydd hyn yn galluogi'r Panel i ymateb mewn modd amserol.

**Datganiadau Polisi Cyflog**

Mae paragraff 3.7 o'r canllawiau i'r Panel gan Lywodraeth Cymru yn datgan fel a ganlyn: "Nid yw'r ddeddfwriaeth yn cyfyngu'r Panel i rôl adweithiol". Mae'n galluogi'r Panel i ddefnyddio'i bŵer i wneud argymhellion sy'n ymwneud â darpariaethau o fewn Datganiadau Polisi Cyflog awdurdodau lleol.

**Newidiadau i gyflogau prif swyddogion prif gynghorau – penderfyniadau'r Panel 2021**

Mae llythyrau a anfonwyd i awdurdodau lleol yn rhoi gwybod iddynt am benderfyniad y Panel ar gael ar wefan y Panel.

| **Enw'r Awdurdod Lleol** | **Cynnig** | **Penderfyniad y Panel** |
|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Cynnig cyflog y Prif Swyddog | Cymeradwywyd |
| Cyngor Sir Ceredigion | Adolygiad o gyflog y Prif Swyddog | Cymeradwywyd |

# Atodiad 1: Penderfyniadau'r Panel ar gyfer 2022/23

| Prif Gynghorau | |
|---|---|
| 1. | Bydd y cyflog sylfaenol yn 2022/23 ar gyfer aelodau etholedig o brif gynghorau yn £16,800. |
| 2. | Bydd lefelau uwch-gyflogau yn 2022/23 ar gyfer aelodau o brif gynghorau fel y'u nodir yn Nhabl 4. |
| 3. | Rhaid talu cyflog Band 3 o £25,593 i bennaeth dinesig pan fo'n cael ei dalu, yn unol â Thabl 4. |
| 4. | Rhaid talu cyflog Band 5 o £20,540 i ddirprwy bennaeth dinesig pan fo'n cael ei dalu, yn unol â Thabl 4. |
| 5. | Rhaid i aelod llywyddol, os penodir un ac os yw'n cael cydnabyddiaeth ariannol, gael £25,593 yn unol â Thabl 4. |
| 6. | Ni fydd swydd dirprwy aelod llywyddol yn cael cydnabyddiaeth ariannol. |
| 7. | a) Ni ddylai aelod etholedig gael cydnabyddiaeth ariannol am fwy nag un uwch-swydd o fewn ei awdurdod ef neu hi.<br><br>b) Ni ddylid talu uwch-gyflog a chyflog dinesig i aelod etholedig.<br><br>c) Mae'r cyflog sylfaenol yn gynwysedig ym mhob uwch-gyflog a chyflog dinesig a delir.<br><br>d) Os yw cyngor yn dewis bod â mwy nag un dirprwy arweinydd sy'n cael cydnabyddiaeth ariannol, dylid rhannu'r gwahaniaeth rhwng uwch-gyflog y dirprwy arweinydd ac aelodau gweithrediaeth eraill â nifer y dirprwy arweinwyr a'i ychwanegu at uwch-gyflog aelodau gweithrediaeth eraill er mwyn cyfrifo'r uwch-gyflog sy'n daladwy i bob dirprwy arweinydd. |
| 8. | Ni all aelodau sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 gael cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub y maent wedi'u penodi iddo. Mae ganddynt hawl o hyd i hawlio costau teithio a chynhaliaeth a chyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol neu'r Awdurdod Tân ac Achub |
| 9. | Ni all aelodau sy'n cael cyflog Band 1 neu Fand 2 dderbyn unrhyw dâl gan Gyngor Cymuned neu Gyngor Tref y maent yn aelod ohono. Maent yn dal yn gymwys i hawlio costau teithio a chynhaliaeth a chyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol gan y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Tref. Pan fo'r sefyllfa hon yn berthnasol, cyfrifoldeb yr aelod unigol yw cydymffurfio. |

| | |
|---|---|
| 10. | Dylai pob awdurdod sicrhau, drwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, fod ei holl aelodau etholedig yn cael cymaint o gymorth ag sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Dylai pob aelod etholedig gael cyfleusterau ffôn, e-bost a rhyngrwyd digonol i'w galluogi i gael mynediad electronig at wybodaeth briodol. |
| 11. | Dylid rhoi cymorth o'r fath heb gostau i'r aelod unigol. Ni ddylai'r priod awdurdod ddidynnu symiau o gyflogau aelodau fel cyfraniad tuag at y costau cymorth y mae'r awdurdod wedi penderfynu eu bod yn angenrheidiol ar gyfer effeithlonrwydd a/neu effeithiolrwydd aelodau. |
| **Uwch-gyflogau Penodol neu Ychwanegol** | |
| 12. | Gall Prif Gynghorau wneud cais am uwch-gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt yn syrthio o fewn y Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol presennol. |
| **Cynorthwywyr y Weithrediaeth** | |
| 13. | Bydd y Panel yn penderfynu fesul achos beth yw'r uwch-gyflog priodol, os o gwbl, ar gyfer Cynorthwywyr y Weithrediaeth. |
| **Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu (JOSC)** | |
| 14. | Lefel cyflog Cadeirydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu fydd £8,793. |
| 15. | Lefel cyflog Is-gadeirydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu fydd £4,396. |
| **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** | |
| 16. | Bydd yr hawl i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gymwys i holl aelodau etholedig cymwys o brif gynghorau. |
| **Absenoldeb Teuluol** | |
| 17. | Mae gan aelod etholedig hawl i gadw cyflog sylfaenol wrth gymryd absenoldeb teuluol dan y rheoliadau gwreiddiol neu unrhyw ddiwygiad i'r rheoliadau, ni waeth beth oedd ei hanes presenoldeb yn union cyn dechrau'r absenoldeb teuluol. |
| 18. | Pan fo deiliad uwch-gyflog yn gymwys i gael absenoldeb teuluol, bydd yn dal i gael y cyflog tra pery'r absenoldeb. |
| 19. | Mater i'r awdurdod yw penderfynu a yw'n mynd i benodi rhywun i ddirprwyo ar ran y sawl sy'n absennol. Bydd yr aelod etholedig sy'n dirprwyo ar ran deiliad uwch-gyflog sy'n cymryd absenoldeb teuluol yn gymwys i gael uwch-gyflog, os yw'r awdurdod yn penderfynu hynny. |

| | |
|---|---|
| 20. | Os yw talu cydnabyddiaeth ariannol i'r sawl sy'n dirprwyo'n golygu bod yr awdurdod yn mynd y tu hwnt i'r uchafswm uwch-gyflogau sy'n berthnasol iddo, fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol y Panel, bydd ychwanegiad at yr uchafswm yn cael ei ganiatáu tra pery'r trefniant dirprwyo.<br>Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn berthnasol i Gynghorau Ynys Môn na Merthyr Tudful pe bai'n golygu bod nifer yr uwch-gyflogau'n uwch na hanner cant y cant o aelodaeth y Cyngor. Mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth benodol gan Weinidogion Cymru dan amgylchiadau o'r fath. |
| 21. | Pan fo Cyngor yn cytuno i dalu i aelod etholedig sy'n dirprwyo yn ystod absenoldeb teuluol rhaid hysbysu'r Panel a hynny o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad, ynghylch y manylion gan gynnwys y swydd benodol a hyd y trefniant dirprwyo. |
| 22. | Rhaid diwygio rhestr cydnabyddiaeth ariannol y Cyngor i adlewyrchu goblygiadau'r absenoldeb teuluol. |
| **Awdurdodau Parciau Cenedlaethol** | |
| 23. | Y cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau cyffredin o APC fydd £4,738, yn weithredol o 1 Ebrill 2022. |
| 24. | Yr uwch-gyflog ar gyfer cadeirydd APC fod yn £13,531, yn weithredol o 1 Ebrill 2022. |
| 25. | Rhaid talu uwch-gyflog APC o £8,478 i ddirprwy gadeirydd os penodir un. |
| 26. | Gall swyddi cadeiryddion pwyllgorau neu uwch-swyddi eraill fod yn rhai a thâl. Y cyflog fydd £8,478. |
| 27. | Ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un uwch-gyflog gan APC. |
| 28. | Caiff uwch-gyflog APC ei dalu gan gynnwys cyflog sylfaenol APC. |
| 29. | Ni chaiff aelodau o brif gyngor sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw APC arall y maent wedi'u penodi iddo. Pan fo'r sefyllfa hon yn berthnasol, cyfrifoldeb yr aelod unigol yw cydymffurfio. |
| **Awdurdodau Tân ac Achub** | |
| 30. | Y cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau cyffredin o ATA fydd £2,369, yn weithredol o 1 Ebrill 2022. |
| 31. | Yr uwch-gyflog ar gyfer cadeirydd ATA fydd £11,162, yn weithredol o 1 Ebrill 2022. |
| 32. | Rhaid talu uwch-gyflog ATA o £6,109 i ddirprwy gadeirydd os penodir un. |
| 33. | Gellir talu i gadeirydd pwyllgor neu uwch-swydd arall. Y tâl fydd £6,109. |
| 34. | Ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un uwch-gyflog gan ATA. |
| 35. | Telir uwch-gyflog ATA gan gynnwys cyflog sylfaenol yr ATA a rhaid iddo adlewyrchu cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus. |

| | |
|---|---|
| 36. | Ni chaiff aelodau o brif gyngor sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw ATA arall y maent wedi'u henwebu iddo. Os yw'r sefyllfa hon yn berthnasol, cyfrifoldeb yr aelod unigol yw cydymffurfio. |
| **Aelodau Cyfetholedig** | |
| 37. | Rhaid i brif gynghorau, APCau ac ATAau dalu'r ffioedd canlynol i aelodau cyfetholedig (sydd â hawliau pleidleisio) fel y gwelir yn Nhabl 7. |
| 38. | Mae amser rhesymol i baratoi cyn cyfarfodydd yn gymwys i'w gynnwys mewn hawliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig – gall swyddog priodol benderfynu faint cyn y cyfarfod. |
| 39. | Gellir cynnwys amser teithio i'r cyfarfod ac oddi yno yn yr hawliadau am daliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol). |
| 40. | Rhaid i swyddog priodol yn yr awdurdod bennu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer diwrnod llawn ac fe delir ffi ar sail y penderfyniad hwn, hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn gorffen cyn diwedd pedair awr. |
| 41. | Rhaid talu ffioedd am gyfarfodydd a gweithgareddau eraill gan gynnwys pwyllgorau a gweithgorau eraill (gan gynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen), cyfarfodydd rhagarweiniol gyda swyddogion, hyfforddiant a phresenoldeb mewn cynadleddau neu unrhyw gyfarfod ffurfiol arall y gofynnir i aelodau cyfetholedig ei fynychu. |
| 42. | Rhaid i bob awdurdod sicrhau, drwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd neu bwyllgor priodol arall, fod ei holl aelodau cyfetholedig sydd â phleidlais yn cael cymaint o gymorth ag sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Dylai cymorth o'r fath fod heb gostau i'r aelod unigol. |
| **Cyfraniad tuag at gostau Gofal a Chymorth Personol** | |
| 43. | Rhaid i'r holl awdurdodau perthnasol ddarparu taliad tuag at gostau angenrheidiol ar gyfer gofal am blant ac oedolion dibynnol (a roddir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol fel a ganlyn:<br><br>• Costau gofal ffurfiol (wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru) i'w talu yn unol â thystiolaeth.<br><br>• Costau gofal anffurfiol (heb gofrestru) i'w talu hyd at y gyfradd uchaf sydd gyfwerth â chyflog fesul awr Cyflog Byw Gwirioneddol y DU ar yr adeg pan aethpwyd i'r costau.<br><br>Rhaid i hyn fod am y costau ychwanegol a ysgwyddwyd gan aelodau i'w galluogi i gyflawni busnes swyddogol neu ddyletswyddau cymeradwy. Rhaid i bob awdurdod sicrhau bod unrhyw daliadau a wneir yn gysylltiedig â busnes swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy, fel sy'n briodol. Ni ddylid gwneud taliadau nes bydd derbynebau gan y darparwr gofal wedi'u darparu. |

| Cynghorau Tref a Chymuned | |
|---|---|
| 44. | Rhaid i gynghorau tref a chymuned sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i'w haelodau fel cyfraniad at gostau a threuliau, ac eithrio'r cynghorau yn Grŵp 5 lle mae'r taliad yn ddewisol. |
| 45. | Gall cynghorau tref a chymuned dalu costau teithio pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy.[9] Rhaid i daliadau o'r fath fod yn gostau gwirioneddol teithio ar gludiant cyhoeddus neu lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel y nodir isod:<br>• 45c y filltir – hyd at 10,000 o filltiroedd yn y flwyddyn.<br>• 25c y filltir – dros 10,000 o filltiroedd.<br>• 5c y filltir y teithiwr a gludir ar fusnes yr awdurdod.<br>• 24c y filltir – beiciau modur preifat.<br>• 20c y filltir – beiciau. |
| 46. | Os yw cyngor tref neu gymuned yn penderfynu bod angen arhosiad dros nos ar gyfer dyletswydd benodol, gall roi awdurdod i ad-dalu treuliau cynhaliaeth i'w aelodau yn ôl y cyfraddau uchaf a nodir isod, ar sail hawliadau gyda derbynebau:<br>• Lwfans o £28 y cyfnod o 24 awr ar gyfer prydau bwyd, gan gynnwys brecwast pan na fydd wedi'i gynnwys.<br>• £200 – Llundain dros nos.<br>• £95 – rhywle arall dros nos.<br>• £30 – aros gyda ffrindiau a/neu deulu dros nos. |
| 47. | Gall cynghorau tref a chymuned dalu iawndal am golled ariannol i bob un o'u haelodau, lle mae colled o'r fath wedi cael ei hysgwyddo, o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy fel a ganlyn:<br>• Hyd at £55.50 am bob cyfnod nad yw'n fwy na 4 awr.<br>• Hyd at £110.00 am bob cyfnod sy'n fwy na 4 awr ond nad yw'n fwy na 24 awr. |
| 48 | Gall pob cyngor benderfynu cyflwyno lwfans presenoldeb i'r aelodau. Ni chaiff unrhyw daliad fod yn fwy na £30.<br><br>Ni fydd gan aelod sydd mewn colled ariannol hawl i gael lwfans presenoldeb ar gyfer yr un digwyddiad.<br><br>Mae'n rhaid i gynghorau sy'n bwriadu cyflwyno system Lwfansau Presenoldeb amlinellu manylion y cynllun a'i gyhoeddi ar eu gwefan. |

| | |
|---|---|
| 49. | Gall cynghorau tref a chymuned ddarparu taliad Pennaeth Dinesig i faer/cadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £1,500. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 ar gyfer costau a threuliau a'r uwch-gyflog o £500 os hawlir y rhain. |
| 50. | Gall cynghorau tref a chymuned ddarparu taliad Dirprwy Bennaeth Dinesig i ddirprwy faer/dirprwy gadeirydd y cyngor hyd at uchafswm o £500. Mae hyn yn ychwanegol at y taliad o £150 ar gyfer costau a threuliau a'r uwch-gyflog o £500 os hawlir y rhain. |
| 51 | Y Grŵp perthnasol i gymhwyso'r Fframwaith Cydnabyddiaeth Tâl. |
| 52. | Ni all aelodau sy'n cael uwch-gyflog ym Mand 1 neu Fand 2 gan brif gyngor (hynny yw yr Arweinydd, Dirprwy Arweinydd neu Aelod Gweithrediaeth) gael unrhyw daliad gan Gyngor Tref neu Gymuned, ac eithrio costau teithio a chynhaliaeth a chyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol. |

[9] Lle mae aelod sydd ar fusnes swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy yn cael ei gludo gan yrrwr sy'n drydydd parti (ddim yn un o aelodau na swyddogion yr awdurdod hwnnw), gall yr aelod hawlio milltiredd yn ôl y cyfraddau a ragnodir ac unrhyw ffioedd parcio neu dollau ar yr amod bod yr awdurdod wedi'i argyhoeddi bod yr aelod wedi ysgwyddo'r costau hyn.

# Atodiad 2: Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW)

**a) cydnabyddiaeth ariannol i aelodau ac aelodau cyfetholedig o awdurdodau perthnasol**

**b) swyddogaethau sy'n ymwneud â chyflogau Penaethiaid Gwasanaeth Cyflogedig Prif Gynghorau ac Awdurdodau Tân ac Achub**

## Cyflwyniad

Mae Rhan 8 (adrannau 141 i 160) ac atodlen 2 a 3 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (*y Mesur*) yn nodi'r trefniadau ar gyfer taliadau a phensiynau aelodau o awdurdodau perthnasol a swyddogaethau a chyfrifoldebau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel).

Mae Adrannau 62 i 67 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn diwygio adrannau 142, 143, 144, 147, 148 ac 151 y Mesur ac yn rhoi pwerau ychwanegol i'r Panel.

Mae'r pwerau a geir yn rhan 8 ac atodlenni 2 a 3 o'r Mesur (fel y'u diwygiwyd) wedi disodli'r Offerynnau Statudol canlynol:

- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) (Cymru) 2002 (Rhif 1895 (Cy.196)).
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004 (Rhif 2555 (Cy.227)).
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007 (Rhif 1086 (Cy.115)).

Mae'r Mesur hefyd wedi disodli'r adrannau yn Neddf Llywodraeth Leol 1972, Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Deddf Llywodraeth Leol 2000 sy'n ymwneud â thaliadau i gynghorwyr yng Nghymru.

Nodir y taliadau ar gyfer aelodau cynghorau tref a chymuned yn Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn. Dirymwyd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Cymuned) (Cymru) 2003 (Rhif 895 (Cy. 115)) ar 1 Ebrill 2013.

## Rhan 1

## Cyffredinol

1. a. Teitl byr y Rheoliadau hyn yw: "Rheoliadau IRPW".

b. Daw'r Rheoliadau IRPW hyn i rym ar 1 Ebrill 2021 ac maent yn disodli'r rhai a oedd mewn grym ers 1 Ebrill 2012. Nodir y dyddiad gweithredu ar gyfer pob awdurdod perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol neu Adroddiad Atodol y Panel.

c. Mae'n ofynnol i Awdurdodau lunio rhestr o daliadau i aelodau ac aelodau cyfetholedig erbyn 31 Gorffennaf bob blwyddyn, er mwyn iddynt allu eu cyflwyno i'r Panel a'u cyhoeddi (gweler paragraff 46).

**Dehongli**

2. Yn Rheoliadau IRPW:

- Ystyr "Deddf 1972" yw Deddf Llywodraeth Leol 1972.
- Ystyr "Deddf 2000" yw Deddf Llywodraeth Leol 2000.
- "Ystyr "Deddf 2013" yw Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.
- Ystyr "taliad" yw'r union swm neu'r uchafswm y gellir ei dalu i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdod perthnasol am gostau yr aethpwyd iddynt yn anochel wrth gyflawni busnes swyddogol yr awdurdod perthnasol.
- Ystyr "adroddiad blynyddol" yw adroddiad a luniwyd gan y Panel yn unol ag adran 145 o'r Mesur.
- Mae ystyr "dyletswydd gymeradwy" mewn perthynas â chynghorau tref a chymuned fel y nodir yn Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn
- Ystyr "awdurdod" yw awdurdod perthnasol yng Nghymru fel y'i diffinnir yn Adran 144(2) o'r Mesur ac mae'n cynnwys prif gyngor (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol), awdurdod Parc Cenedlaethol ac awdurdod tân ac achub yng Nghymru, cyngor cymuned neu dref.
- Mae i "Cyflog Sylfaenol" yr un ystyr ag a nodir ym mharagraff 6 o'r Rheoliadau hyn a gellir ei amodi fel "Cyflog Sylfaenol ALl" i gyfeirio at gyflog sylfaenol aelod o brif gyngor; "Cyflog Sylfaenol Parc Cenedlaethol" i gyfeirio at gyflog sylfaenol aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol; a "Cyflog Sylfaenol awdurdod tân ac achub" i gyfeirio at Gyflog Sylfaenol aelod o awdurdod tân ac achub yng Nghymru.
- Mae i "Prif Swyddog" prif gyngor yr ystyr a ddiffinnir yn Neddf Lleoliaeth 2011
- "Pennaeth Dinesig" yw'r sawl a etholwyd gan y cyngor i gyflawni dyletswyddau cadeirydd y cyngor hwnnw, ac mae wedi'i ddynodi'n faer neu'n gadeirydd.
- Mae "pwyllgor" yn cynnwys is-bwyllgor.
- Mae "cyngor tref neu gymuned" yn golygu mewn perthynas â Rhan 8 y Mesur, cyngor cymuned fel y'i diffinnir yn adran 33 Deddf Llywodraeth Leol 1972 neu gyngor tref yn unol ag adran 245B o'r un Ddeddf.
- Ystyr "drafft ymgynghori" yw'r fersiwn ddrafft o adroddiad Blynyddol neu

Atodol a luniwyd gan y Panel o dan Adran 146(7) neu 147(8) o'r Mesur. Mae'n rhaid i'r Panel ystyried y sylwadau hyn.

- "Awdurdod cyfansoddol" – yn achos awdurdodau Parciau Cenedlaethol, prif gyngor a leolir o fewn ardal awdurdod Parc Cenedlaethol yw hwn; yn achos awdurdodau tân ac achub yng Nghymru prif gyngor a leolir o fewn ardal awdurdod tân ac achub yw hwn.
- Mae i "Cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol" yr un ystyr ag a nodir ym mharagraff 21 o'r Rheoliadau hyn.
- Ystyr "grŵp rheoli" yw grŵp gwleidyddol mewn prif gyngor lle mae unrhyw un o'i aelodau yn rhan o'r weithrediaeth.
- Mae i "aelod cyfetholedig" yr ystyr a nodir yn adran 144 (5) o'r Mesur, hynny yw'r rhai sydd â'r hawl i bleidleisio ar faterion sy'n dod o fewn cylch gwaith y pwyllgor y maent yn gwasanaethu arno.
- Mae i "taliad aelod cyfetholedig" yr un ystyr ag a nodir ym mharagraff 19 o'r Rheoliadau hyn.
- Ystyr "Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd" yw'r prif gyngor a sefydlwyd o dan adran 11 o'r Mesur.
- "Dirprwy Bennaeth Dinesig" yw'r sawl a etholwyd gan y cyngor i fod yn ddirprwy i faer neu gadeirydd y cyngor hwnnw.
- Ystyr "gweithrediaeth" yw gweithrediaeth awdurdod ar ffurf fel y nodir yn adrannau 11(2) i (5) o Ddeddf 2000, fel y'u diwygiwyd gan adran 34 o'r Mesur.
- Mae i "trefniadau gweithredol" yr ystyr a roddir gan adran 10(1) o Ddeddf 2000.
- Mae i "absenoldeb teuluol", fel y'i diffinnir yn Adran 142 (2)(b) o'r Mesur, yr ystyr a roddir iddo gan Ran 2 o'r Mesur a'r Rheoliadau perthnasol.
- Mae ystyr "Lwfans Colled Ariannol" mewn perthynas â chynghorau cymuned neu dref fel y nodir yn Rhan 5 o'r Rheoliadau.
- Ystyr "awdurdod tân ac achub" yw awdurdod a sefydlwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo.
- Ystyr "Pennaeth gwasanaeth cyflogedig" yw fel y dynodwyd o dan adran 4(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

- Ystyr Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yw pwyllgor neu is-bwyllgor a sefydlwyd gan ddau brif gyngor neu fwy o dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu) (Cymru) 2013.
- Ystyr "grŵp yr wrthblaid fwyaf" yw grŵp gwleidyddol ac eithrio grŵp rheoli sydd â nifer uwch o aelodau nag unrhyw grŵp gwleidyddol arall yn yr awdurdod.
- Ystyr "aelod" yw person sy'n gwasanaethu mewn awdurdod
    - Ar gyfer prif gyngor neu gyngor cymuned neu dref gall "Aelod" fod yn:
    - "Aelod Etholedig" sy'n unigolyn sydd wedi'i ethol i wasanaethu fel

cynghorydd i'r awdurdod hwnnw. Mae'n bosibl i berson gadw swydd etholedig os, ar ôl cwblhau etholiad, nad oes ymgeisydd a bod y person yn cadw'r swydd yn amodol ar y broses briodol.

- "Aelod Cyfetholedig" yw person sy'n aelod o bwyllgor y cyngor neu yn gwneud swyddogaeth yn amodol ar y broses briodol.
- Yn achos awdurdod Parc Cenedlaethol "Aelod" yw person a benodwyd gan awdurdod cyfansoddol a hefyd unigolyn a benodwyd gan Weinidogion Cymru.
- Yn achos awdurdodau tân ac achub ystyr "Aelod" yw unigolyn a benodwyd gan awdurdod cyfansoddol.

- Ystyr "awdurdod Parc Cenedlaethol" yw awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.
- Mae i "busnes swyddogol" yr ystyr a nodir yn Adran 142 (10) o'r Mesur mewn perthynas ag ad-dalu lwfansau i ad-dalu costau gofal, teithio a chostau cynhaliaeth yr aethpwyd iddynt yn anochel gan aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdod perthnasol (ac eithrio cynghorau tref a chymuned) wrth:

a. Fynychu cyfarfod o'r awdurdod neu unrhyw un o bwyllgorau'r awdurdod neu unrhyw gorff arall y mae'r awdurdod yn gwneud penodiadau neu enwebiadau iddo neu unrhyw un o bwyllgorau corff o'r fath.
b. Mynychu cyfarfod unrhyw gymdeithas o awdurdodau y mae'r awdurdod yn aelod ohoni.
c. Mynychu cyfarfod yr awdurdodir ei gynnal gan yr awdurdod neu gan un o bwyllgorau'r awdurdod neu gan un o gydbwyllgorau'r awdurdod ac un neu fwy o awdurdodau eraill.
d. Mynychu unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwyir gan yr awdurdod neu ei weithrediaeth.
e. Dyletswydd yr ymgymerir â hi at ddibenion cyflawni swyddogaethau gweithrediaeth neu mewn cysylltiad â'u cyflawni o fewn yr ystyr a nodir yn Rhan 2 o Ddeddf 2000, fel y'i diwygiwyd.
f. Dyletswydd yr ymgymerir â hi yn unol â rheol sefydlog sy'n ei gwneud yn ofynnol i aelod neu aelodau fod yn bresennol pan fydd dogfennau tendro yn cael eu hagor.
g. Dyletswydd yr ymgymerir â hi mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaeth sydd gan yr awdurdod i archwilio safle neu awdurdodi archwiliad o safle.
h. Dyletswydd yr ymgymerir â hi gan aelodau prif gynghorau mewn cysylltiad â chyfrifoldebau etholaeth neu ward sy'n deillio o gyflawni swyddogaethau prif gyngor.
i. Unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwyir gan yr awdurdod, neu unrhyw ddyletswydd o ddosbarth a gymeradwyir felly, ac yr ymgymerir â hi at ddibenion cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu unrhyw un o'i bwyllgorau neu mewn cysylltiad â'u cyflawni.

- Ystyr “grŵp gwleidyddol arall” yw grŵp gwleidyddol ac eithrio grŵp rheoli neu grŵp yr wrthblaid fwyaf (os o gwbl) sy'n cynnwys dim llai na 10 y cant o aelodau'r awdurdod hwnnw.

- Ystyr “pwyllgor trosolwg a chraffu” yw pwyllgor yn yr awdurdod sydd â’r pwerau a nodir yn adran 21(2) a (3) o Ddeddf 2000, fel y'u diwygiwyd gan Ran 6 o'r Mesur.
- “Ystyr “Panel” yw Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol fel y nodir yn adran 141(1) ac atodlen 2 o'r Mesur.
- Ystyr "datganiad polisi cyflog" yw datganiad a gynhyrchir gan awdurdod perthnasol o dan adran 38 o Ddeddf Lleoliaeth 2011.
- Gellir ffurfio “grŵp gwleidyddol” o aelodau plaid wleidyddol gydnabyddedig, neu gall fod yn grŵp o aelodau annibynnol sydd heb gyswllt ag unrhyw blaid wleidyddol gydnabyddedig arall
- Ystyr "Aelod llywyddol" yw aelod o brif gyngor sydd wedi ei ddynodi gan y cyngor hwnnw i gyflawni swyddogaethau mewn perthynas â chadeirio ei gyfarfodydd a'i drafodion.
- Mae “prif gyngor” wedi’i ddiffinio gan Ddeddf 1972 a’i ystyr yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.
- Mae i “swyddog priodol” yr un ystyr ag yn adran 270(3) o Ddeddf 1972. Mewn cynghorau cymuned a thref, gallai’r ‘swyddog priodol’ fod y clerc neu swyddog arall a benodwyd at y diben hwnnw.
- Ystyr "corff cyhoeddus" yw corff fel y'i diffinnir yn adran 67(b) o Ddeddf 2013.
- “Ystyr "darpariaeth gymwys" yw darpariaeth sy'n gwneud amrywiad i benderfyniad blaenorol y Panel. (Adran 65 (c) o Ddeddf 2013).
- "Awdurdod cymwys perthnasol" yw awdurdod o fewn ystyr adran 63 o Ddeddf 2013, y mae'n ofynnol iddo gynhyrchu datganiad polisi cyflog.
- Diffinnir “awdurdod perthnasol” yn Adran 144(2) o'r Mesur (fel y'i diwygiwyd) ac yn adran 64 o Ddeddf 2013, ac, at ddibenion y Rheoliadau hyn, mae'n cynnwys awdurdod lleol/prif gyngor, cyngor tref neu gymuned, awdurdod Parc Cenedlaethol ac awdurdod tân ac achub yng Nghymru.
- Mae i “materion perthnasol” yr un diffiniad ag a nodir yn Adran 142(2) o'r Mesur.
- Ystyr “rhestr” yw rhestr sy'n nodi penderfyniadau'r awdurdod mewn perthynas â thaliadau sydd i'w gwneud yn ystod y flwyddyn (fel y maent yn ymwneud â'r awdurdod hwnnw) i holl aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod hwnnw.
- Mae i “Uwch-gyflog” yr un ystyr ag a nodir ym mharagraff 11 o'r Rheoliadau hyn a gellir ei amodi fel “Uwch-gyflog Prif gyngor” i gyfeirio at uwch-gyflog aelod o brif gyngor; “Uwch-gyflog Parc Cenedlaethol” i gyfeirio at uwch-gyflog aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol; neu “Uwch-gyflog Awdurdod Tân ac Achub” i gyfeirio at uwch-gyflog aelod o awdurdod Tân ac Achub.
- Mae “absenoldeb oherwydd salwch” yn golygu’r trefniadau a nodir yn yr Adroddiad Blynyddol.
- Mae i “adroddiad atodol” yr ystyr a nodir yn adran 146(4 i 8) o'r Mesur.

- Mae i "taliad teithio a chynhaliaeth" yr un ystyr ag a nodir ym mharagraff 25 o'r Rheoliadau hyn.
- Mae i "blwyddyn" yr ystyron canlynol:

"blwyddyn ariannol" – cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;

"blwyddyn galendr" – y cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr;

"blwyddyn ddinesig" – y flwyddyn sy'n dechrau ar ddyddiad cyfarfod blynyddol yr awdurdod lleol ac yn dod i ben ar y diwrnod cyn y cyfarfod blynyddol y flwyddyn ganlynol; yn achos awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau Tân ac Achub dyma'r cyfnod o 12 mis sy'n dilyn cyfarfod blynyddol yr awdurdod.

**Rhan 2: Rhestr Taliadau i Aelodau neu Aelodau Cyfetholedig**

**Dechrau cyfnod swydd**

3. Mae cyfnod swydd:

- Aelod etholedig o brif gyngor neu gyngor cymuned neu dref yn dechrau 4 diwrnod ar ôl yr etholiad yn amodol ar ddatganiad gan yr aelod hwnnw ei fod yn derbyn y swydd honno o dan adran 83(1) o Ddeddf 1972.
- Aelod o awdurdod parc cenedlaethol sy'n gynghorydd yn dechrau ar y dyddiad y penodir yr aelod hwnnw fel y cyfryw gan awdurdod cyfansoddol ac mae cyfnod swydd aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru yn dechrau ar ddyddiad y penodiad hwnnw. Mae cyfnod swydd Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr awdurdod parc cenedlaethol yn dechrau pan fydd yn derbyn y swydd honno ar ôl cael ei ethol neu ei benodi'n gadeirydd neu'n ddirprwy gadeirydd awdurdod parc cenedlaethol.
- Aelod o awdurdod tân ac achub yng Nghymru sy'n gynghorydd yn dechrau ar y dyddiad y penodir yr aelod hwnnw fel y cyfryw gan awdurdod cyfansoddol ac mae cyfnod swydd Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr awdurdod tân ac achub yn dechrau ar y dyddiad y'u hetholir gan yr awdurdod hwnnw i'r swydd honno.
- Aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol yn dechrau ar y dyddiad y'i penodir gan yr awdurdod perthnasol.

**Rhestr taliadau i aelodau (y Rhestr) (nid yw'n berthnasol i gynghorau cymuned neu dref – gweler Rhan 5)**

4. Rhaid i awdurdod lunio rhestr o'r taliadau y mae'n bwriadu eu gwneud i'w aelodau a'i aelodau cyfetholedig bob blwyddyn. Rhaid i swm y taliadau hynny gyd-fynd â'r penderfyniadau a wnaeth y Panel ar gyfer y flwyddyn honno yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol. Rhaid llunio'r rhestr cyn pen pedair wythnos yn dilyn cyfarfod blynyddol yr awdurdod.

**Diwygio’r Rhestr**

5. Gall awdurdod ddiwygio'r Rhestr unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod) ar yr amod bod y cyfryw ddiwygiadau yn cyd-fynd â phenderfyniadau’r Panel ar gyfer y flwyddyn honno.

**Cyflog Sylfaenol**

6. Rhaid i awdurdod ddarparu ar gyfer talu cyflog sylfaenol, fel y'i pennwyd gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol, i bob un o'i aelodau. Rhaid talu'r un cyflog i bob aelod. Yn achos prif gynghorau yn unig, mae'r cyflog hwn yn parhau'n daladwy yn ystod cyfnod o absenoldeb teuluol.

7. Ni all aelod dderbyn mwy nag un cyflog sylfaenol gan awdurdod perthnasol, ond gall aelod o un awdurdod perthnasol dderbyn cyflog sylfaenol pellach drwy gael ei benodi'n aelod o awdurdod perthnasol arall (ac eithrio yn yr achos a nodir ym mharagraff 16).

8. Pennir y cyflog sylfaenol yn unol ag Adran 142(3) o'r Mesur a bydd yn un o'r canlynol:

- Y swm y mae’n rhaid i’r awdurdod ei dalu i aelod o’r awdurdod.
- Yr uchafswm y gall yr awdurdod ei dalu i aelod o'r awdurdod.

9. Os bydd cyfnod swydd aelod yn dechrau neu'n dod i ben rywbryd heblaw ar ddechrau neu ar ddiwedd blwyddyn (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod), bydd gan yr aelod hwnnw hawl i gyfran o’r cyflog sylfaenol sy'n cyfateb i’r gyfran o nifer y diwrnodau yn y flwyddyn honno y mae’r aelod yn ei swydd.

10. Os caiff aelod ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod o awdurdod (gweler Rhan 3 o Ddeddf 2000) rhaid i'r awdurdod wrthod talu'r rhan o'r cyflog sylfaenol sy'n daladwy i'r aelod hwnnw mewn perthynas â'r cyfrifoldebau neu'r dyletswyddau y mae'r aelod hwnnw wedi'i atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag eu cyflawni. Rhaid gwrthod y taliad hefyd os yw yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru (Adran 155(1) o'r Mesur).

**Uwch-gyflog**

11. Yn amodol ar baragraffau 12 i 18 gall awdurdod dalu uwch-gyflog i aelodau y mae wedi rhoi cyfrifoldebau penodol iddynt. Rhaid i'r cyfryw daliadau gyd-fynd â phenderfyniad y Panel ar gyfer y flwyddyn honno (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod) y gwneir y taliadau mewn perthynas â hi a rhaid eu nodi yn Rhestr yr awdurdod hwnnw. Yn achos prif gynghorau yn unig, bydd uwch-gyflog yn parhau'n daladwy yn ystod absenoldeb teuluol deiliad y swydd.

12. Bydd y Panel yn pennu'r canlynol yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol:

- Y categorïau o aelodau sy'n gymwys i gael uwch-gyflog na fyddant, o

bosibl, yr un fath ar gyfer pob awdurdod neu gategori o awdurdod.

- Y disgresiwn sydd ar gael i awdurdodau o ran talu uwch-gyflogau na fyddant, o bosibl, yr un fath ar gyfer pob awdurdod neu gategori o awdurdod.

13. Bydd yr uwch-gyflogau sy'n daladwy yn cydymffurfio ag Adran 142(3) o'r Mesur a byddant yn nodi:

- Y swm y mae'n rhaid i awdurdod perthnasol ei dalu i aelod o'r awdurdod.
- Yr uchafswm y gall awdurdod perthnasol ei dalu i aelod o'r awdurdod.

14. Bydd yr uwch-gyflog yn gyfuniad o'r cyflog sylfaenol a swm ychwanegol ar gyfer y cyfrifoldeb penodol perthnasol a bennwyd gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol. Mae'n bosibl na fydd y swm hwn yr un fath ar gyfer pob awdurdod neu gategori o awdurdod.

15. Bydd y Panel, yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol, yn pennu naill ai'r gyfran uchaf o'i aelodaeth neu gyfanswm yr aelodau y gall awdurdod dalu uwch-gyflogau iddynt. Ni all y ganran fod yn uwch na hanner cant y cant heb ganiatâd penodol Gweinidogion Cymru (Adran 142(5) o'r Mesur). Yn achos prif gynghorau yn unig gellir mynd y tu hwnt i'r gyfran neu'r nifer uchaf i gynnwys talu uwch-gyflog i aelod ychwanegol a benodir i ddirprwyo dros dro yn ystod absenoldeb teuluol deiliad swydd ag uwch-gyflog (yn amodol ar y terfyn o 50%).

15(a). Yn achos Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gellir mynd y tu hwnt i'r gyfran neu'r nifer uchaf i gynnwys talu uwch-gyflog i aelod ychwanegol a benodir i ddirprwyo dros dro yn ystod absenoldeb oherwydd salwch deiliad swydd ag uwch-gyflog fel y pennwyd yn yr Adroddiad Blynyddol neu mewn Adroddiad Atodol.

15(b). Mae taliadau i gadeiryddion Cydbwyllgorau neu Is-bwyllgorau i Gydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn ychwanegol at y gyfran uchaf o'i aelodaeth y gall awdurdod dalu uwch-gyflogau iddynt yn amodol ar yr uchafswm cyffredinol o hanner cant y cant sydd wedi'i gynnwys yn Adran 142(5) o'r Mesur. Bydd y Panel yn pennu symiau taliadau o'r fath mewn Adroddiad Blynyddol neu Atodol.

16. Ni ddylai awdurdod dalu mwy nag un uwch-gyflog i unrhyw aelod. Ni all aelod o brif gyngor sy'n cael uwch-gyflog fel arweinydd awdurdod lleol neu aelod o weithrediaeth awdurdod lleol (y mae'r Panel wedi pennu ei fod yn llawn-amser) gael ail gyflog fel aelod a benodir i wasanaethu ar awdurdod parc cenedlaethol neu awdurdod tân ac achub yng Nghymru.

16(a). Nid yw paragraff 16 yn berthnasol i daliadau a wneir i gadeirydd Cydbwyllgor neu Is-bwyllgor i Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu sy'n cael uwch-gyflog am rôl nad yw wedi'i dosbarthu fel un sy'n gyfwerth ag amser llawn. Mae'n parhau i fod yn berthnasol i arweinwyr neu i aelodau o weithrediaeth.

17. Os nad oes gan aelod, drwy gydol y flwyddyn, gyfrifoldebau penodol sy'n rhoi hawl iddo gael uwch-gyflog, bydd tâl yr aelod hwnnw'n gyfran o'r cyflog sy'n

cyfateb i'r gyfran o nifer y diwrnodau yn y flwyddyn honno y mae'r aelod hwnnw'n ysgwyddo'r cyfryw gyfrifoldeb.

18. Os caiff aelod ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod o'r awdurdod (gweler Rhan 3 o Ddeddf 2000) ni ddylai'r awdurdod dalu uwch-gyflog yr aelod tra bydd wedi'i atal dros dro (Adran 155(1) o'r Mesur). Os bydd y penderfyniad i'w atal dros dro yn ymwneud â'r elfen o'r taliad sy'n ymwneud â'r cyfrifoldeb penodol yn unig, gall yr aelod gadw'r cyflog sylfaenol. Mae'n rhaid gwrthod y taliad hefyd os yw yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru.

**Talu i Aelodau Cyfetholedig**

19. Rhaid i awdurdod perthnasol ddarparu ar gyfer talu ffi i aelod cyfetholedig fel y'i pennwyd gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol. Mewn perthynas â'r rheoliad hwn ystyr 'aelod cyfetholedig' yw aelod fel y'i diffinnir yn Adran 144(5) o'r Mesur ac y'i nodir ym mharagraff 2 o'r Rheoliadau hyn.

20. Os caiff aelod cyfetholedig ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod o awdurdod (gweler Rhan 3 o Ddeddf 2000) ni ddylai'r awdurdod dalu ffi aelod cyfetholedig tra bydd wedi'i atal dros dro (Adran 155(1) o'r Mesur).

**Taliadau**

**Cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol**

21. Rhaid i awdurdodau ddarparu ar gyfer gwneud ad-daliad i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdod mewn perthynas â'r cyfryw gostau sy'n gysylltiedig â threfnu gofal ar gyfer plant neu ddibynyddion neu ar gyfer yr aelod unigol yr aethpwyd iddynt yn anorfod wrth gyflawni busnes swyddogol fel aelod neu aelod cyfetholedig o'r awdurdod hwnnw. Ni ddylid gwneud taliadau o dan y paragraff hwn:

- Mewn perthynas ag unrhyw blentyn dros bymtheg oed neu ddibynnydd oni bai bod yr aelod/aelod cyfetholedig yn bodloni'r awdurdod bod angen goruchwyliaeth ar y plentyn neu'r dibynnydd a achosodd i'r aelod fynd i gostau angenrheidiol ar gyfer gofal y plentyn neu'r dibynnydd hwnnw wrth gyflawni dyletswyddau aelod neu aelod cyfetholedig.
- I fwy nag un aelod/aelod cyfetholedig o'r awdurdod mewn perthynas â gofal ar gyfer yr un plentyn neu ddibynnydd am yr un sesiwn ofal.
- I roi mwy nag un ad-daliad ar gyfer gofal i aelod neu aelod cyfetholedig o'r awdurdod na all ddangos er bodd yr awdurdod fod yn rhaid i'r aelod/aelod cyfetholedig wneud trefniadau ar wahân ar gyfer gofalu am wahanol blant neu ddibynyddion.

22. Mae'r Panel yn pennu'r trefniadau o ran y cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol sy'n daladwy gan awdurdod yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol.

23. Os caiff aelod/aelod cyfetholedig ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod (gweler Rhan 3 o Ddeddf 2000) rhaid i'r awdurdod beidio â thalu'r rhan o'r cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol sy'n daladwy i'r aelod neu'r aelod cyfetholedig hwnnw mewn perthynas â'r cyfrifoldebau neu'r dyletswyddau y mae'r aelod neu'r aelod cyfetholedig wedi'i atal dros dro neu wedi'i atal dros dro yn rhannol rhag eu cyflawni. Rhaid gwrthod y taliad hefyd yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru am resymau ac eithrio gwaharddiad (Adran 155(1) o'r Mesur).

24. Rhaid i Restr awdurdod nodi'r trefniadau o ran y cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol sy'n daladwy a'i drefniadau ar gyfer cyflwyno hawliadau, gan roi sylw llawn i benderfyniadau'r Panel yn hyn o beth.

**Taliadau teithio a chynhaliaeth**

25. Yn amodol ar baragraffau 26 a 27 isod mae gan aelod neu aelod cyfetholedig hawl i gael taliadau gan yr awdurdod ar ffurf taliadau teithio a chynhaliaeth yn ôl cyfraddau a bennwyd gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol. Bwriedir i'r cyfryw daliadau dalu costau yr aed iddynt gan aelod neu aelod cyfetholedig wrth gyflawni'r busnes swyddogol oddi mewn i ffin yr awdurdod neu oddi allan iddi.

**(Dim ond i brif gynghorau y mae paragraffau 26 a 27 yn berthnasol)**

26. Dim ond os yw'r awdurdod yn fodlon y gellir cyfiawnhau hynny am resymau economaidd y dylid talu tâl cynhaliaeth i aelod o brif gyngor am gyflawni busnes swyddogol o fewn ffiniau sir neu fwrdeistref sirol lle mae'n aelod. Nid yw hyn yn berthnasol i aelodau cyfetholedig o gyngor sy'n byw y tu allan i'r awdurdod hwnnw.

27. Gall prif gyngor wneud darpariaeth, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yr ystyria'n briodol, i aelodau hawlio costau milltiredd ar gyfer busnes swyddogol mewn cysylltiad â chyfrifoldebau etholaeth neu ward lle maent yn deillio o gyflawni swyddogaethau'r sir neu'r fwrdeistref sirol.

28. Os caiff aelod neu aelod cyfetholedig ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod (gweler Rhan 3 o Ddeddf 2000) rhaid i'r awdurdod wrthod talu'r tâl teithio a chynhaliaeth sy'n daladwy i'r aelod/aelod cyfetholedig hwnnw mewn perthynas â'r cyfrifoldebau neu'r dyletswyddau y mae'r aelod wedi'i atal dros dro neu wedi'i atal dros dro yn rhannol rhag eu cyflawni. Rhaid gwrthod y taliad hefyd yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru am resymau ac eithrio gwaharddiad. (Adran 155(1) o'r Mesur).

## Rhan 3: Darpariaethau pellach

### Pensiynau

29. O dan Adran 143 o'r Mesur, caiff y Panel wneud penderfyniadau o ran y trefniadau pensiwn ar gyfer aelodau o brif gynghorau yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol. Gall penderfyniadau o'r fath:

- Nodi pa aelodau y bydd yn ofynnol i'r prif gyngor dalu pensiwn iddynt.
- Disgrifio'r materion perthnasol y bydd yn ofynnol i awdurdod lleol dalu pensiwn mewn cysylltiad â hwy.
- Gwneud penderfyniadau gwahanol ar gyfer prif gynghorau gwahanol.

### Taliadau i gefnogi swyddogaeth aelod o awdurdod lleol

30. Rhaid i awdurdod lleol ddarparu ar gyfer gofynion aelod i gyflawni ei rôl a'i gyfrifoldebau yn fwy effeithiol. Y Panel fydd yn pennu sut y dylid darparu'r cymorth hwn yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol.

### Trefniadau mewn perthynas ag absenoldeb teuluol

31. Mae Rhan 2 o'r Mesur yn nodi hawliau aelodau o brif gynghorau o ran absenoldeb teuluol. Bydd y Panel yn nodi ei benderfyniadau a'r trefniadau gweinyddol ar gyfer y taliadau hyn yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol.

### Absenoldeb oherwydd salwch

32. Bydd trefniadau absenoldeb hirdymor oherwydd salwch gan ddeiliaid uwch-gyflogau prif gynghorau, Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol neu Adroddiad Atodol y Panel.

## Rhan 4: Taliadau

### Ad-dalu taliadau

33. Gall awdurdod fynnu bod y cyfryw ran o daliad yn cael ei had-dalu pan fydd taliad eisoes wedi'i wneud ar gyfer unrhyw gyfnod pan fydd yr aelod neu'r aelod cyflogedig dan sylw:

a. wedi'i atal dros dro neu wedi'i atal dros dro yn rhannol rhag cyflawni dyletswyddau neu gyfrifoldebau'r aelod neu aelod cyfetholedig hwnnw yn unol â Rhan 3 o Ddeddf 2000 neu Reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno.

b. yn peidio â bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod.

c. neu heb fod â hawl, mewn unrhyw ffordd, i gael cyflog, lwfans neu ffi mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw.

### Peidio â derbyn taliadau

34. O dan Adran 154 o'r Mesur gall unrhyw aelod neu aelod cyfetholedig, drwy hysbysu swyddfa briodol yr awdurdod yn ysgrifenedig, ddewis peidio â derbyn unrhyw ran o'i hawl i gael taliad a bennwyd gan y Panel ar gyfer y flwyddyn benodol honno (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod).

## Rhan 5: Darpariaethau penodol sy'n ymwneud â chynghorau tref a chymuned ("y cyngor")

### Dehongli

35. At ddibenion y Rhan hon, ystyr aelod yw aelod etholedig ac aelod cyfetholedig.

### Taliadau

36. Taliadau:

a) Penderfynir drwy'r Adroddiad Blynyddol neu drwy Adroddiad Atodol ar y trefniadau a'r swm ar gyfer taliad blynyddol i aelodau mewn perthynas â'r costau yr eir iddynt wrth gyflawni rôl aelod. Hefyd, lle bo'n briodol, ystyrir yr amrywiad ym maint neu amgylchiadau ariannol cynghorau gwahanol.

b) Gall y cyngor, os yw'n penderfynu, wneud taliadau i aelodau mewn perthynas â chostau teithio i fynychu dyletswyddau cymeradwy y tu mewn neu'r tu allan i ardal y cyngor. Nodir y swm y gellir ei hawlio yn Adroddiad Blynyddol neu Atodol y Panel.

c) Gall y cyngor, os yw'n penderfynu, ad-dalu costau cynhaliaeth i'w aelodau pan fyddant yn mynychu dyletswyddau cymeradwy y tu mewn neu'r tu allan i ardal y cyngor. Nodir y trefniadau ar gyfer ad-dalu yn Adroddiad Blynyddol neu Atodol y Panel.

d) Gall y cyngor, os yw'n penderfynu, dalu iawndal am Golled Ariannol i'w aelodau lle mae colled o'r fath wedi digwydd trwy fynychu dyletswyddau cymeradwy y tu allan i ardal y cyngor. Nodir y taliadau yn Adroddiad Blynyddol neu Atodol y Panel.

e) Gall y cyngor, os yw'n penderfynu, roi taliad i gadeirydd, dirprwy gadeirydd neu faer y cyngor at ddibenion cyflawni swyddogaethau'r swydd honno. Nodir y taliad yn Adroddiad Blynyddol neu Atodol y Panel

f) Penderfynir drwy'r Adroddiad Blynyddol neu drwy Adroddiad Atodol ar y trefniadau ar gyfer taliadau i aelodau o gyngor mewn uwch-swyddi. Hefyd, lle bo'n briodol, ystyrir maint neu amgylchiadau ariannol cynghorau gwahanol.

g) Rhaid i'r cyngor ad-dalu'r cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol i aelod fel y penderfynwyd yn Adroddiad Blynyddol y Panel.

37. Gall aelod ddewis peidio â derbyn unrhyw ran o'i hawl i gael taliad o dan y Rheoliadau hyn trwy hysbysu swyddog priodol y cyngor yn ysgrifenedig.

38. Rhaid i aelod sy'n hawlio iawndal am Golled Ariannol lofnodi datganiad nad yw'r aelod wedi gwneud, nac yn bwriadu gwneud, unrhyw hawliad arall mewn perthynas â'r mater y mae'r hawliad yn ymwneud ag ef.

39. "Ystyr "Dyletswydd Gymeradwy" dan y Rhan hon yw:

i. Mynychu cyfarfod o'r cyngor neu unrhyw un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r cyngor neu unrhyw gorff arall y mae'r cyngor yn penodi neu'n enwebu pobl iddo neu unrhyw un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau corff o'r fath.

ii. Mynychu unrhyw gyfarfod arall a awdurdodir gan y cyngor neu gan un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r cyngor, neu un o gydbwyllgorau'r cyngor ac un neu fwy o gynghorau, neu is-bwyllgor i gydbwyllgor o'r fath, ar yr amod bod o leiaf ddau aelod o'r cyngor wedi cael eu gwahodd a, lle caiff y cyngor ei rannu'n grwpiau gwleidyddol, bod o leiaf ddau grŵp o'r fath wedi'u gwahodd.

iii. Mynychu cyfarfod unrhyw gymdeithas ar gyfer cynghorau y mae'r cyngor yn aelod ohoni.

iv. Mynychu unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwyir gan y cyngor.

v. Unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwyir gan y cyngor neu ddyletswydd o fath a gymeradwyir gan y cyngor i gyflawni ei swyddogaethau neu swyddogaethau unrhyw un o'i bwyllgorau neu is-bwyllgorau.

## Rhan 6: Amrywiol

### Trefniadau ar gyfer taliadau

40. Rhaid i Restr awdurdod nodi'r trefniadau ar gyfer talu cyflogau, lwfansau a ffioedd i holl aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod hwnnw. Gellir gwneud y taliadau hynny ar yr adegau ac mor rheolaidd ag a bennir gan yr awdurdod.

### Hawliadau

41. Rhaid i awdurdod nodi terfyn amser rhwng y dyddiad y mae hawl i daliad teithio neu gynhaliaeth yn digwydd a phan fydd yn rhaid i gais am y lwfansau hynny gael ei wneud gan y sawl y maent yn daladwy iddo. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhwystro awdurdod rhag gwneud taliad os na hawlir y lwfans o fewn y cyfnod a nodwyd.

42. Rhaid cyflwyno derbynebau priodol sy'n profi costau gwirioneddol gydag unrhyw hawliad am gostau teithio, lwfans cynhaliaeth neu gostau gofal yn unol â'r Rheoliadau hyn (ac eithrio ceisiadau am gostau teithio mewn cerbyd modur preifat neu ar feic).

### Osgoi dyblygu

43. Rhaid i hawliad am gostau teithio, costau cynhaliaeth neu gostau gofal gynnwys datganiad wedi'i lofnodi gan yr aelod neu'r aelod cyfetholedig yn nodi nad yw'r aelod neu'r aelod cyfetholedig wedi gwneud ac na fydd yn gwneud unrhyw hawliad arall mewn perthynas â'r mater y mae'r hawliad yn ymwneud ag ef neu mae'n rhaid anfon datganiad o'r fath gyda'r hawliad.

**Cofnodion o daliadau**

44. Rhaid i awdurdod gadw cofnod o'r taliadau a wnaed yn unol â'r Rheoliadau hyn fel y nodwyd mewn Adroddiad Blynyddol neu Atodol.

**Gofynion o ran cyhoeddusrwydd**

(Mae cynnwys gofynnol gofynion o ran cyhoeddusrwydd wedi'i gynnwys mewn atodiad i'r Adroddiad Blynyddol)

45. Rhaid i awdurdod, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl penderfynu ar ei Restr Cydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer y flwyddyn o dan y Rheoliadau hyn ac unrhyw Adroddiad gan y Panel, a heb fod yn hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r Rhestr yn cyfeirio ati, wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r Rhestr yn ardal yr awdurdod a rhoi gwybod i'r Panel. **(Nid yw'r adran hon yn berthnasol i gynghorau tref a chymuned).**

46. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol, a heb fod yn hwyrach na 30 Medi ar ôl diwedd blwyddyn, rhaid i **bob awdurdod perthnasol** wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi, yn ardal yr awdurdod a rhoi gwybod i'r Panel:

- y cyfanswm a dalwyd ganddo i bob aelod neu aelod cyfetholedig mewn perthynas â chyflog sylfaenol, uwch-gyflog, ffi aelod cyfetholedig, a thaliadau teithio a chynhaliaeth.

- cyfanswm y gwariant ar gyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol.

47. O fewn yr un terfyn amser ac yn yr un modd, rhaid i awdurdod wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi unrhyw gydnabyddiaeth ariannol ychwanegol a dderbyniodd aelod a enwebwyd neu a benodwyd i awdurdod perthnasol arall. **(Mae'r adran hon yn berthnasol i'r prif gynghorau yn unig).**

**Cyhoeddusrwydd i Adroddiadau'r Panel**

48. O dan Adran 146(7) (a) a (b) o'r Mesur, bydd y Panel yn anfon drafft ymgynghori o'i Adroddiad Blynyddol neu Adroddiad Atodol i bob awdurdod perthnasol i'w ddosbarthu i aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod, er mwyn i aelodau ac aelodau cyfetholedig gyflwyno sylwadau arno i'r Panel, o fewn cyfnod o wyth wythnos fel arfer.

49. Yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol bydd y Panel yn nodi'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi ei Adroddiadau yn unol ag Adran 151 ac Adran 152 o'r Mesur.

**Monitro Cydymffurfiaeth â Phenderfyniadau'r Panel**

50. Mae Adran 153 o'r Mesur yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau perthnasol gydymffurfio â'r gofynion a osodir gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol. Mae hefyd yn rhoi pŵer i'r Panel fonitro'r taliadau a wneir gan awdurdodau perthnasol a'i gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth a nodir gan y Panel gael ei darparu. Nodir y gofynion o dan yr adran hon yn Adroddiad Blynyddol y Panel.

## Atodiad 3: Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau

1. Rhaid i brif gynghorau, awdurdodau parciau cenedlaethol (APCau) ac awdurdodau tân ac achub (ATAau) yng Nghymru (ond nid cynghorau tref a chymuned) gynnal Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol flynyddol (‘y Rhestr’) sy’n cyd-daro â phenderfyniadau’r Panel ynghylch cyflogau i aelodau a thaliadau i aelodau cyfetholedig ac y mae’n rhaid iddi gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

Mewn perthynas â phrif gyngor:

a. Enwau’r aelodau a fydd yn cael y cyflog sylfaenol yn unig a’r swm i’w dalu.

b. Enwau’r aelodau a fydd yn cael uwch-gyflog Band 1 a Band 2, y swydd a’r portffolio sydd ganddynt a’r swm i’w dalu.

c. Enwau'r aelodau a fydd yn cael uwch-gyflog Band 3, Band 4 a Band 5, y swydd a'r portffolio sydd ganddynt a'r swm i’w dalu.

d. Enwau’r aelodau a fydd yn cael cyflog dinesig a’r swm i’w dalu.

e. Enwau'r aelodau a fydd yn cael ffi aelod cyfetholedig a ph'un a ydynt yn gadeirydd ynteu'n aelod cyffredin a’r swm i’w dalu.

f. Enwau’r aelodau a fydd yn derbyn uwch-gyflog fel cadeirydd Cydbwyllgor neu Is-bwyllgor i Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu a’r swm i’w dalu.

g. Enwau’r aelodau a fydd yn cael uwch-gyflog penodol neu ychwanegol a gymeradwywyd gan y Panel a’r swm i’w dalu.

Mewn perthynas ag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub:

a. Enwau'r aelodau a fydd yn cael y cyflog sylfaenol yn unig a’r swm i’w dalu.

b. Enw’r aelod a fydd yn cael uwch-gyflog fel cadeirydd yr awdurdod a’r swm i’w dalu.

c. Enwau’r aelodau a fydd yn cael uwch-gyflog fel dirprwy gadeirydd yr awdurdod neu gadeirydd pwyllgor a’r swm i’w dalu.

d. Enwau’r aelodau a fydd yn cael ffi aelod cyfetholedig a pha un a ydynt yn gadeirydd neu’n aelod cyffredin a’r symiau i’w talu.

2. Rhaid hysbysu’r Panel ynghylch diwygiadau a wneir i'r Rhestr yn ystod blwyddyn y cyngor cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

3. Rhaid i brif gynghorau gadarnhau yn eu Rhestr flynyddol nad ydynt wedi mynd dros uchafswm yr uwch-gyflogau a bennwyd ar gyfer y cyngor.

4. Rhaid i brif gynghorau, APCau ac ATAau gynnwys datganiad o dreuliau y gellir eu caniatáu a'r dyletswyddau y gellir eu hawlio mewn perthynas â hwy ar gyfer gofal, teithio a chynhaliaeth yn eu Rhestr flynyddol sy'n cyd-daro â phenderfyniadau'r Panel.

5. Rhaid i'r Atodlen nodi'r trefniadau ar gyfer talu cyflogau, lwfansau a ffioedd i holl aelodau ac aelodau cyfetholedig o'r awdurdod perthnasol (Rheoliad 35 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol); y trefniadau ar gyfer hawlio ar gyfer gofal a chymorth personol, treuliau teithio a chynhaliaeth (Rheoliadau 24 a 36-37 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol); y trefniadau ar gyfer osgoi dyblygu (Rheoliad 38 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol); a'r trefniadau ar gyfer ad-dalu cyflogau, lwfansau a ffioedd (Rheoliad 33 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol). Rhaid i'r rhestr hon hefyd gynnwys y dyletswyddau y gall aelodau ac aelodau cyfetholedig hawlio ad-daliad tuag at dreuliau teithio, cynhaliaeth a chostau gofal a chymorth personol mewn perthynas â hwy.

6. Rhaid i brif gynghorau ddatgan y canlynol yn y Rhestr:

- A oes datganiad o gyfrifoldeb sylfaenol cynghorydd wedi'i wneud.
- A oes disgrifiadau o rôl deiliaid swyddi ag uwch-gyflog wedi'u llunio.
- A gedwir cofnodion o bresenoldeb cynghorwyr.

7. Rhaid i brif gynghorau, APCau ac ATAau wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau cyn gynted ag y bo'n ymarferol a heb fod yn hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi. Dylid cyhoeddi'r Rhestr mewn modd hwylus i aelodau'r cyhoedd.

8. Rhaid anfon y **Rhestr** at Ysgrifenyddiaeth y Panel erbyn 31 Gorffennaf.

9. Rhaid i unrhyw newidiadau i'r Rhestr yn ystod y flwyddyn gael eu cyhoeddi'n brydlon yn y dull uchod a rhaid rhoi gwybod yn brydlon i Ysgrifenyddiaeth y Panel am bob newid.

10. Cadw. Dylai'r terfyn amser ar gyfer cadw cyhoeddiadau fod yn gyson â pholisi'r cyngor ar gadw dogfennau

# Atodiad 4: Cyhoeddi Cydnabyddiaeth Ariannol – Gofynion y Panel

Yn unol ag Adran 151 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae’r Panel yn gwneud y canlynol yn ofynnol:

1. Rhaid i awdurdodau perthnasol gyhoeddi Datganiad o Daliadau a wnaed i’w aelodau ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Rhaid cyhoeddi’r wybodaeth hon ar ffurf ac mewn lleoliad sy’n hygyrch i aelodau’r cyhoedd fan bellaf erbyn 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol flaenorol, a’i darparu ar gyfer y Panel hefyd o fewn yr un terfyn amser. Rhaid darparu’r wybodaeth ganlynol:

    a. Swm y cyflog sylfaenol, yr uwch-gyflog, y cyflog dinesig a’r ffi aelod cyfetholedig a dalwyd i bob aelod neu aelod cyfetholedig o’r awdurdod perthnasol a enwir gan gynnwys achosion lle dewisodd yr aelod beidio â chael y cyfan neu ran o’r cyflog, neu’r ffi ar gyfer blwyddyn y Cyngor sydd dan sylw. Lle talwyd uwch-gyflog, dylid darparu teitl yr uwch-swydd a ddelir.

    b. Y taliadau a wnaed gan gynghorau tref a chymuned i aelodau a enwir fel:

        - Taliadau mewn perthynas â defnyddio’r ffôn, technoleg gwybodaeth, deunyddiau traul ac yn y blaen
        - Taliadau cyfrifoldeb
        - Lwfansau a dalwyd i faer neu gadeirydd a dirprwy faer neu ddirprwy gadeirydd
        - Iawndal am golled ariannol
        - Costau a ysgwyddwyd mewn perthynas â theithio a chynhaliaeth

    c. Yr holl dreuliau teithio a chynhaliaeth a thaliadau eraill a gafodd pob aelod ac aelod cyfetholedig a enwir o’r awdurdod perthnasol, gyda phob categori wedi’i nodi ar wahân.

    d. Swm unrhyw daliadau pellach a gafodd unrhyw aelod a enwir a oedd wedi’i enwebu i, neu’i benodi gan awdurdod perthnasol arall neu gorff cyhoeddus arall yn ôl y diffiniad yn Adran 67 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, sef:

        - bwrdd iechyd lleol
        - panel heddlu a throseddu
        - awdurdod perthnasol
        - corff a ddynodwyd yn gorff cyhoeddus mewn gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru.

    e. Enwau’r aelodau na chawsant y cyflog sylfaenol neu’r uwch-gyflog am eu bod wedi’u hatal dros dro am y cyfan neu ran o’r cyfnod blynyddol y mae’r Rhestr yn berthnasol iddo.

f. Mewn perthynas â chyhoeddi'r cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol, dim ond y cyfanswm a ad-dalwyd yn ystod y flwyddyn y mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol ei gyhoeddi. Mater i bob awdurdod yw penderfynu ar ei ymateb i unrhyw geisiadau Rhyddid Gwybodaeth y bydd yn eu derbyn. Fodd bynnag, ni fwriedir i fanylion unrhyw hawliadau unigol gael eu datgelu.

2. Os **nad oes** unrhyw ffigurau i adrodd arnynt, dylid cyhoeddi hynny a'i ddarparu i'r Panel erbyn 30 Medi.

3. Cadw. Dylai'r terfyn amser ar gyfer cadw cyhoeddiadau fod yn gyson â pholisi'r cyngor ar gadw dogfennau

# Atodiad 5: Crynodeb o'r penderfyniadau newydd ac wedi'u diweddaru sydd i'w gweld yn yr adroddiad hwn

Mae rhifau'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau yn yr adroddiad hwn wedi newid ers yr adroddiadau diwethaf.

Er mwyn helpu awdurdodau, mae'r tabl hwn yn nodi'r penderfyniadau yn yr adroddiad hwn sydd naill ai'n gwbl newydd neu wedi'u diweddaru.

| | |
|---|---|
| **Prif Gynghorau** | |
| Penderfyniad 1: | Bydd y cyflog sylfaenol yn 2022/23 ar gyfer aelodau etholedig o brif gynghorau yn £16,800. |
| Penderfyniad 2: | Bydd lefelau uwch-gyflogau yn 2022/23 ar gyfer aelodau o brif gynghorau fel y'u nodir yn Nhabl 4. |
| Penderfyniad 3: | Rhaid talu cyflog Band 3 o £25,593 i bennaeth dinesig pan fo'n cael ei dalu yn unol â Thabl 4. |
| Penderfyniad 4: | Rhaid talu cyflog Band 5 o £20,540 i ddirprwy bennaeth dinesig pan fo'n cael ei dalu, yn unol â Thabl 4. |
| Penderfyniad 5: | Rhaid i aelod llywyddol, os penodir un ac os yw'n cael cydnabyddiaeth ariannol, gael £25,593 yn unol â Thabl 4. |
| **Cynorthwywyr y Weithrediaeth** | |
| Penderfyniad 13: | Bydd y Panel yn penderfynu fesul achos beth yw'r uwch-gyflog priodol, os o gwbl, ar gyfer Cynorthwywyr y Weithrediaeth |
| **Awdurdodau Parciau Cenedlaethol** | |
| Penderfyniad 23: | Y cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau cyffredin o APC fod yn £4,738, yn weithredol o 1 Ebill 2022. |
| Penderfyniad 24: | Yr uwch-gyflog ar gyfer cadeirydd APC fydd £13,531, yn weithredol o 1 Ebill 2022. |
| Penderfyniad 25: | Rhaid talu uwch-gyflog APC o £8,478 i ddirprwy gadeirydd os penodir un. |
| Penderfyniad 26: | Gellir talu i gadeiryddion pwyllgorau neu uwch-swyddi eraill. Y tâl fydd £8,478. |
| **Awdurdodau Tân ac Achub** | |
| Penderfyniad 30: | Y cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau cyffredin o ATA fydd £2,369, yn weithredol o 1 Ebrill 2022. |
| Penderfyniad 31: | Yr uwch-gyflog ar gyfer cadeirydd ATA fydd £11,162, yn weithredol o 1 Ebrill 2022. |
| Penderfyniad 32: | Rhaid talu uwch-gyflog ATA o £6,109 i ddirprwy gadeirydd os penodir un. |
| Penderfyniad 33: | Gellir talu i gadeiryddion pwyllgorau neu uwch-swyddi eraill. Y tâl fydd £6,109. |
| **Cynghorau Tref a Chymuned** | |
| Penderfyniad 48: | Gall pob cyngor benderfynu talu lwfans presenoldeb i aelodau. Ni ddylai unrhyw daliad fod yn fwy na £30. |

| | |
|---|---|
| | Ni fydd gan aelod sydd mewn colled ariannol hawl i gael lwfans presenoldeb ar gyfer yr un digwyddiad.<br><br>Bydd rhaid i Gynghorau sy'n bwriadu cyflwyno system o Lwfansau Presenoldeb amlinellu manylion y cynllun a'i gyhoeddi ar eu gwefan. |
| Penderfyniad 51: | Y Grŵp perthnasol i gymhwyso'r Fframwaith Cydnabyddiaeth Tâl. |

**Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**
**Ystafell N.03**
**Llawr Cyntaf**
**Adeiladau'r Goron**
**Parc Cathays**
**Caerdydd**
**CF10 3NQ**

**Ffôn: 0300 0253038**
**E-bost irpmailbox@llyw.cymru**

**Mae'r Adroddiad a gwybodaeth arall ynglŷn â gwaith y Panel ar gael ar ein gwefan:**

**Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**